maethu cymru | foster wales

Pen-y-bont ar Ogwr | Bridgend

# Llawlyfr Gofalwyr Maeth

CYNNWYS


Croeso Adran 1

Cefnogaeth i Ofalwyr Maeth Adran 2

Rhwydweithiau cymorth / seibiant / arosiadau dros nos

Amser Teulu (Cyswllt) Adran 3

Gwybodaeth ariannol Adran 4

Cyfarfodydd yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal Adran 5

Hyrwyddo Anghenion Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal Adran 6

Cadw cofnodion a mynediad Adran 7

Gofalu mwy diogel Adran 8

Gofal Meddygol a Hylendid Safonol Adran 9

Ymddygiad heriol Adran 10

Gwaith taith bywyd Adran 11

Diwedd lleoliad gofal maeth Adran 12

Gweithio gyda'r tîm 16+ Adran 13

Materion Cyfreithiol Adran 14

Adolygiad Blynyddol, proses terfynu ac apelio Adran 15

Maethu Rhiant a Phlentyn Adran 16

Gofalwyr Maeth Dros Dro Adran 17

Arolygiadau Adran 18

Cwynion Adran 19

Chwythu'r Chwiban Adran 20

Diogelu Adran 21

| | |
|---|---|
| Honiadau | Adran 22 |
| Cyswllt Teulu | Adran 23 |
| Bwlio | Adran 24 |
| Cyfryngau Cymdeithasol | Adran 25 |

# ADRAN 1

## CROESO

# Croeso

Croeso i Ofal Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr a'ch pecyn gofalwr maeth.

Mae'r pecyn hwn wedi'i ddylunio i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ynglŷn â Maethu i Ben-y-bont ar Ogwr mewn dull yr ydym ni'n gobeithio sy'n ddefnyddiol i chi.

Mae gwahanol fathau o wybodaeth yn y pecyn: gwybodaeth safonol ynglŷn â'r gwasanaeth, gwybodaeth ynglŷn â gwarchod plant a phobl ifanc, beth ydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi a beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni, a llawer o wybodaeth ymarferol y byddwch ei hangen.

Mae hwn yn ganllaw cyffredinol mewn perthynas â'r holl wahanol wasanaethau maethu sydd ar gael yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:-

- Maethu Cyffredinol (tymor byr, tymor hir, gofalu mewn argyfwng a gofal seibiant).
- Unigolion Cysylltiedig (aelodau'r teulu neu gyfeillion sydd wedi cytuno i warchod plentyn nad yw'n gallu aros yng ngofal ei rieni dan drefniant maethu)
- Maethu Trawsnewidiol (lleoliadau cymhleth tymor byr)
- Maethu Rhiant a Phlentyn (cefnogi mam neu dad a'u plentyn mewn lleoliad maethu)
- Cyswllt Teulu (cefnogi plant sydd ag anableddau gydag egwyliau byrion a chefnogaeth)
- Cefnogi Gofal (cefnogi plant sy'n parhau i fod yng ngofal eu rhieni gydag ymweliadau â'r cartref)

Darllenwch drwy'r llawlyfr yn ofalus a siaradwch â'ch Gweithiwr Gofal Goruchwyliol neu unrhyw aelodau o'r tîm ynglŷn ag unrhyw ymholiadau sydd gennych chi.

Rydym yn bwriadu diweddaru'r cynnwys o bryd i'w gilydd; croesawn eich sylwadau a'ch awgrymiadau.

Gobeithio i chi fwynhau maethu i Ben-y-bont ar Ogwr ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

# ADRAN 2

## CEFNOGAETH I OFALWYR MAETH

## Cefnogaeth i Ofalwyr Maeth

Fel gofalwr maeth, cewch gefnogaeth reolaidd gan eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn Nhîm Maethu Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn cynnwys:

### Goruchwyliaeth

Cewch eich neilltuo â Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol a fydd yn cytuno ar amlder yr oruchwyliaeth gyda chi yn ddibynnol ar eich anghenion. Mae'n bosibl y bydd hyn yn amrywio yn ystod eich gyrfa maethu. Rhwng ymweliadau, mae eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol ar gael dros y ffôn ar gyfer unrhyw faterion neu ymholiadau na allant ddisgwyl tan yr oruchwyliaeth nesaf. Os nad yw eich Gweithiwr Cymdeithasol ar gael, mae Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd ar gael bob dydd a all eich cefnogi chi. Mae'n hynod bwysig eich bod yn dweud wrth y Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd am y mater pan fyddwch yn ffonio fel y gall sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth brydlon.

### Gofalwyr Cyswllt

Mae'r rhain yn ofalwyr maeth profiadol sydd ar gael i'ch cefnogi chi gydag ymholiadau, pryderon a chefnogaeth emosiynol. Mae'r Gofalwyr Cyswllt yn cynnal boreau coffi rheolaidd fel y gallwch chi gysylltu â gofalwyr maeth eraill a darparu cefnogaeth i'ch gilydd. Yn ogystal, mae Gofalwyr Cyswllt ar gael i'ch cefnogi chi fynychu cyfarfodydd gyda'r tîm, neu os cewch brofiad o honiad. Rhoddir manylion cyswllt y gofalwr maeth i ofalwyr cyswllt er mwyn eu gwahodd i foreau coffi, digwyddiadau neu i ofyn am adborth am y gwasanaeth maethu.

## Tîm Dyletswydd Argyfwng

Y TDA yw'r Tîm Dyletswydd Argyfwng, mae'n dîm pwrpasol sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth y tu hwnt i oriau'r swyddfa ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng. Maent ar gael y tu hwnt i oriau swyddfa ac ar benwythnosau.

## Hyfforddiant

Mae gofyn i bob gofalwr maeth ymgymryd ag o leiaf 2 gwrs hyfforddiant neu gyfwerth i barhau i gael ei gymeradwyo fel gofalwr maeth. Gellir tystio hyfforddiant drwy fynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol a gynhelir gan y tîm neu pan gynigir gan sefydliadau allanol, cael mynediad i hyfforddiant ar-lein, rhaglenni teledu addas neu ddarllen ychwanegol. Mae angen trafod unrhyw hyfforddiant yr ymgymerir a'i gofnodi yn eich goruchwyliaeth i'w dystio ar gyfer eich adolygiad blynyddol ac i arddangos eich dysg a datblygiad. Mae'n hynod bwysig eich bod yn cadw ar y blaen o ran newidiadau i ddeddfwriaethau, polisïau, gweithdrefnau ac arfer dda. Bydd hyn yn y pendraw yn eich galluogi chi i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc yn eich gofal hyd eithaf eich gallu. Os nad ydych ar y blaen gyda'ch hyfforddiant, yna ni fydd y tîm maethu yn argymell parhau â'r gymeradwyaeth yn y panel yn ystod eich adolygiad blynyddol. Mae'n bwysig bod eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn ymwybodol o unrhyw broblemau a all effeithio ar eich presenoldeb yn yr hyfforddiant.

## Gweithiwr Cefnogi Lleoliadau Gofal Maeth

Mae'r Gweithiwr Cefnogi Lleoliadau Gofal Maeth yn weithiwr pwrpasol sy'n cynnig cefnogaeth unigol i ofalwyr yn ôl yr angen drwy ymweliadau, galwadau ffôn a hyfforddiant un i un. Cyflwynir

atgyfeiriadau i'r gweithiwr gan weithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn y tîm maethu, neu ar gais gweithiwr uwch fel rhan o gyfarfod cefnogi lleoliadau gofal maeth.

## Panel Llety a Sefydlogrwydd

Mae'r Panel Llety a Sefydlogrwydd yn gyfarfod amlddisgyblaethol sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd ac sy'n adolygu ceisiadau adolygu am ragor o gefnogaeth i blant gan eu gweithwyr cymdeithasol. Os oes gan blant sydd mewn lleoliad gofal maeth anghenion penodol sy'n gofyn ymyrraeth arbenigol, bydd y rhain yn cael eu hystyried yma. Gall hyn gynnwys cefnogaeth allgymorth, cefnogaeth arbenigol gan wasanaethau megis Taith er enghraifft (gwasanaethau i blant sydd â phrofiadau cysylltiedig â cham-drin rhywiol), seibiant rheolaidd, hyfforddiant arbenigol ac ymyrraeth.

## Cylchlythyrau

Anfonir cylchlythyrau yn rheolaidd gan y tîm maethu i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau ac eitemau newyddion sy'n ymwneud â maethu a'r awdurdod lleol, a hefyd i'ch gwahodd chi i ddigwyddiadau ymgynghori. Os oes unrhyw beth yr hoffech chi ei gynnwys yn y cylchlythyrau, rhowch wybod i'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol. Mae'n hynod bwysig eich bod yn cadw manylion eich cyfeiriad e-bost yn gyfredol i dderbyn y llythyrau hyn.

## Fostering Network

Fostering Network yw elusen faethu flaenllaw y Deyrnas Unedig. Mae'r elusen yn cefnogi gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill drwy ddarparu hyfforddiant, dysg, ymchwil,

cyngor a gwasanaethau gwybodaeth. Mae gan bob Gofalwr Maeth Pen-y-bont ar Ogwr aelodaeth unigol o Fostering Network fel rhan o'r pecyn cymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan yr elusen wefan bwrpasol sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'i gwasanaethau yn ogystal â manylion cyswllt.

Panel Maethu

Mae'r panel maethu yn ystyried ceisiadau cymeradwyo ac yn argymell a yw unigolyn/unigolion yn addas fel gofalwr maeth ai peidio. Lle mae'r panel yn argymell cymeradwyo, mae hefyd yn argymell telerau'r gymeradwyaeth hon. Caiff argymhellion y Panel eu cadarnhau gan Bennaeth Gwasanaethau Plant. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd 2 wythnos ar ôl dyddiad y panel. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, byddwch yn cael Cytundeb Gofal Maeth. Dyma'r cytundeb ffurfiol rhyngoch chi fel gofalwyr maeth a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n amlinellu'r disgwyliadau ohonoch chi a'r awdurdod lleol yn ogystal â thelerau eich cymeradwyaeth.

Yn gwasanaethu ar y Panel Maethu mae Cadeirydd y Panel, sy'n cyfarwyddo'r drafodaeth, Ymgynghorydd y Panel o'r tîm maethu i fynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau gwaith cymdeithasol gan yr aelodau a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol.

Newid Cymeradwyaeth Dros Dro

Fel gofalwr maeth, ceir adegau lle gall y tîm maethu ofyn i chi gefnogi plentyn neu unigolyn ifanc sydd y tu hwnt i statws eich cymeradwyaeth. Os oes gennych gytundeb gyda'r trefniant, gall y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol gytuno ar newid dros dro i'ch cymeradwyaeth gyda chaniatâd gan y Pennaeth

Gwasanaethau Plant. Gan amlaf, defnyddir cymeradwyaeth dros dro i alluogi gofalwyr maeth i gefnogi plentyn ychwanegol yn y cartref, e.e. cynyddu cymeradwyaeth gofalwr o ddau leoliad gofal maeth i dri er mwyn lleoli grŵp o dri brawd a chwaer gyda'i gilydd.

Gellir cymeradwyo gofalwyr maeth am uchafswm o dri lleoliad gofal maeth, ond mewn amgylchiadau eithriadol gellir cynyddu hyn er mwyn lleoli brodyr a chwiorydd.

Ceisiadau am Seibiant

Rydym eisiau i blant brofi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl a bod yn rhan o fywyd y teulu. Mewn achosion lle mae angen seibiant, mae angen trafod y rhain gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol ar y cyfle cynharaf posibl. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r tîm Lleoliadau ddod o hyd i bâr priodol. Bydd nifer y ceisiadau am seibiant yn cael ei fonitro a'i ystyried yn eich adolygiad blynyddol. Yn ogystal, dylid osgoi seibiant yn ystod cyfnodau sy'n achosi straen neu'n bwysig i blant, megis cyfnod TGAU. Os oes gennych deulu neu gyfeillion sy'n rhan o'ch rhwydwaith cefnogi, yn gyfarwydd i'r plant ac yn fodlon cynnig cefnogaeth, gallwn ymgymryd ag asesiad cymesur a chwblhau gwiriadau sylfaenol er mwyn eu galluogi i ofalu am blant dros gyfnod y seibiant. Mae hyn yn gadarnhaol iawn i'r plant gan ei fod yn adlewyrchu beth fyddai'n digwydd ym mywyd teulu arferol. Mae'r nifer o geisiadau am seibiant a gyflwynir gan ofalwr yn cael ei gofnodi a bydd yn cael ei ystyried wrth argymell telerau cymeradwyo fel rhan o'r adolygiad blynyddol.

Arosiadau Dros Nos

Dylai penderfyniadau ynglŷn ag arosiadau dros nos, gyda chyfeillion o oedran priodol, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau gael eu gwneud gan rieni/gofalwyr maeth. Lle mae trefniadau am

arosiadau dros nos eisoes yn bodoli, dylid ysgrifennu'r rhain yn y Cynllun Lleoli neu'r Cytundeb Lleoli Gofal Maeth

Y brif egwyddor yw y dylai plant sy'n derbyn gofal, cyn belled â phosibl, gael yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau derbyniol gyda chyfoedion o oedran priodol, megis aros gyda chyfeillion, ag y byddai rhieni eu cyfoedion yn eu caniatáu yn rhesymol. Mae rhieni yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar a oes risgiau amlwg ynghlwm ag aros mewn cartref penodol neu aros dros nos dan amgylchiadau penodol, ac fel rheol dylai penderfyniadau cyffelyb gael eu gwneud i blant mewn gofal maeth neu breswyl gan eu gofalwyr cyfrifol. Dylid seilio penderfyniadau ar asesiad risg rhesymol. Dylech gael gwybod am unrhyw unigolion, cyfeiriadau neu ardaloedd a all roi'r unigolyn ifanc mewn perygl.

Ar gyfer unrhyw gynlluniau o arosiadau dros nos arfaethedig, bydd angen i chi ymgynghori â Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn a cheisio'r wybodaeth briodol gan riant/gwarchodwr y cyfaill.

Bydd angen i chi gysylltu â rhieni'r cyfaill i gadarnhau'r canlynol:

- Eu bod yn ymwybodol o'r gwahoddiad.
- Eu bod yn cytuno â'r gwahoddiad.
- Hyd cytunedig yr ymweliad gan bawb ynghlwm.
- Gweithgareddau derbyniol yn ystod yr ymweliad.
- Eu bod yn ymwybodol na ellir caniatáu'r plant i rannu gwely

Dylai gofalwyr maeth sicrhau bod yr unigolyn ifanc yn cael ei gludo i'r cyfeiriad a nodwyd ar gyfer yr arhosiad dros nos, a'i gasglu oddi yno, a chadarnhau bod oedolion yn bresennol yn ystod yr arhosiad dros nos.

Os nad yw'r unigolyn ifanc yn dychwelyd fel y cytunwyd, yna dylid gwneud bob ymdrech i ganfod ei leoliad. Bydd unrhyw fethiant i ddychwelyd yn datgan yr unigolyn ifanc yn Absennol heb

Awdurdod a bydd angen hysbysu'r TDA/Gweithiwr Cymdeithasol, a'r Heddlu.

- Mae unrhyw geisiadau am fwy nag arhosiad dros nos yn gofyn trafodaeth bellach rhwng pawb ynghlwm. Mae'r rheol 23 awr yn berthnasol, lle nad yw plentyn/unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal yn cael aros mewn lleoliad heb ei reoli am gyfnod hirach na 23 awr.
- Os oes rheswm da i ystyried y byddai unigolyn ifanc mewn perygl yn aros mewn cartref penodol, gall gweithiwr cymdeithasol yr unigolyn ifanc neu'r awdurdod lleoli benderfynu gwneud ymholiadau pellach gan gynnwys gwiriad PNC neu DBS cyn gwneud penderfyniad ar yr arhosiad dros nos arfaethedig

Lle cyflwynir ceisiadau am arosiadau dros nos heb eu cynllunio, disgwylir i'r gofalwyr wneud penderfyniad yn seiliedig ar a oes risgiau amlwg i aros mewn cartref penodol neu aros dros nos dan amgylchiadau penodol. Dylid seilio penderfyniadau ar asesiad risg rhesymol. I gynorthwyo gydag asesu priodoldeb arhosiad dros nos achlysurol gyda chyfeillion, bydd angen i chi gysylltu â rhieni'r cyfaill fel yr uchod, ond ystyried y canlynol hefyd:

- A oes unrhyw gyfyngiadau perthnasol wedi'u cynnwys yng nghynllun gofal neu gytundeb lleoliad yr unigolyn ifanc, neu unrhyw orchmynion llys, sy'n cyfyngu'r unigolyn ifanc rhag cael arosiadau dros nos penodol?
- A oes unrhyw ffactorau ym mhrofiadau neu ymddygiad yr unigolyn ifanc yn y gorffennol a fyddai'n atal arhosiad dros nos?
- A oes unrhyw seiliau dros bryderu y gallai'r unigolyn ifanc fod mewn risg sylweddol yn y cartref dan sylw neu'r gweithgareddau arfaethedig?
- Beth yw diben yr arhosiad dros nos?
- Hyd yr arhosiad?

- Oedran a lefel dealltwriaeth yr unigolyn ifanc?

Dylai gofalwyr maeth roi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc ar y cyfle cynharaf bod y trefniant hwn mewn lle ar gyfer arhosiad dros nos.

<u>Arosiadau dros nos yng nghartref y Gofalwr Maeth</u>

Lle mae plant/pobl ifanc yn gofyn am gael cyfaill i aros dros nos, dylai'r Gofalwr Maeth roi gwybod i'w weithiwr cymdeithasol goruchwyliol ar y cyfle cynharaf a thrafod y trefniadau gofal diogel priodol a fydd angen eu rhoi ar waith.

Ni chaniateir plant, dan unrhyw amgylchiadau, i rannu gwely. Bydd angen i'r gofalwr maeth roi gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol am y trefniadau cysgu ac mae angen cofnodi hyn yng nghofnodion y gofalwr maeth.

# ADRAN 3

## AMSER TEULU (CYSWLLT)

## Amser Teulu (Cyswllt)

Yn cyfeirio at y ffyrdd mae plant mewn gofal maeth yn parhau i gysylltu â'r bobl sy'n bwysig iddynt, megis eu rhieni, brodyr a chwiorydd a'r teulu estynedig. Gall hyn fod yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb, drwy lythyrau, galwadau ffôn, e-bost a rhwydweithiau cymdeithasol megis Skype. Gall cyswllt fod yn brofiad gwerth chweil i blant a'u helpu nhw i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth a dealltwriaeth o'u gorffennol. Gall cyswllt hefyd fod yn brofiad emosiynol anodd i blant a'u gofalwyr maeth, a byddwch chi a'r plant angen cefnogaeth yn yr achosion hynny.

Mae trefniadau cyswllt wedi'u sefydlu yng nghynllun gofal y plentyn, mae'r rhain yn amodol ar adolygu rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau yn bodloni anghenion y plentyn/plant. Ceir adegau lle bydd y trefniadau cyswllt yn cael eu sefydlu gan y llys o fewn y gweithdrefnau gofal. Yn aml, gall trefniadau cyswllt yn ystod gweithdrefnau'r llys fod yn aml iawn gan nad yw'r llys wedi penderfynu eto ar gynllun gofal parhaol i'r plentyn a gall y rhieni/aelodau'r teulu fod yn destun asesiad i ofalu am y plentyn. Dan yr amgylchiadau hyn, fel rheol caiff y cyswllt ei oruchwylio oddi wrth y lleoliad gan aelod o'r awdurdod lleol.

Rhaid i ofalwyr maeth hyrwyddo cyswllt rhwng plant a'u teuluoedd genedigol neu eraill sy'n arwyddocaol iddynt yn unol â'u cynllun gofal.

Weithiau, gall trefniadau cyswllt gynnwys cyfyngiadau a all fod yn arbennig o anodd i unigolion cysylltiedig a gofalwyr maeth eu rheoli. Gall anghenion lles y plentyn olygu y gellir gofyn i aelodau'r teulu neu gyfeillion beidio â mynychu'r lleoliad gofal maeth a gall hwn fod yn gyfnod emosiynol (gall hyn weithiau ddigwydd mewn lleoliadau maethu cyffredinol hefyd). Mae'n bwysig siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ynglŷn â hyn, ceisio cefnogaeth cyfoedion ym moreau coffi ar gyfer gofalwyr cysylltiedig neu wneud cyswllt gyda'r gofalwr cyswllt os oes angen cymorth arnoch gyda hyn.

Ceir achosion lle mae plant yn cael cyswllt gyda phobl sydd wedi'u cam-drin. Mae'n bwysig bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gefnogi'r plentyn/plant gyda chysylltiadau o'r fath a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth emosiynol gyda'r trefniadau hyn. Ceir achosion lle nad yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol bod yr unigolyn sydd mewn cysylltiad â'r plentyn wedi'i gam-drin. Dyma le gall eich cofnodion a'ch trafodaethau ynglŷn â chyswllt yn ystod eich goruchwyliaeth fod yn allweddol. Os ydych yn sylwi ar unrhyw newidiadau sylweddol yn ymddygiad neu fod y plentyn/plant yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n peri pryder, mae'n hanfodol y cyfathrebir hyn gyda'u gweithiwr cymdeithasol cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon neu fel gellir sefydlu cynlluniau i gefnogi'r plentyn gyda'r cyswllt yn y ffordd orau.

Gall hyrwyddo cyswllt rhwng plentyn ac unigolyn sydd wedi achosi niwed iddo fod yn heriol. Mae'n bwysig eich bod yn trafod eich teimladau personol yn yr oruchwyliaeth ac yn hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu. Mae angen bod yn ymwybodol o ddymuniadau a theimladau'r plentyn ynglŷn â'r cyswllt a gall gwneud y penderfyniadau cywir mewn perthynas â'r cyswllt fod yn hynod anodd os nad yw'r plentyn/plant yn mynegi eu safbwyntiau eu hunain. Gall cefnogaeth eiriolaeth fod yn fuddiol iawn ar gyfer trafodaethau ynglŷn â chyswllt.

Weithiau, bydd cyswllt yn digwydd yn lleoliad y gofal maeth. Mae'n bwysig bod unrhyw drefniadau yn cymryd i ystyriaeth aelodau eraill o'r cartref a all gynnwys plant eraill mewn gofal maeth neu eich plant eich hun. Fel rheol, ategir trefniadau cyswllt gan gytundeb ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod pawb yn glir ynglŷn â beth yw'r disgwyliadau a sut i godi unrhyw bryderon. Mae hyn yn hanfodol os ydych wedi cytuno i oruchwylio'r cyswllt.

Mae'n arbennig o bwysig hyrwyddo cyswllt rhwng brodyr a chwiorydd mewn achosion lle nad ydym wedi gallu lleoli'r brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, neu le nad yw gwneud hynny yn gyson

ag anghenion y plant. Prin iawn yw'r achosion lle byddai angen goruchwylio cyswllt rhwng brodyr a chwiorydd gan yr awdurdod lleol gan y gallai effeithio'n negyddol ar ansawdd y cyswllt. Lle bynnag bo'n bosibl, dylai cyswllt fod mor naturiol â phosibl a'i reoli gyda chyn lleied o drefniadau cyfyngol â phosibl, lle mae'r risgiau yn caniatáu hyn. Fel y cyfryw, disgwylir i ofalwyr maeth sy'n cefnogi brodyr a chwiorydd wedi'u gwahanu wneud trefniadau addas i gefnogi cyswllt anffurfiol rheolaidd rhyngddynt. Dylid trafod y disgwyliadau hyn a'u cytuno gyda chi ar y cyfle cynharaf a byddant yn destun adolygiad rheolaidd.

Bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn trafod trefniadau cyswllt gyda chi ac yn darparu cyngor ac arweiniad i chi. Ceir achosion, er enghraifft, lle cytunir i beidio â rhoi gwybod i'r plentyn cyn y cyswllt lle mae aelod o'r teulu wedi bod yn annibynadwy, ac adegau eraill mae'n bosibl y bydd angen gwneud paratoadau penodol gyda'r plentyn er mwyn cael cyswllt.

Lle mae plant ifanc a babanod mewn lleoliad gofal maeth, mae'n allweddol bod y trefniadau ar gyfer darparu dillad, bwyd a chlytiau yn cael eu trafod a'u cytuno ymlaen llaw. Lle mae teuluoedd yn cael eu hasesu i ofalu am blant, gellir cael achosion lle mae disgwyl iddynt ragweld anghenion y plant yn ystod y cyswllt a darparu ar eu cyfer fel rhan o'u hasesiad. Lle mae penderfyniad ynglŷn â sefydlogrwydd plentyn wedi'i wneud eisoes, mae'n debygol y byddai gofyn i'r gofalwr ddarparu ar gyfer y plentyn. Ceir achosion lle bydd gofyn i chi fynychu'r cyswllt i ddarparu cefnogaeth i blentyn sy'n ei chael hi'n anodd gyda'r trefniadau. Gall cyswllt fod yn unigol iawn ac wedi'i deilwra i anghenion y plant, gall brodyr a chwiorydd hyd yn oed gael trefniadau cyswllt gwahanol. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn trafod cyswllt gyda chi ym mhob goruchwyliaeth i sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth.

# ADRAN 4

## GWYBODAETH ARIANNOL

## Cyllid

### Lwfans Maethu

Mae'r rhain yn darparu Gofalwyr Maethu â lwfans sy'n ddigon i dalu costau gofalu am blentyn sy'n derbyn gofal. **Noder, ar gyfer y plentyn mae'r arian ac mae argymhelliad ynglŷn â sut dylid gwario'r lwfans hwn.**

Telir y lwfans Maethu ar y lefel a argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n seilio ei hargymhellion am daliadau ar amcangyfrif o gostau gwirioneddol gwarchod plentyn. Bydd lefel y lwfans cynhaliaeth, yn mynd yn ôl oedran y plentyn.

**Gweler dadansoddiad o lwfansau Gofalwyr Maeth ar sail oedran plentyn / unigolyn ifanc ar Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.**

## Gwyliau i Blant sy'n Derbyn Gofal

**Noder nad yw'r Awdurdod Lleol yn annog mynd â phlant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol a bydd** angen i chi roi gwybod i Weithiwr Cymdeithasol y plentyn a'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol o unrhyw drefniadau gwyliau mor fuan ymlaen llaw â phosibl, rhag ofn bod angen cynghori/ymgynghori â'r llys/rhieni.

Os ydych yn bwriadu mynd â phlant/unigolion ifanc dramor, rhaid i chi gael llythyr awdurdodi gan yr Awdurdod Lleol, a fydd yn gofyn llofnod gan Uwch Reolwr. Rhaid i'r ffurflen gais gael ei harwyddo naill ai gan riant sydd â Chyfrifoldeb Rhiant, neu gan Uwch Reolwr yr Awdurdod Lleol.

Gyda'r ffurfioldebau hyn mewn golwg, dylech roi digon o rybudd i Weithiwr Cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc. Unwaith y bydd gan blentyn/unigolyn ifanc basbort, dylai hynny symleiddio'r mater, fodd bynnag caniatewch ddigonedd o amser i ymgynghori â'r rhieni.

## Cynilion i Blant

Ar ôl dynodi'r cynllun sefydlogrwydd i'r plentyn/unigolyn ifanc yn ei ail adolygiad, dylai'r Gofalwyr Maeth agor cyfrif banc i'r plentyn/unigolyn ifanc sydd yn eu gofal. Rhaid i'r cyfrif hwn fod gwbl ar wahân i'r eraill ac yn perthyn i'r plentyn unigol hwnnw yn unig.

Anogir bob Gofalwr Maeth i gynilo yn y cyfrif hwn ar gyfer y plentyn/unigolyn ifanc yn ei ofal. Yn rhai achosion, gellir cynilo naill ai rhan o'r arian poced neu'r cwbl. Er enghraifft, mae'n bosibl nad oes angen arian poced ar faban bob wythnos: gellir trosglwyddo'r swm hwn i'r cyfrif cynilion. Os bydd plentyn/unigolyn ifanc yn dychwelyd neu adael y lleoliad gofal maeth, bydd yr holl arian a chyfriflen, yn cael eu trosglwyddo gyda'r plentyn/unigolyn ifanc. Bydd yn cynorthwyo'r plentyn i ddysgu sgiliau rheoli arian os ydyw'n bresennol pan fyddwch yn agor y cyfrif er mwyn iddo gael gweld beth sydd ei angen.

Yn yr oruchwyliaeth, bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol fonitro cyfrif cynilion plant yn eich gofal, a bydd hyn yn cynnwys monitro swm yr arian yn y cyfrif ac edrych ar gyfriflenni.

Y plentyn sy'n berchen ar y cynilion ac ni ellir eu defnyddio heb ganiatâd gan y plentyn. Gellir rhoi caniatâd yn unig gyda goruchwyliaeth ei weithiwr cymdeithasol a rhaid ei gofnodi'n ofalus iawn. Er enghraifft, rhaid iddo gynnwys y swm cytunedig i'w ddefnyddio, diben ei ddefnyddio, balans y cyfrif cyn ac ar ôl a'r drafodaeth, caniatâd a chytundeb gan bawb ynghlwm. Pan mae plentyn yn gadael y lleoliad gofal maeth, ni ellir cadw'r cynilion dan unrhyw amgylchiadau.

LWFANS BYW I'R ANABL (DLA)

Rhaid sefydlu cytundeb/cynllun ffurfiol gyda Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn mewn perthynas â DLA a sut gellir ei wario. Dylai taliadau DLA gael eu cadw mewn cyfrif banc ar wahân a dylid cadw cofnodion gyda derbynebau i dystio sut mae'n cael ei ddefnyddio. Mae arweiniad ar gyfer DLA yn datgan na ellir ei gynilo ac mae angen ei ddefnyddio yn wythnosol i gefnogi'r plentyn gyda'i anghenion.

Dillad

Yn y lwfans maethu wythnosol mae elfen ar gyfer prynu dillad, fodd bynnag mae'n bosibl y cewch lwfans dillad cychwynnol ar ddechrau lleoliad gofal maeth yn sgil diffyg dillad neu ddillad anaddas. Dylid trafod y cais hwn gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol gan nad yw hwn yn lwfans awtomatig a bydd yn seiliedig ar angen unigol.

Arian cinio

Mae hwn wedi'i gynnwys yn y lwfans maethu, ac yn cynnwys pecynnau bwyd hefyd.

Arian poced

Mae hwn wedi'i gynnwys yn y lwfans maethu a dylid ei drafod gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn yr oruchwyliaeth.

Costau teithio

Telir costau milltiroedd lle mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gofyn i chi gludo'r plentyn maeth i leoliad penodol yn unig, e.e. apwyntiadau iechyd, ysgol, sesiynau cyswllt neu os ydych yn mynychu cyfarfod proffesiynol ar ran y plentyn etc. Nid yw costau teithio yn berthnasol am ddyddiau allan teuluol, gweithgareddau hamdden, siopa etc.

Rhaid i chi roi gwybod i'ch cwmni yswiriant eich bod yn Ofalwr Maeth a chynnwys defnydd busnes ym mholisi eich cerbyd. Ni fydd hawliau milltiroedd yn cael eu had-dalu oni bai eich bod yn dangos prawf i'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, fel rheol nid yw ychwanegu defnydd busnes yn achosi cost.

Mae angen cwblhau bob hawl milltiroedd yn fisol, gyda darlleniadau'r milomedr. Dylech gadw derbynebau petrol at ddibenion treth. Ni ellir a ni fydd ffurflenni sydd dros **3 mis** oed neu ffurflenni wedi'u cwblhau yn anghywir yn cael eu had-dalu.

Mae ad-daliadau am gostau teithio eraill, e.e. tocynnau tren/bws, am deithiau cyffelyb hefyd ar gael. Dylech ymgynghori â'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol am gyngor ynglŷn ag ad-dalu treuliau o'r fath, lle bynnag sy'n bosibl cyn dechrau'r daith. Cadwch eich derbynebau bob tro.

Dulliau talu

Bydd taliadau yn cael eu gwneud drwy daliad uniongyrchol i'ch cyfrif banc, sef yr opsiwn dewisol.

Mae'n bosibl y ceir achlysur lle gwneir gordaliad i chi yn sgil y plentyn/unigolyn ifanc yn symud o'ch gofal. Noder mai cyfrifoldeb y Gofalwr Maeth yw rhoi gwybod i'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol cyn gynted â phosibl, (fel y byddech petai problem gydag unrhyw dandaliad).

Treth Incwm

Fel Gofalwr Maeth, mae Cyllid y Wlad yn eich trin fel unigolyn **hunangyflogedig**, gan eich bod yn cael incwm wrth ddarparu gofal maeth i blant/pobl ifanc, felly mae'n rhaid i chi gofrestru yn hunangyflogedig gyda CThEM. Bydd hyn yn rhoi'r hawl i chi am ryddhad gofal maeth a chewch ennill £10,000 cyn cael eich trethu yn ogystal â £200 fesul plentyn fesul wythnos cyn 11 oed a £250 fesul plentyn fesul wythnos ar ôl hynny. Byddai sefyllfa lle gofynnir i ofalwr dalu unrhyw dreth yn anarferol iawn.

Cymhorthdal Incwm a Chredyd Treth Gwaith

Gall gofalwyr maeth hawlio Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith. Byddai'n well i'r rhan fwyaf o ofalwyr maeth hawlio Cymhorthdal Incwm na chael Credyd Treth Gwaith, ond sicrhewch eich bod yn cael cyngor arbenigol, er enghraifft gan Cyngor ar Bopeth a/neu cysylltwch â Llinell Gymorth Credydau Treth ar 0345 300 3900 i sicrhau eich bod yn gwneud y dewis cywir dan eich amgylchiadau penodol chi. O ran yr wythnosau lle nad oes gennych blentyn wedi'i leoli gyda chi, ni allwch hawlio Cymhorthdal Incwm (oni bai y cewch hawlio Cymhorthdal Incwm am unrhyw reswm arall, er enghraifft os ydych yn

rhiant sengl gyda phlentyn dan bump oed neu os ydych yn cael lwfans gofalwyr).

Budd-daliadau yn dibynnu ar Brawf Modd

Nid yw plant maeth yn cael eu cyfrif fel rhan o'ch aelwyd pan gyfrifir unrhyw fudd-daliadau yn dibynnu ar brawf modd. Yn yr un modd, nid yw lwfansau a ffioedd maethu yn cael eu cyfrif fel incwm wrth gyfrifo unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol sy'n dibynnu ar brawf modd:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth seiliedig ar Incwm
- Budd-dal Tai
- Cymorth gyda'r Dreth Gyngor

Mae'r budd-daliadau hyn yn ogystal â chredydau treth, a heblaw am gymorth gyda'r dreth gyngor, yn cael eu cyflwyno rhwng 2014 a 2018 a'u disodli gan fudd-dal newydd o'r enw Credyd Cynhwysol.

Mae nifer o ofalwyr maeth mewn sefyllfa unigryw, gan y gallwch ddewis a ydych am gael eich ystyried yn 'gweithio', a hawlio Credyd Treth Gwaith, neu 'ddim yn gweithio' a hawlio Cymhorthdal Incwm (fel rheol os ydych yn ofalwr maeth sengl).

Budd-dal Plant a Chredydau Treth Plant

Ni all gofalwyr maeth hawlio Budd-dal Plant am unrhyw blant maeth sy'n cael eu lleoli gyda nhw. Fodd bynnag, gallwch hawlio Budd-dal Plant ar gyfer eich plentyn eich hun, neu blant arall sy'n byw gyda chi (nad ydyw'n blant maeth). I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Desg Gymorth Budd-dal Plant: 0300 200 3100 neu ewch i wefan CThEM.

Telir Credyd Treth Plant i chi os ydych yn gyfrifol am blentyn neu unigolyn ifanc sydd fel arfer yn byw gyda chi. Ni all gofalwyr plant hawlio Credyd Treth Plant am unrhyw blentyn maeth sydd yn eu gofal oherwydd eu bod yn cael lwfans maethu sy'n rhaid talu cost gyfan

gofalu am bob plentyn sydd wedi'i leoli gyda nhw. Os yw gofalwr maeth yn canfod ei fod yn cael Credyd Treth Plant am blentyn maeth, byddem yn ei gynghori i beidio â gwario'r arian, ei gadw i un ochr a rhoi gwybod i CThEM.

Yswiriant

RHAID i chi roi gwybod i'ch cwmni yswiriant eich bod yn maethu, fel rheol nid yw hyn yn cyflwyno cost.

Mae gan yr Awdurdod Lleol beth darpariaeth yswiriant i bob Gofalwr Maeth. Telir hwn mewn perthynas â difrod sylweddol a wneir i'ch eiddo gan y plentyn/unigolyn ifanc sy'n cael ei leoli gyda chi.

Os bydd angen i chi gyflwyno hawl, rhaid i chi roi gwybod i'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, fel cynrychiolydd i'r swyddog Yswiriant - ef sy'n trefnu i ddod allan ac edrych ar y golled/difrod.

Os bydd eich premiwm yn codi o ganlyniad i wneud hawl, gall yr Awdurdod Lleol dalu'r gwahaniaeth os ydyw'n ymwneud â hawl ar gyfer y plentyn ydych chi'n gofalu amdano.

Ffonau symudol i blant

Lle teimlir ei bod yn briodol i blant mewn lleoliad gofal maeth fod yn berchen ar ffôn symudol, argymhellwn i'r rhain fod yn ffonau talu wrth fynd, yn hytrach na chytundeb. Bydd hyn yn eich galluogi chi i addysgu'r unigolyn ifanc am reoli cyllidebau ac yn osgoi problemau posibl o ran costau cynyddol. Ni fydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfrifoldeb am gostau ffonau symudol nac eu defnydd.

Os ydych yn dewis ymgymryd â chytundeb ar gyfer plentyn mewn lleoliad gofal plant ac mae'r plentyn yn symud neu'n newid lleoliad yn ystod cyfnod y cytundeb, y gofalwr maeth a ymgymerodd â'r cytundeb sy'n parhau i fod yn gyfrifol amdano a'r taliadau.

# ADRAN 5

## CYFARFODYDD YN YMWNEUD Â PHLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyfarfodydd yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal

Mae dwy ffordd y daw plentyn/plant i ofal maeth, cynlluniedig neu mewn argyfwng. Yn yr achos cyntaf, mae'r rhieni wedi cytuno a gwneir cynlluniau cyflwyno ar gyfer pawb sydd ynghlwm i gwrdd â'i gilydd a dod i adnabod ei gilydd. Mae gan y plentyn gyfle i gwrdd â'r gofalwr maeth a gweld lle mae'n byw ac yna trefnir dyddiad i'r plentyn symud i mewn gyda'r gofalwr.

Weithiau os yw'n briodol, mae rhieni wedi'u cynnwys yn y cyflwyniadau a symud eu plentyn i'r lleoliad. Yn yr achos arall, ni ellir cynnal cyflwyniadau a bydd plentyn yn cael ei leoli yn syth er ei ddiogelwch ei hun.

Pan fydd y plentyn/plant yn cael eu lleoli, bydd eu gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ffurflenni i chi gyda gwybodaeth am y plentyn, aelodau ei deulu, ysgol ac iechyd. Mae'n hynod bwysig bod y gofalwyr yn cael y ffurflenni hyn ar y diwrnod y lleolir plentyn gyda chi. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, neu yn ei absenoldeb y Gweithiwr ar Ddyletswydd ar gyfer y Tîm Maethu, yn eich darparu chi â chytundebau Lleoliad a Gofal Diogel ar gyfer y plant wedi'u lleoli gyda chi.

Mae'n hynod bwysig eich bod yn cael gwybod am unrhyw anghenion iaith a chyfathrebu sydd gan eich plentyn. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y gall plant gyfathrebu'n ystyrlon gyda'u gofalwyr, gall hyn gynnwys cymhorthion, addasiadau neu hyfforddiant mewn dulliau cyfathrebu eraill. Mae'n bwysig bod plant yn cael cefnogaeth i gymryd rhan yng nghynllunio gofal ac adolygu yn ystod eu lleoliad gofal maeth a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd y darperir gofal a chefnogaeth iddynt.

## Cyfarfod Cynllunio Lleoliadau.

Yn ystod yr wythnos gyntaf wedi i blentyn gael ei leoli gyda chi, trefnir Cyfarfod Cynllunio Lleoliad lle mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant, gofalwyr maeth, gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'r plentyn/unigolyn ifanc (lle sy'n briodol) yn cwrdd i drafod materion ynglŷn â'r plentyn/unigolyn ifanc sy'n aros gyda chi ac i sefydlu'r prif reolau a disgwyliadau gan y gofalwyr a'r plentyn/unigolyn ifanc. Bydd rhieni hefyd yn mynychu'r cyfarfod hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, mae'r cyfarfod yn trafod pynciau megis trefn ddyddiol, amser gwely, anghenion dietegol, amseroedd bwyta, hylendid, addysg, arian poced, diddordebau, trefniadau cyswllt, materion iechyd.

Lle mae plant yn symud yn gynlluniedig rhwng lleoliadau gofal maeth, dylid cynnal cyfarfod cynllunio lleoliadau cyn y gwneir lleoliad a dylai gynnwys cynllun cyflwyno i'r plentyn gael cwrdd â'r gofalwr ac ymweld â'r lleoliad. Mae amlder a hyd y cyflwyniadau yn amrywio yn unol ag anghenion unigol y plentyn a rhaid ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn.

## Ymweliadau statudol

Rhaid i bob plentyn / unigolyn ifanc mewn cartref maeth gael ymweliad gan weithiwr cymdeithasol ar brydiau wedi'u cynllunio ymlaen llaw. Gellir ymweld â'r plentyn/unigolyn ifanc yn unigol a bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cofnodi'r ymweliad yn ysgrifenedig, ar iechyd, lles, ymddygiad a chynnydd y plentyn/unigolyn ifanc sydd mewn lleoliad gofal maeth ac ar gyflwr cartref y gofalwr maeth a bydd angen iddo weld ystafell wely y plentyn/unigolyn ifanc.

Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ymweld â'r plentyn/unigolyn ifanc o fewn un wythnos ar ôl lleoli ac yn syth petai gwyn neu honiad. Yna o

leiaf bob chwe wythnos am y flwyddyn gyntaf, ac yna bob wyth wythnos wedyn. Gall hyn gynyddu i bob chwarter mewn rhai achosion.

## Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal

Cynhelir yr adolygiad cyn pen mis o leoli'r plentyn/unigolyn ifanc gyda chi. Mae'r cyfarfod hwn yn ymwneud ag addysg, iechyd, rhieni, plentyn/unigolyn ifanc, gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall a all fod ynghlwm â'r plentyn. Bydd swyddog adolygu annibynnol yn cadeirio'r cyfarfod hwn i adolygu sut mae'r lleoliad yn mynd. Yn y cyfarfod hwn, gellir sefydlu neu newid Cynllun Gofal y plentyn/unigolyn ifanc. Fel rheol, mae'r adolygiadau hyn yn cael eu cynnal yng nghartref y gofalwr maeth oni bai yr ystyrir ei bod yn hanfodol eu cynnal mewn lleoliad niwtral am resymau diogelwch. Wedyn, adolygir y sefyllfa mewn tri mis ac yna bob chwe mis i wirio sut mae pethau'n mynd.

Ychydig cyn bob adolygiad, anfonir dogfen ymgynghori atoch i'w chwblhau yn gofyn i chi am eich safbwyntiau a sylwadau ynglŷn â sut mae'r lleoliad yn mynd. Yn ogystal, bydd gan y plentyn/unigolyn ifanc sydd wedi'i leoli hawl i leisio barn ac mae'n bwysig ei annog i gymryd rhan weithredol yn ei adolygiad, yn ogystal â chwblhau ei ddogfen ymgynghori.

Bydd swyddog adolygu annibynnol yn cadeirio'r adolygiad a bydd adroddiad yn cael ei gwblhau yn crynhoi'r adolygiad a bydd pawb yn bresennol yn cael copi.

Ar adegau, mae Plant sy'n Derbyn Gofal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os dyma'r achos, bydd cyfuniad o Gynadleddau Achosion Amddiffyn Plant, Cyfarfodydd Cynllunio a Chyfarfodydd Grŵp Craidd i fonitro cynllun gofal y plentyn/unigolyn ifanc. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn eich cynghori a'ch cefnogi drwy'r gweithdrefnau hyn.

Eiriolaeth

Pan mae plentyn neu unigolyn ifanc yn dod yn un sy'n Derbyn Gofal neu'n cael ei gynnwys yn y maes Amddiffyn Plant, dylai ef/hi gael cynnig cefnogaeth eiriolaeth yn weithredol. Mae eiriolaeth yn ymwneud â rhywun yn gwrando arnoch. Gall dweud beth ydych chi'n ei feddwl a'i deimlo wrth y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am eich bywyd fod yn fuddiol. Gall eiriolwr ymweld â'r plentyn mewn lleoliad a bydd yn mynychu Adolygiadau a chyfarfodydd naill ai gyda'r plentyn neu ar ei ran.

Fel arfer y gweithiwr cymdeithasol sy'n ei gynnig a dylai ddweud wrth y plentyn/unigolyn ifanc y gall eiriolwr annibynnol gysylltu ag ef i egluro rôl eiriolaeth a sut gall ddarparu cefnogaeth drwy'r system Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant.

Dylai cyfeiriwr Cynnig Gweithredol geisio caniatâd gan y plentyn/unigolyn ifanc er mwyn atgyfeirio. Pan fydd plentyn/unigolyn ifanc yn derbyn y Cynnig Gweithredol, cysylltwch â TGP Cymru ar: 01443 805940 • Rhadffôn: 0800 4703930.

Mae'r eiriolwr yn annibynnol - nid yw'n gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol nac Iechyd neu Addysg.

Gallant gyfarfod â'r plentyn/unigolyn ifanc i ddweud wrtho am eiriolaeth ac os ydyw'n penderfynu nad yw eisiau eiriolaeth, mae hynny'n berffaith iawn.

Mae'r gwasanaeth eirioli yn gyfrinachol - maent ond yn rhannu'r hyn mae'r plentyn yn dymuno ei rannu, oni bai ei fod mewn perygl.

# ADRAN 6

## HYRWYDDO ANGHENION ADDYSGOL PLANT SY'N DERBYN GOFAL

# Hyrwyddo Cyrhaeddiad Addysgol

Mae cefnogi addysg yn rhan hanfodol o rôl bob gofalwr. Mae cyfrifoldeb cyfrannol gyda'r Gofalwyr Maeth i sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc o oedran ysgol statudol yn cael mynediad at addysg sy'n addas i'w hoedran a gallu. Ystyrir cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref ac ysgolion fel modd o gyfoethogi cyfleoedd bywyd addysgol i bob disgybl, ac mae'n hanfodol bod rhianta corfforaethol yn ailadrodd yr un buddion i bobl yng ngofal cyhoeddus. Disgwylir gofalwyr i gymryd rhan weithredol mewn cynllunio addysg a chael dealltwriaeth glir o gyda phwy y dylid cyfathrebu yn yr ysgol ac o fewn yr Awdurdod Addysg Lleol. Dylai gofalwyr weithio'n agos â'r ysgol drwy'r athro dynodedig, a ddylid ei hysbysu pan mae'r unigolyn ifanc yn dechrau yn yr ysgol.

Mae disgwyl iddynt gael eu cynnwys yng ngwaith monitro a chefnogi'r targedau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Addysg Personol yr unigolyn ifanc, y dylent gael copi ohono a chael cyngor am y ffordd orau o hyrwyddo cynnydd addysgol.

Anogir plant a phobl ifanc i astudio a dylai'r gofalwr maeth gymryd rôl agos a chefnogol yng nghynydd eu haddysg. Disgwylir i ofalwyr sicrhau bod pobl ifanc yn cwblhau gwaith cartref a thasgau, drwy wirio dyddiadur/llyfr gwaith cartref y plentyn, a defnyddio hwn hefyd fel adnodd i gyfathrebu'n ddyddiol ag athrawon dosbarth. Disgwylir i ofalwyr ddarparu mynediad parod at yr offer sydd eu hangen ar bobl ifanc i fynd i'r ysgol. Dylent hefyd gael mynediad at offer yn y cartref, fel y gallant ddarllen, ysgrifennu, tynnu lluniau a dilyn eu diddordebau a gwaith ysgol gartref a'u darparu ag amgylchedd addas i wneud hynny.

Fel gofalwyr maeth, chi sydd â chyfrifoldeb cynradd am bresenoldeb rheolaidd, a dylanwad mawr drosto, a dylid ymdrin â phroblemau presenoldeb yn syth. Disgwylir i ofalwyr fynychu digwyddiadau'r ysgol, gan gynnwys nosweithiau rhieni, cyfarfodydd, cefnogi gweithgareddau

allgyrsiol etc. (gall rhieni fynychu hefyd). Disgwylir i ofalwyr annog a chefnogi pwysigrwydd addysg y plentyn a'i helpu i gael y mwyaf allan o gyfleoedd addysgol.

Disgwylir i ofalwyr fod yn hyrwyddwyr ar gyfer y bobl ifanc maent yn gofalu amdanynt a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r Awdurdod Addysg Lleol er mwyn helpu'r plentyn/plant maeth i gyrraedd eu llawn botensial.

Disgwylir i ofalwyr maeth fynychu unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gan yr ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau uniongyrchol, e.e. bwlio neu gamymddwyn. Mae'n allweddol mynd i'r afael â materion o'r fath yn syth a'u monitro'n agos i sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau pellach. Gofynnwn i chi gysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant yn ogystal â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol chi.

<u>Presenoldeb</u>

Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol os yw plentyn am wneud y mwyaf o'r ysgol, ac mae'n gyfrifoldeb fel rhiant. Ni ellir pwysleisio hyn ddigon. Yn ôl ymchwil gall presenoldeb dan 90% effeithio'n sylweddol ar berfformiad yn yr ysgol. Yr unig reswm derbyniol am absenoldeb estynedig yw rheswm meddygol. Os yw plentyn yn absennol, rhaid i'r gofalwr gysylltu â'r ysgol. Dylid anfon nodyn gyda'r plentyn ar ôl iddo ddychwelyd a gall yr ysgol ofyn am dystysgrif feddygol pe dymunant. Fel rheol, mae ysgolion yn cadw cofnodion presenoldeb ar gyfrifiadur ac mae'r rhain yn hygyrch i ofalwyr os ydynt am wirio.
Os ydych yn amau presenoldeb gwael, mae'n bwysig cysylltu naill ai gyda'r athro dynodedig, neu Bennaeth Blwyddyn. Gall yr ysgol eich ffonio chi os yw'r plentyn yn absennol (oni bai eich bod yn darparu llythyr i egluro'r absenoldeb). Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Mae'r Swyddog Lles Addysgol (E.W.O) ar gyfer y Plant sy'n Derbyn Gofal neu'r E.W.O sydd ynghlwm â'r ysgol yno i helpu, os yw

presenoldeb wedi dod yn broblem ddifrifol, neu os nad yw'r ysgol wedi gallu cysylltu â'r gofalwr. (Mae dyletswyddau'r E.W.O yn gysylltiedig â sicrhau presenoldeb da yn yr ysgol). Os yw plentyn yn sâl am wythnos neu hirach, ac yn gallu gweithio, dylid gofyn i'r ysgol anfon gwaith adref iddo ei gwblhau.

Gwaith Cartref

Bydd gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd bolisi gwaith cartref. Mae hwn yn manylu'r hyn a ddisgwylir gan athrawon, gofalwyr a phlant. Fel gofalwr maeth, dylech gael copi o hwn gan yr ysgol. Bydd arferion yn amrywio ond yn aml bydd ysgolion Cynradd yn rhoi tasgau gwaith cartref i blant, yn ôl eu polisi.

Fel rheol, bydd ysgolion Uwchradd yn darparu dyddiadur / amserlen gwaith cartref i blant a staff. Mae'r rhain yn nodi pa bynciau sydd wedi'u gosod ar gyfer pa ddiwrnod a pha mor hir y bydd yn cymryd. Fel rheol, bydd gan blant ddyddiadur o ryw fath (gelwir yn aml yn gynlluniwr). Dylai'r plant ddefnyddio hwn i gofnodi eu gwaith cartref a gwybodaeth arall, ac mae'n ddefnyddiol er mwyn cael cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol. Gan amlaf, disgwylir i diwtoriaid dosbarth wirio ac arwyddo'r rhain yn rheolaidd, yn ogystal â'r gofalwr.

Ar gyfer cyfnod allweddol 4, bydd nifer o ysgolion yn darparu amserlen gwaith cwrs, yn amlinellu erbyn pa bryd mae angen cwblhau gwaith cwrs TGAU ac arholiadau eraill. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cryn dipyn o'r gwaith cartref yn ymwneud â chwblhau gwaith cwrs, yn aml gyda thasgau wedi'u gosod dros sawl wythnos, ac mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn strwythuro hyn yn ofalus.

Rheolau Gwaith Cartref:

Rhaid i bobl ifanc gofnodi gwaith cartref yn ofalus yn eu cynlluniwr/dyddiadur gan nodi manylion y dasg a'r dyddiadau cwblhau.

Mae'n ddefnyddiol neilltuo amser penodol bob dydd er mwyn cwblhau gwaith cartref.

Ni ddylid gwneud gwaith cartref wrth wylio teledu neu le gellir tynnu sylw pobl ifanc.

Yn ddelfrydol, dylid cwblhau gwaith cartref mewn man tawel a golau.

Ni ddylai'r plentyn wneud dau beth ar yr un pryd; dylai naill ai ganolbwyntio ar ei waith neu ymlacio. Nid yw gwneud y ddau beth ar yr un pryd yn gweithio.

Rhaid cael cydbwysedd rhwng gwaith a chwarae.

Os ydych yn teimlo nad yw eich plentyn yn cael digon o waith cartref, neu os nad yw'r cynlluniwr yn cael ei lenwi, cysylltwch ag athro'r dosbarth (Cynradd), Pennaeth Blwyddyn (Uwchradd) neu'r athro dynodedig.

## Cynlluniau Addysg Personol

Mae Cynllun Addysg Personol yn ofynnol ar gyfer bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal, ac mae fformat ar gael a ddefnyddir ar draws y fwrdeistref. Bydd angen i'r athro dynodedig ddechrau'r Cynllun Addysg Personol, mewn cydweithrediad â'r unigolyn ifanc, rhieni, athrawon eraill, gofalwyr a Gweithiwr Cymdeithasol. Rhaid gwneud hyn cyn pen 20 diwrnod o Blentyn sy'n Derbyn Gofal yn mynd i ofal maeth neu newid ysgol. Dylid cwblhau'r cynllun mewn pryd ar gyfer yr adolygiad 28 diwrnod, ac ar ôl 3 mis a 6 mis, a bydd yn rhan o'r cynllun gofal. Dylai'r Cynllun Addysg Personol gynnwys y canlynol: -

Manylion cyswllt a gwybodaeth arall ynglŷn â'r plentyn.

Cofnod cyflawniadau.

Datblygiad ac anghenion addysgol.

Cynlluniau tymor byr.

Cynlluniau tymor hir a dyheadau.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn ag addysg y plentyn / unigolyn ifanc yr ydych chi'n gofalu amdano, gallwch gysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant, ac mae hefyd yn bwysig diweddaru eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ynglŷn o unrhyw bryderon / problemau.

Tîm Ymgysylltu Addysg

Cynnig cefnogaeth a phwynt cyswllt uniongyrchol i blant, ysgolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i blant oed ysgol sy'n berthnasol i un neu fwy o'r grwpiau bregus.

Bydd y Tîm yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau swyddog dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer:

- plant sy'n derbyn gofal;
- diogelu mewn addysg;
- plant sy'n methu addysg;
- dysgwyr sy'n derbyn addysg gartref yn ddewisol;
- cyswllt â rhiant/gofalwr disgyblion wedi'u gwahardd yn barhaol;
- swyddogaethau cyfreithiol statudol y Gwasanaeth Lles Addysg drwy rôl Prif Swyddog Lles Addysg;
- cefnogaeth i blant Sipsiwn a Theithwyr; a
- phlant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r Tîm Ymgysylltu Addysg yn darparu cefnogaeth i Atgyfeiriadau Safonol ac Uwch. Gweler y meini prawf fel a ganlyn:

Meini Prawf Safonol

- Dadgofrestru o'r ysgol a dod yn ddysgwyr sy'n derbyn addysg gartref yn ddewisol, neu'n symud i'r awdurdod lleol fel dysgwyr o'r fath
- Dod yn blentyn sy'n derbyn gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Dod yn blentyn sy'n methu addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu a oedd yn hysbys ddiwethaf i Ben-y-bont ar Ogwr
- Dod yn blentyn sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Perthnasol drwy unrhyw grŵp bregus arall

Meini Prawf Uwch

- Mae dau neu fwy o grwpiau bregus yn cael eu hystyried gan ysgol neu eraill fel effaith bosibl ar addysg neu fynediad at addysg.
- Gwaharddiad parhaol
- Plentyn sy'n methu addysg - i ffwrdd o'r ysgol am dros bedair wythnos neu ddim mewn addysg lawn amser
- Derbyn addysg gartref yn ddewisol ond ddim yn fodlon bod y trothwy cyfreithiol yn cael ei fodloni
- Ffoadur newydd i Sir Pen-y-bont ar Ogwr.
- Plentyn sy'n derbyn gofal a phroblemau wedi'u dynodi yn y ddarpariaeth addysgol

Enghreifftiau o'r hyn na fydd neu nad yw'r Tîm Ymgysylltu Addysg yn eu darparu

- darparu darpariaeth addysg uniongyrchol i blant sydd ar gofrestr yr ysgol neu oddi arni

- darparu sicrwydd ad hoc neu dros dro i blant tra eu bod yn ceisio ymgymryd ag addysg addas
- dyblygu gwaith a rôl timau awdurdodau lleol eraill sy'n gyfrifol am anghenion dysgu ychwanegol neu gynhwysiant
- awdurdod i gytuno ar gyllid ar gyfer cefnogaeth barhaus neu ychwanegol i blant yr ystyrir yn fregus
- mynychu adolygiadau'r holl blant sy'n derbyn gofal ond bydd yn blaenoriaethu presenoldeb yn adolygiadau yn dibynnu ar anghenion a sefyllfa gyfredol y plentyn

# ADRAN 7

## CADW COFNODION

Cadw Cofnodion

Mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan bwysig yn y broses casglu gwybodaeth am blentyn/unigolyn ifanc a gallant wneud cyfraniadau unigryw o ganlyniad i'w harsylwadau dyddiol ysgrifenedig yn y cartref maeth. Dylid cadw cofnodion ar wahân ar gyfer bob plentyn/unigolyn ifanc yn eich gofal ar Daflenni Cofnodi (bydd y rhain yn cael eu darparu gan eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol) ac yna eu storio mewn cwpwrdd â chlo i sicrhau cyfrinachedd. Mae'r gofalwr maeth yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n amhriodol. Pan fydd lleoliad gofal maeth yn dod i ben, bydd y cofnodion yn cael eu casglu a'u storio yn ffeil y plentyn.

Bydd bob gofalwr maeth yn cael dyddiadur, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer apwyntiadau, cyfarfodydd bob dydd etc.

Dylai'r cofnod achos dyddiol gynnwys y canlynol:

- Dylai cofnodion fod yn ffeithiol ac yn rhydd rhag barn, dylai'r cofnod fanylu yr hyn yr ydych wedi'i weld a'i glywed.

- Unrhyw welliannau cadarnhaol, cyflawniadau pethau doniol sy'n digwydd y bu i'r plentyn/unigolyn ifanc eu mwynhau.

- Lle bynnag sy'n bosibl, cynhwyswch enwau'r bobl maent wedi treulio amser gyda nhw.

- Dyddiadau lle mae'r plentyn/unigolyn ifanc i ffwrdd o'r cartref maeth, gan gynnwys dyddiadau pan mae gyda theulu, cyfeillion, gofalwyr maeth eraill, gweithgareddau ysgol, neu ar goll.

- Sylwadau gan y plentyn/unigolyn ifanc sy'n peri pryder i chi. Lle bynnag sy'n bosibl, defnyddiwch eiriau'r plentyn/unigolyn ifanc ei hun.

- Manylion am ymddygiad plentyn/unigolyn ifanc os yw hynny'n peri pryder i chi. Yr ymddygiad yr arsylwyd gennych a beth oedd yn digwydd cyn iddo ddechrau. Gall plant/pobl ifanc sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol ddangos ymddygiad rhywiol amhriodol ar adegau. Cofnodwch eich ymatebion. Dros amser mae'n bosibl y byddwch yn datblygu darlun o'r pethau sy'n sbarduno ymddygiad a hefyd beth sy'n ei derfynu.

- Manylion o unrhyw achosion neu ddigwyddiadau arbennig neu newid yn amgylchiadau unrhyw aelod o'r teulu. Mae hefyd yn bwysig cynnwys manylion o unrhyw gwynion neu anghytundebau yr ydych wedi'u cael gyda'r plentyn/unigolyn ifanc a all, ryw bryd, ffurfio sylfaen cwyn ffurfiol yn eich erbyn.

- Manylion unrhyw ddamweiniau neu anafiadau, waeth pa mor ddibwys. Disgrifiwch beth, pryd a sut y digwyddasant. Enwch unrhyw dystion ac unrhyw gamau gweithredu. Yn ogystal, cofnodwch yr amser, dyddiad ac enw'r gweithiwr cymdeithasol yr adroddwyd y digwyddiad gydag ef.

- Cofnodwch unrhyw feddyginiaeth a roddwyd, naill ai ar bresgripsiwn neu gyffuriau dros y cownter, y dos, amser, dyddiad ac enw'r unigolyn a roddodd y feddyginiaeth. Cynhwyswch wybodaeth ynglŷn ag apwyntiadau meddygol, deintyddol, brechiadau, hyd salwch ac unrhyw gofnod o driniaeth a gafodd y Plentyn sy'n Derbyn Gofal. Dylid cofnodi hefyd manylion unrhyw apwyntiadau na fynychwyd a'r rhesymau pam. Bydd hyn yn darparu cofnod meddygol i'r plentyn / unigolyn ifanc a gellir cyfeirio ato unrhyw bryd.

- Dylid hefyd gofnodi dyddiadau adolygiadau, cyfarfodydd, cyfarfodydd teuluol yn ymwneud â'r plentyn/unigolyn ifanc.

- Cyswllt ag ysgol y plentyn / unigolyn ifanc a chynnydd addysgol.

- Manylion unrhyw ymweliadau cyswllt gyda theulu neu berthnasau'r plentyn/unigolyn ifanc ac unrhyw ryngweithiadau sylweddol gan gynnwys galwadau ffôn, llythyrau, etc. Dylid cofnodi rhifau ffôn cysylltiadau. Cofnodion o unrhyw arsylwadau. Er enghraifft, y rhyngweithiad rhwng y plentyn/unigolyn ifanc a'i rieni. Ymateb y plentyn/unigolyn ifanc ar ôl ymweliadau cyswllt.

- Manylion cyfarfodydd ac ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill a manylion unrhyw gyswllt gydag asiantaethau allanol.

- Manylion unrhyw geisiadau am gymorth gydag unrhyw broblemau yr ydych wedi'u cyflwyno i'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc. Cynhwyswch fanylion enw'r gweithiwr, pa bryd y cyflwynwyd y cais, yr ymateb a phryd y'i cafwyd.

- Manylion unrhyw gyfnodau pan mae gofalwyr eraill, e.e. gwarchodwyr plant neu ofalwr maeth arall, wedi gofalu am y plentyn/unigolyn ifanc. Yn ogystal, dylid cynnwys cofnod ysgrifenedig cryno wedi'i arwyddo gan y gofalwr.

- Unrhyw ymglymiad â'r heddlu, gan nodi'r dyddiad, yr orsaf heddlu a swyddog yr heddlu ynghlwm, a natur yr ymglymiad.

- Dyddiadau unrhyw ladrad neu ddifrod bwriadol a achoswyd gan y plentyn/unigolyn ifanc, mae hyn yn arbennig o bwysig gan y bydd angen manylion penodol at ddibenion yswiriant, yn ogystal ag i sicrhau iechyd a diogelwch unigolion.

- Pan mae gan blentyn/unigolyn ifanc broblem benodol megis anhwylder bwyta, bydd angen monitro a chofnodi'r bwyd y mae'n ei fwyta bob dydd.

- Peidiwch ag anghofio ychwanegu cerrig milltir a chyflawniadau plant

- Sicrhewch eich bod yn dyddio ac arwyddo bob cofnod ac yn rhifo bob tudalen a thanlinellu bob cofnod sydd wedi'i gwblhau.

Gall yr holl wybodaeth hyn ynglŷn â'r plentyn/unigolyn ifanc seilio gwaith taith bywyd iddo. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon hefyd at ddibenion llys. Byddwch yn ystyriol o sut ydych yn cofnodi gwybodaeth, gan gydbwyso'r elfennau negyddol a chadarnhaol yn sensitif. Felly, dylid osgoi unrhyw farn / sylwadau diangen i atal trallod gormodol i'r plentyn / unigolyn ifanc. Cofiwch gall y plentyn/unigolyn ifanc wneud cais i weld ei gofnodion.

## Mynediad ar Gofnodion

Os yw plentyn am gael gweld ei gofnodion, gall gyflwyno cais drwy ei weithiwr cymdeithasol neu fel arall drwy gwblhau ffurflen *Cais am Fynediad Testun* drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dan yr adran diogelu data. Fel rheol, bodlonir ceisiadau cyn pen un mis. Gweler dolen i'r wefan isod:

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/freedom-of-information/data-protection/

# ADRAN 8

## GOFALU MWY DIOGEL

## Gofal Mwy Diogel

Prif gyfrifoldeb gofalwr maeth Pen-y-bont ar Ogwr yw sicrhau bod y plant sy'n cael eu lleoli gyda chi yn ddiogel ac yn cael gofal da. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr maeth i'n helpu ni i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

Rwy'n siŵr y cofiwch o'ch hyfforddiant paratoi sut mae gofalu diogel yn arbennig o arwyddocaol i ofalwyr maeth, oherwydd gall plentyn / unigolyn ifanc gamddeall eu patrymau ymddygiad a'u trefn ddomestig.

Meddyliwch am y rheolau yr ystyrioch fel rhan o'ch hyfforddiant paratoi ac a oes angen eu hailystyried yng ngoleuni anghenion unigol y plentyn / unigolyn ifanc. Gweler enghreifftiau isod:

- Pwy fydd yn ymolchi'r plentyn / plant, sut fyddwch chi'n rheoli hyn?
- Pwy a ellir ei adael ar ei ben ei hun gyda phwy?
- Beth yw gwisg briodol / dadwisgo mewn cartref sy'n cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau'r teulu?
- Sut fyddwch chi'n rheoli'r drefn amser gwely, er enghraifft straeon amser gwely. Argymhellir gwneud hyn i lawr y grisiau yn yr ystafell fyw ar y soffa gyda'r plentyn yn eistedd wrth eich ymyl, nid ar eich glin.
- Os ydych yn gwpl, pwy fydd yn mynd at y plentyn os gaiff hunllefau yn ystod y nos? Sut fyddwch chi'n rheoli hyn fel gofalwr sengl?
- Sut fyddwch chi'n rheoli gwrthdaro a gwahaniaethau rhwng y plentyn/unigolyn ifanc maeth a'ch plant eich hun? A ydych chi'n defnyddio'r un math o ddisgyblaeth?

Dim ond rhai sefyllfaoedd i feddwl amdanynt fel teulu yw'r rhain a'r angen i ystyried gwneud polisi i'r teulu a fydd yn sicrhau diogelwch a lles eich teulu maeth a'r plentyn maeth.

Mae polisïau teulu yn helpu i sefydlu ffiniau a hyrwyddo gofal diogel. Dylid gwneud polisi teulu cyn gynted â phosibl fel rhan o'ch asesiad. Os nad yw hyn wedi digwydd, bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn trafod hyn gyda chi ar ddechrau eich gyrfa maethu, fel bod y ffiniau wedi'u gosod o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau risg o honiadau.

Mae fformat argymelledig i'w ddefnyddio yng nghefn y llawlyfr hwn.

Cofiwch ei bod yn bwysig adolygu polisi eich teulu yn rheolaidd, fel ei fod yn bodloni anghenion bob plentyn ydych chi'n gofalu amdano.

Rydym yn sylweddoli y gall yr uchod beri pryder i chi, ond mae'n bwysig bod pawb ynghlwm â maethu yn deall mai eu prif gyfrifoldeb yw diogelu'r plant yr ydym ni'n gofalu amdanynt, yn ogystal â'ch teulu eich hun.

Ymgynghorwch â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol am gyngor, gwybodaeth a chefnogaeth.

## CADW PLANT YN DDIOGEL O GWMPAS CŴN

- Addysgwch y plant yn eich gofal sut i ymddwyn yn briodol gyda chŵn y teulu, e.e. bod yn ddigynnwrf ac ofalus o gwmpas cŵn i sicrhau eu bod yn ddiogel!

- Ni ddylai plant fynd yn agos at gŵn nad ydynt yn eu hadnabod a dylent roi mwythau i'r ci neu chwarae gydag ef dim ond ar ôl cael caniatâd gan y perchennog

- Peidiwch â gadael i blant brofocio unrhyw gi neu chwarae'n rhy wyllt gyda chŵn

- Addysgwch eich ci i **beidio** â neidio i fyny neu fod yn rhy afreolus

- Dywedwch wrth y plant yn eich gofal i beidio â mynd yn agos at, neu amharu ar, gi sy'n cysgu, bwyta, yn sâl neu wedi'i anafu gan y gallai ymateb yn ffyrnig

- Peidiwch **byth** â gadael plant ifanc gydag unrhyw gi heb oruchwyliaeth, am ychydig funudau hyd yn oed

- Sicrhewch eich bod yn cymdeithasu unrhyw gi bach yn iawn gyda phlant a'i addysgu i ymddwyn yn gywir. Dylai gwneud hyn sicrhau eich bod yn magu ci oedolyn cyfeillgar sy'n ddiogel o gwmpas plant

### I addysgu mwy i'ch plant am

### gŵn, ewch i www.learnwithdogs.co.uk

Defnyddir yr holiadur ar y dudalen nesaf yn y broses asesu maethu, a gall roi gwybodaeth i blentyn am yr anifail anwes y gallant fod yn rhannu tŷ gydag ef.

Ni chaniateir y mathau canlynol o gŵn fel anifeiliaid anwes gan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991:

- Pit Bull Terrier
- Dogo Argentine
- Fila Brazilliero
- Japanese Towser

Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth asesu cartrefi sy'n cynnwys y canlynol:

- Alsatian (German Shepherd)
- Rottweiler
- Doberman
- Bull dog
- neu 'gnud' o gŵn (mwy na dau gi)

Er nad yw'r bridiau hyn wedi'u rhestru yn beryglus yn y ddeddfwriaeth, maent yn adnabyddus i fod yn ymosodol ac o bosibl yn ymosodol, gan eu bod wedi'u bridio fel cŵn gwarchod.  Gall cŵn o'r fath ddod yn rhwydd eu gwylltio pan maent yn wynebu ymddygiad mwy anodd.

Cydnabyddir bod gan bob ci y gallu i fod yn beryglus ac y gall plant ysgogi ymosodiadau, felly byddai angen paru yn ofalus mewn unrhyw gartref lle mae anifeiliaid anwes.  Gall hyd yn oed y cŵn tawelaf ddigio plant olynol yn dod i'r cartref yn hawlio'r sylw yr oedden nhw'n ei gael ar un pryd.  Rhaid i ofalwyr oruchwylio'r cŵn a phlant bob amser i sicrhau diogelwch y plentyn.

Os yw ymgeisydd maethu yn berchen ar unrhyw rai o'r cŵn peryglus uchod, ni allant gael ei asesu fel Gofalwr Maeth. Os yw Gofalwr Maeth cymeradwy yn cael ci gwaharddedig, byddai angen terfynu ei gymeradwyaeth os na fyddai'n fodlon peidio â'r berchnogaeth. Yn yr un modd, os yw gofalwr maeth cymeradwy yn cael ci, bydd angen iddo gynghori â'i Weithiwr Cymdeithasol goruchwyliol er mwyn ymgymryd ag asesiad.

# ADRAN 9

## GOFAL MEDDYGOL

## HYLENDID SAFONOL

## Gofal Meddygol

Mae gan ofalwyr maeth sydd â gofal bob dydd, neu ofal seibiant, dros blentyn/unigolyn ifanc rôl amlwg yn hyrwyddo ei iechyd i sicrhau ei fod yn cael yr holl ofal meddygol a deintyddol sydd eu hangen. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol a rhieni.

Lle bynnag sy'n bosibl, argymhellwn i blant / pobl ifanc aros gyda meddyg teulu eu teulu eu hunain. Os nad yw hyn yn bosibl, byddem yn disgwyl i ofalwr maeth gofrestru unrhyw blentyn / unigolyn ifanc maeth newydd gyda'ch meddyg teulu eich hun cyn pen 72 awr o'r lleoliad. Yn ogystal, rhaid i'r plentyn / unigolyn ifanc fod wedi'i gofrestru gyda deintydd, ac optegydd i sicrhau gwiriadau rheolaidd. Bydd cofnodion meddygol plentyn yn cael eu trosglwyddo o'r meddyg teulu / deintydd blaenorol.

Os yw plentyn/unigolyn ifanc eisoes yn cael triniaeth gan feddyg teulu neu glinig, mae'n bosibl ei bod yn fwy priodol i'r plentyn aros gyda'r un gwasanaeth. Cymerir yn ganiataol y byddwch chi'n mynd â'r plentyn i apwyntiadau'r dyfodol, o bosibl gyda'r rhieni os yw hynny'n briodol. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o unrhyw driniaeth mae'r plentyn yn ei chael ar hyn o bryd, gan gynnwys seicolegydd neu arbenigwr. Mae'n bosibl y gofynnir i chi gefnogi'r plentyn i fynychu'r cyfarfodydd hyn, mae'n bwysig felly bod gan y gwasanaethau hyn eich manylion cyswllt.

Mae'n bosibl bod plant a phobl ifanc anabl yn gofyn rhagor o gefnogaeth ac offer. Os ydych yn teimlo bod angen rhagor o gefnogaeth ar y plentyn mewn perthynas â'r gefnogaeth a ddarperir ar hyn o bryd, gan gynnwys ailasesiad neu adolygu'r gwasanaethau a'r offer mewn lle, mae'n bwysig eich bod yn codi hyn gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol chi. Rhowch wybod i'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol os nad ydych yn sicr sut i gynnal a chadw unrhyw offer sydd mewn lle ar gyfer

plentyn/unigolyn ifanc mewn perthynas â'i anghenion iechyd a byddwn yn sicrhau y cewch gyngor ac arweiniad priodol.

Rhaid cynnig archwiliad meddygol statudol i blant / pobl ifanc. Bydd nyrs iechyd y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cysylltu â chi i drefnu hyn.

Yn aml mae cofnodion meddygol yn anghyflawn ar gyfer plant maeth. Mae'n bwysig i'r plentyn gael y wybodaeth feddygol lawnaf bosibl fel rhan o'i angen naturiol am wybodaeth. Mae hanes iechyd yn ogystal â digwyddiadau mewn bywyd yn bwysig i ennill hunaniaeth ac ymdeimlad o'u hunain. Sicrhewch eich bod yn cadw cofnod o bob triniaeth feddygol y mae plentyn/unigolyn ifanc yn ei chael tra ei fod yn eich gofal chi.

Mae'n bwysig eich bod yn annog plentyn/unigolyn ifanc sy'n eich gofal i fod yn iach a heini, a bod y gofal y darparwch wedi'i addasu i anghenion y plentyn a'i lefel datblygiad. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn mynychu hyfforddiant mewn perthynas â datblygiad plentyn i'ch cynorthwyo gyda hyn.

## Feirysau a Gludir yn y Gwaed

Mae'r cyngor canlynol i ofalwyr maeth yn ymwneud â lleihau'r risg o drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed. Mae'r rhain yn rhagofalon synnwyr cyffredin a fydd yn amddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill a all gael eu trosglwyddo drwy'r gwaed a hylif y corff. Dylid eu hymgorffori fel arfer safonol ym mhob sefyllfa bob amser.

### Rhagofalon safonol i reoli heintiau

1. Gorchuddiwch friwiau neu groen wedi torri â gorchudd gwrthddŵr bob amser
2. Osgowch gyswllt croen uniongyrchol gyda gwaed neu hylif y corff

3. Os bydd gwaed yn tasgu ar y croen, dylid ei olchi i ffwrdd yn syth gyda sebon a dŵr. Dylid golchi tasgiadau o waed yn y llygaid neu geg yn syth gyda digonedd o ddŵr
4. Os ceir anaf gan gyfarpar miniog neu os bydd gwaed yn tasgu i'r llygaid neu geg, neu ar groen clwyfedig (e.e. ecsema) dylid ceisio cyngor arbenigol ar unwaith
5. Gwisgwch fenig tafladwy pan mae cyswllt â gwaed neu hylif y croen yn debygol
6. Golchwch eich dwylo ar ôl tynnu'r menig bob tro
7. Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl rhoi cymorth cyntaf
8. Peidiwch byth â rhannu brwshys dannedd a raseli gan y gallant fod wedi'u heintio â gwaed
9. Addysgwch blant i osgoi cyswllt gyda gwaed pobl eraill cyn gynted ag y gallant ddeall
10. Addysgwch blant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl bod yn y tŷ bach

<u>Hepatitis B</u>

Feirws sy'n achosi haint a all niweidio'r iau yw Hepatitis B. Nid yw pobl sydd â Hepatitis B o reidrwydd yn profi symptomau neu'n teimlo'n sâl ond mae rhai yn profi salwch byrhoedlog yn debyg i ffliw, yn aml gyda chlefyd melyn (croen yn melynu ac wrin tywyll), cyfog, chwydu a cholli awydd bwyd. Prin iawn yw'r achosion lle gall haint Hepatitis B achosi methiant difrifol yn yr iau. Mae'r rhan fwyaf o oedolion sydd wedi'u heintio â'r feirws yn gwella'n gyfan gwbl ac yn datblygu imiwnedd hyd eu hoes. Fodd bynnag, gall rhan fechan, oddeutu 1 mewn 10, barhau i fod wedi'u heintio (cludwyr Hepatitis B). Mae cludwyr Hepatitis B yn heintus i bobl eraill. Mae Hepatitis B yn eithaf anghyffredin yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifir bod oddeutu 0.3% o'r boblogaeth gyffredinol yn gludwyr Hepatitis B.

Lledaenir Hepatitis B drwy gyswllt uniongyrchol â gwaed neu rai hylifau corff unigolyn sydd wedi'i heintio:

- O fam wedi'i heintio i'w baban yn yr enedigaeth neu drwy fwydo o'r fron
- Drwy gyfathrach rywiol gydag unigolyn wedi'i heintio heb ddefnyddio condom
- Drwy rannu nodwyddau heintiedig neu gyfarpar arall er mwyn cymryd cyffuriau
- Drwy roi tatŵ, tyllu'r clustiau a thyllu'r corff neu aciwbigo gyda nodwyddau neu gyfarpar heb eu diheintio
- Drwy drallwyso gwaed mewn gwlad lle nad yw rhoddion gwaed yn cael eu sgrinio am Hepatitis B (mae'r holl waed ar gyfer trallwyso yn cael eu sgrinio yn y Deyrnas Unedig)
- Drwy rannu raseli a brwshys dannedd a all fod wedi'u heintio gyda gwaed gan unigolyn wedi'i heintio

Nid yw Hepatitis B yn lledaenu drwy gyswllt a gweithgareddau dyddiol arferol megis pesychu, tisian, cusanu, cofleidio, gafael llaw, rhannu ystafell ymolchi a thŷ bach neu gyllyll a ffyrc a phlatiau bwyd.

<u>Brechiad Hepatitis B</u>

Gellir atal haint Hepatitis B drwy frechiad. Gall rhai plant sydd wedi'u lleoli â gofalwyr maeth fod yn gludwyr cronig o'r haint wedi iddynt gael eu heintio gan eu mam heintiedig, ffordd o fyw eu rhieni, neu gam-drin rhywiol gan rieni neu eraill wedi'u heintio. Mae'r Awdurdod Lleol yn awgrymu y cynigir brechiad i ofalwyr maeth oherwydd bod statws Hepatitis B y plant a leolir gyda nhw fel arfer yn anhysbys. Os hoffech gael brechiad Hepatitis B, cysylltwch â'ch meddyg teulu.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynorthwyo gofalwyr maeth i gael brechiad Hepatitis B.

## Brechlynnau

Mae'r brechlynnau sydd ar gael ar hyn o bryd yn hynod effeithiol gydag oddeutu 9 mewn 10 o bobl yn ymateb yn llawn i gwrs brechlyn. Mae Hepatitis B yn frechlyn anweithredol ac nid yw'n dod o waed dynol. Yr amserlen safonol yw un brechlyn, un arall fis yn ddiweddarach a'r trydydd chwe mis ar ôl y dos gyntaf.

## Delio â damweiniau a thasgiadau

Os bydd damwain yn digwydd ac mae angen triniaeth yn yr ysbyty, cysylltwch â gweithiwr cymdeithasol y plentyn / unigolyn ifanc yn syth. Os oes angen anaesthetig ar blentyn / unigolyn ifanc, mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol neu reolwr y tîm a fydd yn eich cynghori chi ynglŷn ag arwyddo'r ffurflen ganiatâd feddygol, oherwydd ni ddylech ei harwyddo oni bai eich bod wedi'ch awdurdodi i wneud hynny. Yn ystod oriau y tu hwnt i oriau'r swyddfa, dylech ffonio'r tîm Dyletswydd Argyfwng.

Mae gan ofalwyr maeth gyfrifoldeb i gynnig amgylchedd diogel a bod yn ymwybodol o faterion diogelwch. Er bod anghenion a galluoedd plant yng ngofal gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywio'n enfawr, mae gennym restr wirio gyffredinol o'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gadw eich cartref yn ddiogel. Gellir osgoi'r rhan fwyaf o ddamweiniau os ydym yn ymwybodol o ddiogelwch, felly os ydych yn meddwl am y pethau canlynol, byddwch yn ymwybodol o'r peryglon posibl yn eich cartref a gallwch gynllunio i osgoi damweiniau.

1) A yw ffenestri a drysau yn cloi yn iawn? A fyddai angen giât grisiau? A yw giatiau a ffensys yr ardd yn ddiogel?
2) A fyddai angen gard tân? Os oes gennych chi stôr-wresogyddion, a ydynt yn mynd yn boeth? A oes gennych hen socedi trydan neu wifrau rhydd?
3) A yw pethau fel matsis, alcohol, paent, glanhawyr tŷ a moddion allan o gyrraedd?

4) A oes gennych bethau siarp o fewn cyrraedd megis raseli, cyllyll siarp, offer neu gyfarpar gwnio?
5) A fyddai angen i chi feddwl am gadw addurniadau a gwrthrychau gwerthfawr eraill allan o gyrraedd a pheidio â defnyddio lliain bwrdd?
6) Yn eich gardd, a oes gennych unrhyw ddeunyddiau peryglus o gwmpas? Os oes gennych lyn, yna byddai angen rhoi ffens o'i gwmpas neu ei orchuddio'n ddiogel.
7) Rhaid i ofalwyr ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth ystyried sefyllfaoedd megis tywydd a lles, er enghraifft a oes angen cot neu eli haul? Rôl y gofalwr yw bodloni anghenion y plentyn fel petaent yn ei wneud gyda'i blant ei hun ac achub y blaen gydag unrhyw risgiau a pheryglon y gall y plentyn/unigolyn ifanc gael ei amlygu iddynt. Os yw gofalwr yn ei chael hi'n anodd rheoli ymddygiad y plentyn a/neu gefnogi lles y plentyn, dylid trafod y pryderon hyn ac ymdrin â nhw gyda'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol cyn gynted â phosibl.

Gweler hefyd y rhestr wirio Iechyd a Diogelwch sy'n rhan o'r asesiad Ffurflen F a'ch gweithdrefn adolygu flynyddol. Bydd hyn hefyd yn cael ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'ch Adolygiad Blynyddol a'i ddiweddaru os bydd unrhyw beth yn newid yn y cyfamser.

Sicrhewch eich bod yn cofnodi gwybodaeth mewn perthynas â damweiniau ar y taflenni Cofnodi a rhoi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc a'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

# ADRAN 10

## RHEOLI YMDDYGIAD

Ymddygiad heriol

Mae bod yn ofalwr maeth yn dasg gymhleth ac yn aml yn feichus. Mae'r plant a phobl ifanc dan eich gofal yn aml wedi cael profiadau anodd, trawmatig ar adegau, yn y gorffennol a gall rhai ohonynt gyflwyno ymddygiad anodd a heriol iawn. Yn aml, gall gofalwyr deimlo'n ddryslyd yn sgil ymddygiad plant maeth, a'i chael yn anodd ei ddeall a theimlo weithiau nad oes unrhyw beth a wnewch yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'n bwysig bod gennych ddealltwriaeth am y ffordd mae plant yn tyfu a datblygu, fel rhan o ddealltwriaeth ehangach o ymddygiad. Wrth i blant fynd drwy wahanol gamau yn eu bywydau, maent yn dysgu mwy a mwy am y byd o'u cwmpas ac mae eu dealltwriaeth yn datblygu. Mae'n hanfodol bod ymatebion gofalwyr yn cymryd i ystyriaeth oedran a dealltwriaeth y plentyn ac yn gosod unrhyw ymddygiad o'r fath yng nghyd-destun cam datblygiad y plentyn. Gweler tabl datblygiad plentyn yng nghefn y llyfryn hwn a fydd yn ddefnyddiol i chi.

Yn aml, mae ymddygiad anodd yn ffordd o gyfathrebu teimladau anodd. Mae bod yn ymwybodol o hyn yn gallu eich helpu i ddeall y rhesymau dros yr ymddygiad a dylanwadu'r ffordd yr ydych yn ei reoli. Gall cael dealltwriaeth o brofiadau blaenorol y plentyn eich helpu chi i ragfynegi'r math o ymddygiad y gallwch ei ddisgwyl a sylwi ar unrhyw ysgogiadau sy'n achosi agwedd benodol ar ymddygiad.

Gall gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac unrhyw un arall perthnasol helpu'r ddealltwriaeth hon a sicrhau bod cysondeb yn yr ymatebion a roddir i'r plentyn pan mae'n ymddwyn mewn ffordd benodol. Mae'r canllaw a ddarperir yma yn cynnwys cyngor cyffredinol ynglŷn â rheoli ymddygiad. Mae'n hanfodol o bwysig cael trafodaeth fel rhan o unrhyw gytundeb lleoli ynglŷn â'r materion penodol sy'n berthnasol i blentyn penodol. Dylai hyn gynnwys adnabod unrhyw broblemau ymddygiadol penodol ac ystyried strategaethau i ymateb iddynt.

Annog Ymddygiad Da

Mae gwobrwyo ymddygiad da yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd allweddol i helpu plant newid eu hymddygiad. Nid yw'n strategaeth tymor byr ac ni fydd yn effeithiol yn syth, mae'n gofyn cysondeb a dyfal barhad. Fodd bynnag, caiff ei hystyried yn llwyddiannus. Nid oes rhaid rhoi gwobr ffisegol bob tro, gall canmoliaeth neu "bump uchel" fod yn arbennig o werth chweil i blant.

Talu sylw

Yn aml, rydym yn rhoi sylw i blant pan maent yn ymddwyn yn annerbyniol. Mae hyn yn hynod ddryslyd i blant gan ein bod yn gwobrwyo eu hymddygiad negyddol. Defnyddiwch ganmoliaeth i wobrwyo ymddygiad da ac anwybyddwch ymddygiad negyddol lefel isel. Mae gwobrwyo yn syth yn hanfodol wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, gellir ymestyn y rhain wrth i'r ymddygiad derbyniol gynyddu. (Caniatáu'r plentyn i ddewis gweithgaredd arbennig ar nos Wener yn dilyn wythnos o ymddygiad da)

Egluro

Weithiau, nid yw plant yn gwybod pa fath o ymddygiad sy'n annerbyniol i chi gan nad oedd yn annerbyniol yn eu cartrefi eu hunain. Nid ydym am iddynt deimlo'n ddrwg neu'n anghywir am bethau o'r fath. Mae amlygu'r hyn sy'n annerbyniol a pham yn glir a digynnwrf, pan maent ar eu pen eu hunain, yn ddull sensitif. Gall datblygu rheolau tŷ fod yn ddefnyddiol, pethau ydych chi'n disgwyl a ddim yn disgwyl eu gweld yn eich cartref, fel bod plentyn neu unigolyn ifanc yn glir am yr hyn sy'n ofynnol ohonynt. Gall y rhain gynnwys pethau megis rhegi, amser gwely, gofal personol, ac amseroedd dod i'r tŷ. Gall rhai o'r rheolau hyn fod yn destun trafod, yn enwedig gyda phlant hŷn, ond byddwch yn glir am yr hyn nad yw'n agored i drafodaeth. Gall plant ymddwyn o fewn ffiniau dim ond os ydynt yn glir. Byddwch yn gyson. Mae angen i'r plentyn wybod lle mae'n sefyll. Gall 'cyfarfodydd teulu' helpu lle mae angen datrys materion penodol

Rheoli Ymddygiad Annerbyniol

Waeth faint ydych chi'n ei ddeall ac, weithiau, yn cyd-deimlo gyda phlentyn pan mae'n ymddwyn yn annerbyniol, mae'n rhaid i chi reoli'r ymddygiad. Os yw ymddygiad penodol yn amlwg yn gysylltiedig â phrofiadau'r plentyn yn y gorffennol, mae'n bosibl y cymerir amser iddo wella'n llwyr o'r profiadau. Yn y cyfamser, mae'n rhaid iddo allu rheoli ei ymddygiad neu ddatblygu strategaethau newydd i ymdrin â theimladau penodol. Mae angen i chi ddatblygu'r strategaethau hynny. Os ydych yn gofyn i blentyn roi'r gorau i ymddwyn mewn ffordd benodol, megis rhegi pan mae'n flin, rhowch rywbeth arall y gallai ei wneud pan mae dan deimlad fel hyn. (Ysgrifennu llythyr am ei deimladau a'i daflu neu rwygo a'i roi yn y bin)

Blaenoriaethwch y materion y mae angen i chi ymdrin â nhw. Os ydych yn ceisio mynd i'r afael ag ystod gyfan o ymddygiadau anodd ar yr un pryd, byddwch yn eich cael eich hun yn brwydro drwy'r amser ac yn teimlo eich bod yn dweud 'Na' o hyd. Penderfynwch ar y materion pwysicaf i fynd i'r afael â nhw. Gall materion llai pwysig ddisgwyl tan gam diweddarach. Peidiwch â myfyrio ar ymddygiad drwg. Ewch i'r afael ag ef a symud ymlaen.

**Beth na ddylech chi fyth ei wneud wrth reoli ymddygiad:**

- Defnyddio unrhyw ffurf ar gosb gorfforol ar blentyn. Mae hyn yn cynnwys slap, taro, ysgwyd, defnyddio arf neu unrhyw ffurf ar driniaeth gas
- Eu hamddifadu o fwyd, diod a chynhesrwydd
- Eu hamddifadu o gwsg
- Ymatal rhag rhoi meddyginiaeth neu unrhyw driniaeth
- Eu bychanu mewn unrhyw ffordd
- Defnyddio iaith amharchus neu ymosodol
- Cyfyngu neu wrthod cyfathrebiad neu ymweliadau gydag aelodau o'u teulu neu eu gweithiwr cymdeithasol.
- Eu dirwyo, h.y. tynnu arian ganddynt yn barhaol fel cosb

Beth yw amddifadedd rhyddid? Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

'Mae gan bawb yr hawl i ryddid a diogelwch unigolyn. Ni fydd unrhyw un yn cael ei amddifadu o'i ryddid oni bai am yr achosion canlynol ac yn unol â gweithdrefn drwy'r gyfraith.' (Erthygl 5 ECHR: Hawl i ryddid a diogelwch). Mae'n ofynnol i Awdurdod Lleol, fel corff cyhoeddus, dan adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i hawl y Confensiwn. (Emma Sutton CC)

Gall creu sefyllfa i blentyn lle mae cyfyngiadau, caethiwed, goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus amddifadu ei ryddid. Ni ddylid amddifadu rhyddid unigolyn oni bai bod gwneud hynny yn gwbl hanfodol a'i hystyrir er budd gorau yr unigolyn dan sylw.

Mae sefyllfaoedd o'r fath yn gofyn awdurdodaeth gyfreithiol er mwyn cael eu hystyried yn gyfreithlon. Mae'n bosibl bod angen awdurdodi sefyllfaoedd sydd wedi'u dylunio i gadw plentyn neu unigolyn ifanc yn "ddiogel" (gyda'r bwriad gorau) yn ffurfiol a chyfreithlon i osgoi amddifadu rhyddid plentyn yn anghyfreithlon a thorri ei Hawliau Dynol.

Peidiwch ag anghofio nad ydych ar eich pen eich hun, er y gall deimlo felly ar adegau. Ceisiwch gymorth a chefnogaeth drwy eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Anwybyddu

Yn aml, y ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin ag ymddygiad sydd wedi'i ddylunio i gael sylw yw peidio â thalu dim sylw. Os bydd plentyn yn dysgu mai ymddygiad cadarnhaol sy'n denu sylw, nid ymddygiad negyddol, mae'n bosibl y bydd yn newid ei dacteg i ddenu'r sylw mae ei eisiau. Fodd bynnag, os yw'r ymddygiad mewn naill ai man cyhoeddus neu fod y plentyn yn rhoi ei hun neu eraill mewn perygl, mae'n bosibl nad dyma'r ffordd briodol o ymdrin â'r ymddygiad.

Dargyfeirio
Mae tynnu sylw plentyn at rywbeth arall weithiau yn gallu helpu i ohirio unrhyw broblemau neu anawsterau, yn enwedig os ydych mewn man cyhoeddus

Dweud y Drefn
Gall datgan eich anghymeradwyaeth yn syth pan mae'r ymddygiad yn dechrau fod yn ddull effeithiol iawn. Mae bod yn ystyriol o dôn y llais a ddefnyddir yn hynod bwysig gan y gall gweiddi yn aml waethygu sefyllfaoedd, gan gael yr effaith sy'n groes i'r effaith yr ydych chi'n ei ddymuno.
Yn ogystal, gall plant sydd â hunan-hyder isel iawn deimlo eich bod yn eu bychanu drwy weiddi. Mae rhai gofalwyr wedi'i chael hi'n ddefnyddiol tawelu eu llais, er mwyn tawelu'r sefyllfa. Gall gwgu ddangos anghymeradwyaeth yn yr un modd heb i'r plentyn deimlo'r pwysau o rywun yn dweud y drefn wrtho.

Seibiant
Gall seibiant ysgafnhau sefyllfaoedd anodd a chaniatáu cyfle i gael trafodaeth yn ddiweddarach. Gall 'seibiant' roi cyfle i chi a'r plentyn ddod yn ôl at eich hunain. Cerddwch ymaith os yw'r sefyllfa yn mynd yn rhy ddwys ac eglurwch pam eich bod yn gwneud hynny. Cyfrwch i ddeg - neu ugain mae'n debyg - neu gant efallai! Gellir datrys problemau yn llawer haws pan mae pawb wedi dod yn ôl at eu hunain. Cofiwch hynny, yn enwedig yn y diwrnodau cyntaf ar ôl lleoli pan all plentyn deimlo'n bryderus iawn felly mae'n bosibl nad yw ei anfon i'w ystafell wely ar ei ben ei hun yn briodol. Gallai gael arwyddocâd eraill i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Gall seibiant olygu eistedd yn dawel am gyfnod. Gall "amser cefnogol" fod yn fwy effeithiol na "seibiant" yn nifer o sefyllfaoedd, yn enwedig gyda phlant sydd wedi profi trawma. Mae hyn yn golygu aros yn agos at y plentyn pan mae'n drist, blin neu wedi gwneud rhywbeth na ddylai wedi'i wneud. Rhodda hyn y neges i'r plentyn y bydd ei ofalwr yn gefn iddo bob amser, waeth beth fo'r amgylchiadau. Pan mae'r plentyn yn barod, mae'n

ddefnyddiol siarad pethau drwodd gyda'r plentyn i'w helpu i ddeall ei deimladau a'i emosiynau.

Newid yr Amgylchedd

Gall symud plentyn i ystafell arall neu ddiffodd unrhyw sŵn allanol, megis y teledu neu radio, helpu i leihau cynnwrf y sefyllfa a thawelu pethau.

Atal Gweithgareddau

Gall atal gweithgaredd y mae unigolyn ifanc yn ei fwynhau dros dro fod yn gosb effeithiol, megis ei atal rhag gweld ei hoff raglen deledu neu chwarae gemau cyfrifiadur neu fynd i nofio.

Atal Arian Poced Dros Dro

Os bydd plentyn yn torri neu'n difrodi unrhyw beth yn fwriadol, gall defnyddio peth o'i arian poced i gyfrannu at y gost fod yn briodol fel ffordd o'i helpu i ddeall canlyniadau ei weithredoedd. Yn aml, mae tynnu ychydig o arian poced dros gyfnod o amser yn well na chymryd y swm i gyd ar unwaith. Bydd y plentyn yn teimlo'n chwerw ac mae'n bosibl na fydd y gosb yn gynhyrchiol. Os ydych yn rhoi'r gorau i roi arian poced fel ymateb i ymddygiad penodol, dylid gwneud hyn am gyfnod penodedig yn unig a dylid rhoi'r arian i un ochr neu yn ei gyfrif cynilion. Ni ddylid dirwyo plant, drwy gadw'r arian hwnnw oddi wrthynt yn barhaol.

Atafaeliad

Dylid atafaelu eiddo plentyn yn barhaol dim ond os yw'r eitemau yn beryglus, anghyfreithlon neu'n annerbyniol, er enghraifft alcohol neu arfau. Dylech roi gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol os ydych yn gwneud hyn a chewch gyngor ynglŷn â'r hyn a ddylid ei wneud gyda'r eitemau.

Cofnodi

Gall cadw cofnod o ymddygiad anodd fod yn ddefnyddiol gan y gallai eich helpu chi i adnabod patrwm neu sbardun. Gall cofnodi cyfnodau o ymddygiad da wneud yr un fath

Ataliaeth

Mae gan ofalwyr maeth gyfrifoldeb i amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu gofal a'u cadw yn ddiogel. Mae'n synnwyr cyffredin y gall sefyllfaoedd penodol godi sy'n gofyn i'r gofalwr maeth gymryd ryw ffurf ar weithred gorfforol ac atal plentyn os yw ar fin rhedeg i'r ffordd neu ddisgyn ac achosi anaf i'w hunan, er enghraifft. Mae'n bwysig, fodd bynnag, y defnyddir ataliaeth dim ond pan mae gwneud hynny yn gwbl hanfodol ac fel yr opsiwn olaf yn unig. Dim ond pan ymddengys yn debygol bod plentyn am achosi anaf iddo ei hun neu eraill y dylid ystyried ataliaeth gorfforol, ac yna dylid defnyddio'r grym lleiaf posibl am y cyfnod byrraf posibl.

Ni ddylid defnyddio ataliaeth gorfforol **BYTH** fel bygythiad neu gosb ddisgyblu, nac mewn blinder a phrin y dylid ei ddefnyddio fel dull o amddifadu plentyn neu unigolyn ifanc o'i ryddid. Os, er enghraifft, bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn ceisio gadael eich cartref ar amser amhriodol, mynegwch eich pryderon a'r risgiau iddo. Ar gyfer plentyn ifanc, gall yr ataliaeth leiaf fod yn briodol, mewn modd tyner a chalonogol. Ar gyfer plentyn hŷn neu unigolyn ifanc, mae unrhyw ffurf ar ataliaeth yn debygol o waethygu'r broblem. Os bydd yn anwybyddu eich cyngor ac yn gadael, gan roi ei hun mewn perygl, bydd angen i chi roi gwybod i'r heddlu a'r tîm dyletswydd argyfwng.

Os defnyddir unrhyw ffurf ar ataliaeth, dylai'r gofalwr maeth wneud cofnod gofalus iawn o'r hyn a arweiniodd at y sefyllfa a'r canlyniad a dylai, cyn gynted â phosibl, roi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn, ei reolwr neu'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd yn ogystal â'i weithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu weithiwr maethu ar

ddyletswydd. Os ydyw y tu hwnt i oriau gwaith, dylid rhoi gwybod i'r tîm dyletswydd argyfwng.

Absenoldeb

Pan leolir plentyn gyda chi, dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn eich gwneud chi'n ymwybodol o hanes y plentyn ac unrhyw gyfnodau lle mae'r plentyn wedi bod ar goll neu os yw hyn yn rhywbeth y credir y bydd yn debygol o'i wneud.

Fel rhan o'r Cytundeb Lleoli a Gofal Diogel, dylid cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnodau lle mae'r plentyn wedi bod ar goll ac adnabod y llefydd y mae'r plentyn yn debygol o ddianc iddynt. Yn y cytundeb dylid cael cynllun clir ar gyfer y prosesau y dylech eu dilyn wrth adnabod bod plentyn wedi mynd ar goll a'r gweithdrefnau y dylech eu dilyn.
Os yw plentyn yn eich gofal wedi mynd ar goll yn y gorffennol neu mae ganddo hanes o beidio â dychwelyd adref, gallwch siarad â'r plentyn/unigolyn ifanc am y risgiau y mae hyn yn eu cyflwyno a'u helpu i ddeall beth ddylai ei wneud i gadw ei hun yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys eich ffonio neu gysylltu ag oedolion priodol i roi gwybod ei fod yn ddiogel.

Gall plant a phobl ifanc fynd ar goll am sawl rheswm ac mae'n bwysig eich bod yn gallu datblygu perthynas gyda nhw i adnabod unrhyw sbardunau a cheisio eu cadw'n ddiogel. Nid yw llawer o'n plant a phobl ifanc wedi arfer gyda gofalwyr yn poeni am eu lleoliad ac mae'n bwysig eich bod yn cyfathrebu eich pryderon ynglŷn â'u cadw'n ddiogel.

Mae gwahanol brosesau y mae'n rhaid i chi eu dilyn pan fydd plentyn/unigolyn ifanc yn mynd ar goll, yn ddibynnol ar y sefyllfaoedd canlynol:

Os yw plentyn/unigolyn ifanc wedi mynd allan gyda'i gyfeillion a heb ddychwelyd erbyn yr amser disgwyliedig, dylech geisio cysylltu ag ef drwy neges destun neu geisio ei ffonio. Os nad yw'r plentyn/unigolyn ifanc yn ymateb, parhewch i anfon neges destun/ffonio i ddangos eich

bod yn poeni yn ei gylch a gofynnwch am neges destun yn ôl i ddweud ei fod yn iawn.

Os nad yw wedi dychwelyd/ymateb o fewn awr, ystyriwch fynd i'r llefydd y gallai fod a ffoniwch rieni ei gyfoed/cyfoedion etc.

Ar y cam hwn dylech hefyd ffonio'r tîm argyfwng y tu hwnt i oriau gwaith os ydyw ar ôl 5pm ar ddyddiau'r wythnos ac adrodd y plentyn ar goll. O fewn oriau gweithio arferol (dyddiau'r wythnos) 8.30am-5pm dylech roi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn a/neu eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Nid oes angen cysylltu â'r heddlu ar y cam hwn a bydd TDA/gweithiwr cymdeithasol yn eich darparu â chyngor.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ymddygiad y plentyn cyn iddo fynd ar goll, er enghraifft, dim hwyliau, ymddwyn yn wahanol i'r arfer, cam-drin sylweddau, yna dylech gysylltu â'r heddlu a rhannu eich pryderon a'i adrodd ar goll. Os na allwch leoli neu gael cyswllt gyda'r plentyn/unigolyn ifanc ar ôl chwilio lleoliadau a chysylltu â'i gysylltiadau, yna rhowch wybod i'r heddlu bod y plentyn/unigolyn ifanc ar goll.

Mae'n ddefnyddiol os gallwch roi hynny o wybodaeth ynghylch y plentyn/unigolyn ifanc â phosibl i'r heddlu.

- Disgrifiad o'r plentyn
- Beth mae'n ei wisgo
- Llefydd y gallai fod
- Risiau amlwg, e.e. aelodau'r teulu, cam-drin sylweddau, cyflwr ei feddwl

Bydd yr heddlu yn eich darparu chi â chyfeirnod trosedd a bydd angen i chi ei adrodd i'r TDA os ydyw y tu hwnt i oriau gwaith.

Gall hwn fod yn gyfnod poenus iawn fel gofalwr maeth ac mae'n bwysig eich bod yn ceisio aros yn ddi-gynnwrf a chofnodi gwybodaeth briodol ar eich taflenni cofnodi. Dylai gwybodaeth gynnwys yr amser yr aeth

y plentyn ar goll, beth ydych chi wedi'i wneud i geisio lleoli'r plentyn a gyda phwy ydych chi wedi cysylltu. Dylech hefyd gofnodi pa amser y dychwelodd ac ymhle yr oedd os yw hynny'n hysbys.

Pan mae'r plentyn yn dychwelyd mae'n bwysig rhoi gwybod i'r holl weithwyr a oedd ynghlwm, e.e. yr heddlu, TDA, gweithwyr cymdeithasol o'r adran faethu a diogelu fel sy'n briodol.

Dylai'r heddlu roi'r diweddaraf i chi ac yn aml byddant yn ymweld â chi yn eich cartref i edrych yn ystafell wely'r plentyn/unigolyn ifanc am unrhyw gliwiau ynglŷn â lle gallai fod. Bydd nifer o blant/pobl ifanc sydd â hanes o fynd ar goll yn ymwybodol eich bod wedi cysylltu â'r heddlu a gallant fod yn ofn dychwelyd adref. Cadwch linellau cyfathrebu gyda'r plentyn yn agored a dywedwch wrtho eich bod yn poeni yn ei gylch ac na fydd mewn trwbl. Gellir trafod eich pryderon gyda'r plentyn pan fo'n briodol.

Dylid cofnodi unrhyw bryderon sy'n codi gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi bob digwyddiad o blant sy'n derbyn gofal yn mynd ar goll. Mae'n hynod bwysig bod hwn yn cael ei fonitro a bod y plentyn yn cael ei gyfeirio at gefnogaeth briodol i reoli'r risgiau. Gall hyn gynnwys gwaith uniongyrchol gan wasanaethau megis Barnardo's, Taith, YOS ymhlith eraill. Mewn achosion lle mae plant yn mynd ar goll yn rheolaidd, mae gan yr awdurdod lleol broses statudol yn ei lle, lle cynhelir cyfarfodydd amlasiantaethol, a elwir yn Misper Strat, er mwyn rheoli'r risgiau a gyflwynir.

**Camau Datblygiad Plant**

| | |
|---|---|
| 0 – 1 | Y brif dasg i'r plentyn ar y cam hwn yw datblygu **YMDDIRIEDAETH.** Mae'r plentyn yn debygol o wahaniaethu'r gofalwyr pwysig yn ei fywyd a dechrau bod yn ofalus o bobl ddieithr. Mae angen iddo ddysgu y gallai ymddiried yn ei amgylchedd, felly gall synau neu ymatebion sydyn ei wneud yn bryderus. |
| 1 – 3 | Y brif dasg i'r plentyn ar y cam hwn yw datblygu **YMREOLAETH.**<br><br>Mae'n awyddus i archwilio'r byd a gall hyn olygu ei fod yn cyffwrdd popeth na ddylai ei gyffwrdd neu fynd am y llefydd na ddylai fod yno. Mae atal yn agwedd bwysig ar ofal ar y cam hwn, drwy gadw pethau amhriodol allan o gyrraedd a defnyddio mesurau diogelwch.<br><br>Wrth iddo ddod yn fwy ymwybodol ohono ef ei hun, mae'r geiriau "fi! fi!" a<br><br>"Na! Na!" yn gyffredin a gall hynny fod yn ddigon i'ch gwylltio yn enwedig pan ddaw law yn llaw â stranc. Mae'n bwysig peidio â rheoli plentyn bach. Mae helpu plentyn i *ddysgu* cydweithredu yn opsiwn gwell. Mae tynnu ei sylw hefyd yn dacteg dda, yn yr un modd â darparu ymddygiad gwahanol. Mae plant bach wrth eu bodd yn dynwared felly mae'r ffordd yr ydych yn gwneud pethau yn bwysig. Cyfnod canolbwyntio byr sydd gan blant bach, felly peidiwch â disgwyl iddynt allu canolbwyntio ar un peth am gyfnod hir. |
| 4 - 5 | Y brif dasg i'r plentyn ar y cam hwn yw datblygu **MENTER.**<br><br>Mae'n dechrau datblygu parodrwydd i drio pethau newydd ac mae ganddo'r hyder i gymryd risgiau. Mae'n mwynhau chwarae ac mae ei ddychymyg yn datblygu'n dda. Mae ei annibyniaeth |

| | |
|---|---|
| | yn datblygu ymhellach. Ei hoff gwestiynau yw "Sut?" a "Pam?" Gall plant sydd wedi cael dechrau ansefydlog mewn bywyd ailadrodd y cwestiynau hyn yn ddiderfyn wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o'r byd. Nid ydynt yn ceisio eich gwylltio, dim ond dod i ddeall. Mae'n haws bellach egluro i blant pam y gallant a pham na allant wneud rhai pethau ac mae bargeinio yn dod yn bosibl. "Mi wnaf i hyn os gwnei di hynna" |
| 6 -10 | Y brif dasg i'r plentyn ar y cam hwn yw **DIWYDIANT.**<br><br>Mae teimlo'n llwyddiannus yn annog hunanwerth ac mae wirioneddol yn ymateb i ganmoliaeth ac yn datblygu awydd i ddysgu mwy.<br><br>Mae ei gyfnod canolbwyntio yn datblygu, felly mae'n bosibl tynnu ei sylw yn hirach. Gellir defnyddio esboniadau, er i'r syniad o 'degwch' ddod yn broblem iddo a byddwch yn clywed "dydi o ddim yn deg" yn aml. |
| 11-18 | Y brif dasg i'r unigolyn ifanc ar y cam hwn yw datblygu ei ymdeimlad o **HUNANIAETH.** Mae'n dod o hyd i'w le yn y byd ac yn teimlo y gallai nawr wneud ei benderfyniadau ei hun. Mae angen cyngor ac arweiniad arno ond mae hefyd angen lleisio ei farn a theimlo'n rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdano ac ar ei ran. Er bod angen rhai agweddau cadarn o ran y disgwyliadau ynghlwm â'i ymddygiad, gellir cael peth hyblygrwydd i ganiatáu trafodaeth a gall cyfaddawdu ei helpu i deimlo ei fod yn cael dweud ei ddweud. Dewiswch eich brwydrau a gadewch i rai fynd.<br><br>Cadarnhewch ei unigrywiaeth a bydd yn datblygu hunanwerth |

# ADRAN 11

## GWAITH TAITH BYWYD

Gwaith taith bywyd

Mae gan blant / pobl ifanc sy'n byw gyda'u teuluoedd genedigol y cyfle i wybod am eu gorffennol ac egluro digwyddiadau'r gorffennol yng ngoleuni'r presennol. Yn aml, nid yw plant sydd wedi'u gwahanu o'u teulu genedigol yn cael y cyfle hwn. Mae'n bosibl bod eu gorffennol wedi'i golli neu ei anghofio.

Pan mae plant / pobl ifanc wedi anghofio eu gorffennol, mae'n bosibl y gallant ei chael hi'n anodd datblygu'n emosiynol a chymdeithasol. Os na all, neu nad yw, oedolion yn trafod y gorffennol hwn gyda nhw, yna mae'n rhesymol i'r plentyn/unigolyn gymryd yn ganiataol bod y cwbl yn negyddol.

Felly, mae'n hynod bwysig i ofalwyr maeth helpu plant/pobl ifanc i ddal eu gafael ar eu gorffennol a'u helpu i wneud synnwyr ohono. Pan fydd plentyn/unigolyn ifanc yn symud ymlaen oddi wrthoch neu o leoliadau eraill, mae perygl gwirioneddol y gallai golli rhan o'i fywyd. Gall plant/pobl ifanc yn y system ofal symud sawl gwaith ac nid oes ganddynt ddim i'w ddangos amdano. Byddwch yn ystyriol o hyn a dechreuwch gasglu gwybodaeth, pethau cofiadwy, ffotograffau, cofnod cyflawniadau etc. gyda'r plentyn cyn gynted ag y mae'n eich cyrraedd chi.

Gall y wybodaeth hon ffurfio agweddau ar waith bywyd gyda'r plentyn/unigolyn ifanc. Mae gan y gofalwr maeth rôl bwysig i'w chwarae yn hyn gan mai ef yw'r prif ofalwr i'r plentyn a gallai sicrhau ei fod yn gwneud bob ymdrech i gadw tystiolaeth o'r cyfnod a dreuliwyd gyda'r plentyn. Dyma ychydig o syniadau:

Ffotograffau/fideos o'r cyfnod a dreuliwyd gyda chi a'ch teulu, gellir rhoi'r rhain mewn albwm ffotograffau gyda phenawdau priodol i amlygu'r digwyddiad neu'r profiad.

Cofnod cyflawniadau / adroddiadau ysgol / lluniau, gwrthrychau a wnaed gan y plentyn.

Digwyddiadau arwyddocaol megis tocynnau pêl-droed, gwahoddiadau partïon, pamffledi etc.

Gellir casglu'r holl wybodaeth hon mewn blwch neu ffolder atgofion. **Byddwch yn ofalus i beidio â defnyddio llyfrau lloffion.**

Bydd gan weithiwr cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc ffynonellau gwybodaeth gwahanol i roi gwybod i'r plentyn/unigolyn ifanc am ei orffennol. Bydd angen gwneud y gwaith hwn ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol a'r plentyn. Mae hwn yn ddarn o waith uniongyrchol pwysig i'r plentyn/unigolyn ifanc i'w helpu ffurfio ei ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

Dylai'r gwaith bywyd hwn dyfu gyda'r plentyn/unigolyn ifanc ac mae'n bwysig cydnabod mai ef sy'n berchen arno. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y ceir achlysuron lle gall plentyn/unigolyn ifanc wylltio a cheisio dinistrio'r gwaith hwn, gan ei fod yn gweithio drwy brofiadau poenus. Argymhellir cadw copïau o hynny o wybodaeth, llythyrau neu luniau â phosibl. Gall fod er budd gorau y plentyn/unigolyn ifanc i'r gofalwr maeth gymryd cyfrifoldeb i'w gadw'n ddiogel, dylid trafod hyn gyda'r plentyn a'i weithiwr cymdeithasol.

Os oes gennych unrhyw bryderon / problemau neu os oes angen cymorth a chefnogaeth arnoch i ddechrau gwaith bywyd gyda phlant / pobl ifanc, trafodwch hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol / gweithiwr cymdeithasol.

# ADRAN 12

## DIWEDD LLEOLIADAU GOFAL MAETH

Diwedd lleoliadau gofal maeth

Disgwylir i ofalwyr maeth brynu bagiau priodol i unrhyw blentyn/unigolyn ifanc sy'n symud ymlaen o'r lleoliad gofal maeth. Rydym yn eich argymell i gasglu cyflenwad o baciau popeth / bagiau mawr y gellir eu prynu am bris rhesymol ym marchnadoedd lleol. Dylai'r gost hon ddod o lwfans y gofalwr maeth. Bydd hyn yn osgoi unrhyw symudiadau cyflym heb eu cynllunio lle nad yw'r gofalwr maeth yn gallu darparu'r plentyn / unigolyn ifanc â'r bagiau priodol i bacio ei eiddo.

**Nid oes un rheswm derbyniol pam y dylai unrhyw ofalwr maeth bacio eiddo plentyn/unigolyn ifanc mewn bagiau sbwriel du!**

Mae'n hynod bwysig bod trefniadau amlwg yn eu lle i drosglwyddo eiddo plentyn. Rhaid cofnodi cyfrif clir am Lyfrau Taith Bywyd, Pasbortau a Chynilion ac rydym yn eich argymell i wneud nodyn o'r hyn a roddwyd, i bwy a phryd. Ni ddylech gadw unrhyw eitemau personol, cynilion neu gofnodion plant sydd wedi gadael lleoliad am gyfnodau estynedig, er y gellir cael adegau lle gall y newid gymryd yn hirach na'r disgwyl. Dylid cytuno gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r lleoliad newydd ynglŷn â sut rheolir y gwaith o drosglwyddo eitemau a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn eich cefnogi gyda hyn.

Eiddo personol plant a phobl ifanc

Pan fydd plant/pobl ifanc yn cael eu lleoli gyda chi, mae'n bwysig ar y cam hwn gwneud rhestr o eiddo'r plentyn; bydd hyn yn pennu a fydd angen lwfans dillad cychwynnol ai peidio.

Noder y gall plentyn/unigolyn ifanc ddod ag eitemau penodol o adref a all fod yn bersonol iddo a lle bo'n bosibl sicrhewch eich bod yn parchu hyn a sicrhewch eu bod yn cael eu cadw mewn lle diogel, er enghraifft hoff degan neu ddilledyn. Gall hwn fod yn arwyddocaol i'r plentyn ac yn gyswllt â'i deulu. Mae'n bwysig sicrhau bod gan y plentyn rywbeth

sydd ag arogl adref arno, felly byddwch yn ystyriol a lle bo'n bosibl, trafodwch gyda'r gweithiwr cymdeithasol cyn golchi rhai eitemau, megis blanced ddiogelwch.

Os yw plentyn/unigolyn ifanc wedi dod o leoliad gofal maeth blaenorol, disgwylir y bydd ganddo ddigon o ddillad, eitemau personol, teganau, etc. Dylai hyn gynnwys gwaith bywyd a ffotograffau o'r amser a dreuliwyd gyda'r gofalwr blaenorol ac unrhyw lyfr cynilion i'r plentyn. Os nad dyma'r achos, yna bydd y gweithiwr cymdeithasol yn codi hyn gyda'r gofalwr maeth blaenorol.

Yn y cyfarfod lleoli gyda phawb dan sylw, penderfynir a oes angen eitemau gwariant ychwanegol i'r plentyn neu unigolyn ifanc ai peidio.

Yn ystod y lleoliad, bydd unrhyw geisiadau gwariant ychwanegol y tu hwnt i'r lwfans maethu yn cael eu trafod gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn mewn cydweithrediad â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, a'r rheolwr maethu fydd yn rhoi'r caniatâd terfynol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun.

Pan fydd y plentyn/unigolyn ifanc yn symud ymlaen o'r lleoliad, mae'n bwysig ar y cam hwn gwneud rhestr o'r eitemau y mae'r plentyn/unigolyn ifanc yn berchen arnynt i sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb yn ddiweddarach. Gallwch helpu'r plentyn/unigolyn ifanc gyda'r dasg o bacio a gwneud rhestr gydag ef os yw hynny'n briodol i'w oedran.

Byddwch yn ystyriol i beidio â gwagio ystafell unigolyn ifanc a phacio ei eiddo heb ymgynghori gyda'r unigolyn ifanc, gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn gyntaf. Sicrhewch y rhoddir ystyriaeth ddyledus i bacio eiddo plentyn/unigolyn ifanc yn daclus a gofalus.

Symud Lleoliad

Gall plant symud o leoliad am sawl rheswm. Dyma rai enghreifftiau:

- Dychwelyd i fyw gyda rhieni
- Lleoliad gyda theulu genedigol
- Symud ymlaen ar gyfer mabwysiadu
- Symud i fyw'n annibynnol
- Symud o leoliad hir dymor i dymor byr
- Symud i leoliad preswyl ac oddi yno
- Lleoliad yn methu

Lle bynnag sy'n bosibl, dylai gofalwyr maeth gefnogi plant a phobl ifanc wrth drosglwyddo. Gall hyn gynnwys mynd â'r plant am ymweliadau estynedig, cyswllt dros y ffôn a chefnogaeth i'r lleoliad newydd, y rhiant/aelod o'r teulu neu'r gofalwr newydd yn dod i'r lleoliad cyfredol am gyngor ac arweiniad.

Pan fydd plant yn symud ymlaen ar gyfer mabwysiadu, caiff eu cynlluniau trosglwyddo eu rheoli gan y gwasanaeth mabwysiadu. Bydd hyd, amlder ac ehangder y cynllun yn cael eu pennu gan anghenion unigol y plentyn, ynghyd ag unrhyw risgiau posibl. Bydd y gofalwyr maeth yn chwarae rhan weithredol, gyda chefnogaeth gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, yn y cyfarfodydd cynllunio ac i baratoi ar gyfer y symudiad mabwysiadol.

Mae'n hynod bwysig y mynychir goruchwyliaeth yn rheolaidd a bod unrhyw broblemau yn cael eu trafod yn rhagweithiol. Bydd hyn yn galluogi'r tîm i'ch cefnogi chi'n briodol ac atal lleoliadau rhag methu. Os oes problem o fewn y lleoliad ydych chi'n credu a all effeithio ar sefydlogrwydd y lleoliad, mae angen cynnal Cyfarfod Cefnogi Lleoliad Gofal Maeth. Mewn cyfarfod cefnogi lleoliad gofal maeth, bydd gweithiwr cymdeithasol uwch o'r tîm mabwysiadu yn mynychu'r lleoliad ochr yn ochr â'ch goruchwyliwr a'r gweithiwr cefnogi lleoliadau gofal maeth i drafod y problemau a rhoi cynllun cefnogaeth mewn lle. Lle

bynnag bo'n bosibl, bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn mynychu hefyd.

Mae'r gweithiwr cefnogi lleoliadau gofal maeth yn aelod o'r tîm maethu sy'n gallu darparu rhagor o gefnogaeth i chi y tu hwnt i oruchwyliaethau. Gall y gweithiwr cefnogi gofal maeth:

- Ymgymryd ag ymweliadau ychwanegol
- Darparu cefnogaeth ychwanegol dros y ffôn
- Rhoi cyngor a chefnogaeth emosiynol
- Darparu hyfforddiant un i un ynglŷn â thechnegau rheoli ymddygiad
- Cefnogi plant gofalwr maeth lle mae lleoliadau yn effeithio arnynt hwy

Os oes problemau o fewn lleoliad lle nad yw gofalwr maeth yn teimlo y gallai barhau i ddarparu cefnogaeth i blentyn neu unigolyn ifanc, mae angen trefnu Cyfarfod Sefydlogrwydd Lleoliad Gofal Maeth. Bydd y Cyfarfod Sefydlogrwydd Lleoliad Gofal Maeth yn cynnwys yr un bobl â'r uchod, a bydd y materion sy'n effeithio ar y lleoliad yn cael eu harchwilio a'r gefnogaeth yn cael ei hadolygu. Fodd bynnag, os yw'r gofalwr maeth yn teimlo na allai barhau gyda'r lleoliad, yn y cyfarfod hwn gellir rhoi rhybudd 28 diwrnod ar gyfer lleoliad maeth. Nid yw'r tîm maethu yn gallu derbyn rhybudd y tu allan i ffiniau Cyfarfod Sefydlogrwydd Lleoliad Gofal Maeth.

<u>Ffarwelio Cadarnhaol</u>

Dylai bob plentyn/unigolyn ifanc gael cyfle i ffarwelio waeth beth fo'r amgylchiadau. Fel gofalwr maeth anogir chi i ddarparu cyfleoedd i'r plentyn/unigolyn ifanc ffarwelio â'r bobl a'r cyfeillion sy'n bwysig iddo yn ystod ei gyfnod yn byw gyda chi.

Er enghraifft, gallech drefnu parti os yw hynny'n briodol neu roi rhodd fach i gofio. Dylai bob plentyn/unigolyn ifanc adael lleoliad gydag o

leiaf ffotograff o'i hun gyda chi a'ch teulu, waeth pa mor fyr oedd cyfnod y lleoliad a dreuliodd gyda chi. Mae hyn yn rhan o'r gwaith taith bywyd sy'n hanfodol i ofalwyr maeth ymgymryd ag o gyda phlant a phobl ifanc.

# ADRAN 13

## GWEITHIO GYDA'R TÎM 16+

Gweithio gyda'r Tîm 16+

Mae gan blant sy'n derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal, am gyfnod penodedig yr hawl am gefnogaeth gan yr awdurdod lleol ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Pan fydd plant yn agosáu at 16 oed, bydd eu gweithiwr cymdeithasol yn eu symud o'r adran Ddiogelu i'r Tîm 16+.

Yn y Tîm 16+, bydd yr unigolyn ifanc yn derbyn cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol neilltuol tan iddo droi'n 18 oed, ond bydd hefyd yn derbyn cefnogaeth gan Ymgynghorydd Personol a fydd yn darparu cefnogaeth iddo cyn ac ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed.

Mae'r tîm 16+ yn monitro cynnydd unigolyn ifanc tuag at annibyniaeth drwy Gynllun Llwybr sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r unigolyn ifanc, ac mae'n destun adolygiadau rheolaidd.

Mae'n bwysig bod bob gofalwr maeth yn cefnogi'r plant a phobl ifanc yn ei ofal i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Wrth i blentyn dyfu a datblygu, dylai'r gofalwr yn raddol wneud llai dros yr unigolyn ifanc a gwneud mwy gydag ef. Er enghraifft, cefnogi'r unigolyn ifanc i wneud ei apwyntiad ei hun gyda'r meddyg teulu, golchi ei ddillad ei hun, a pharatoi prydau bwyd syml yn hytrach na gwneud hyn i gyd drosto. Bydd gofyn y cwestiynau ar y dudalen nesaf i unigolyn ifanc yn eich helpu chi i gael syniad o ba sgiliau y mae angen iddo eu datblygu er mwyn gwella ei annibyniaeth.

Bydd disgwyl i'r gofalwr maeth gymryd cyfrifoldeb am gadw ar flaen yr adnoddau a'r opsiynau sydd ar gael i'r Tîm 16+ er mwyn cynghori'r unigolyn ifanc yn briodol ac i weithio mewn partneriaeth â'r Tîm 16+. Os nad ydych yn glir a/neu hyderus i drafod y materion hyn, gall eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'r tîm 16+ eich cefnogi chi.

Er mwyn hyrwyddo annibyniaeth plentyn/unigolyn ifanc, mae angen iddo ddeall beth yw cost nwyddau hanfodol. Bydd mynd â'r plentyn/unigolyn ifanc gyda chi wrth i chi wneud eich siopa arferol yn eich helpu chi i arddangos hyn. Bydd modelu rheolaeth ariannol dda ac

ymwybyddiaeth o reoli cyllideb i'r plentyn yn ei gynorthwyo i ddysgu'r sgiliau hyn cyn ei ganiatáu i ymgymryd â'r dasg ei hun. Mae'n bwysig y rhoddir cyfrifoldeb ariannol i bobl ifanc yn raddol drwy ganiatáu iddo ymgymryd â thasgau megis:

- siopa am ddillad o fewn cyllideb
- dysgu rysáit, prynu'r cynhwysion o fewn cyllideb a pharatoi pryd o fwyd
- defnyddio ffôn symudol talu wrth fynd (trafodwch hyn gyda'r gweithiwr cymdeithasol ymlaen llaw)
- ei annog i gyllidebu symiau o'i arian poced i gynilo i brynu rhywbeth
- siopa am eitemau gofal personol o fewn cyllideb (diaroglydd, sebon ymolchi)

**SGILIAU BYW YMARFEROL**

A ydych chi'n gallu defnyddio cyfrifiadur?

A oes gennych sgiliau llythrennedd sylfaenol, h.y. yn gallu darllen a deall gwybodaeth/ysgrifennu llythyrau/e-bost?

A ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac unrhyw apiau symudol?

A ydych chi'n gwybod sut i greu cyfrineiriau diogel ar gyfer cyfrifon ar-lein a chadw cyfrifon yn ddiogel?

A ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am ddogfennau adnabod?

A ydych yn gwybod beth yw rhif Yswiriant Gwladol a beth yw ei bwrpas? A ydych chi'n gwybod sut i gadw eich rhif yn ddiogel?

A oes gennych basbort cyfredol neu ffurf arall o brawf adnabod?

A ydych chi'n gallu trefnu apwyntiadau gyda'ch meddyg teulu, deintydd, optegydd ac arbenigwyr eraill a'u mynychu heb gefnogaeth?

A ydych chi'n gwybod lle mae'r ysbyty agosaf ac a fyddech chi'n gallu mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys mewn achos o argyfwng?

A allwch chi gynnal diet gweddol iach?

A ydych yn mwynhau neu'n cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer corff?

A allwch chi siopa am ddillad yn briodol (ymatal rhag gwario eich holl arian ar ddillad ar unwaith!)?

A allwch chi gynllunio, prynu cynhwysion a pharatoi prydau bwyd?

A allwch chi olchi eich dillad eich hun? Mae hyn yn cynnwys smwddio a chadw eich dillad!

A allwch chi ymgymryd â thasgau sylfaenol yn y tŷ a chadw eich cartref yn lân a thaclus?

A ydych chi'n ymwybodol o gymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch sylfaenol yn y cartref?

A ydych chi'n gallu rheoli eich hylendid personol yn briodol?

A oes gennych sgiliau trefnu amser da, e.e. codi yn annibynnol yn y bore, cyrraedd apwyntiadau mewn da bryd etc.?

A ydych yn teimlo'n hyderus yn gwneud galwadau ffôn i arbenigwyr megis eich gweithiwr cymdeithasol neu ei gynorthwyydd personol, y meddyg teulu, canolfan byd gwaith, adran gwaith a phensiynau etc.?

A ydych chi'n gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r prisiau, amseroedd, gorsafoedd a mannau galw ar y ffordd.

A ydych yn ymwybodol beth yw'r adnoddau cymunedol yn eich ardal, megis llyfrgell, canolfan gymunedol, pwll nofio etc.?

A allech chi ddefnyddio gwasanaethau hawliau/cynrychioli megis Cyngor ar Bopeth neu eiriolaeth petai angen?

A ydych chi'n gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus megis PayPoint a'r swyddfa'r post?

A ydych chi'n gwybod lle mae swyddfeydd y cyngor, canolfan byd gwaith a swyddfeydd Gyrfa Cymru wedi'u lleoli?

**SGILIAU RHEOLI ARIAN**

**A ydych yn gwybod sut i agor cyfrif banc a pha wybodaeth y bydd Banciau / cymdeithasau adeiladu ei hangen?**

**A ydych yn gwybod beth yw bancio ar-lein a sut i gael mynediad at hyn? A ydych yn gwybod sut i gadw unrhyw gyfrineiriau / gwybodaeth gofiadwy?**

**A ydych yn deall beth yw debyd uniongyrchol ac archeb sefydlog?**

A ydych yn deall y ffioedd ar gyfer rheoli cyfrif banc, er enghraifft gorgodi arian a ffioedd banc megis debyd uniongyrchol wedi'i ddychwelyd?

A ydych yn gwybod y gwahaniaeth rhwng cerdyn arian parod, cerdyn debyd a cherdyn credyd?

A ydych yn gwybod pa gefnogaeth a mentrau ariannol sydd ar gael i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant?

A ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), - (i bobl ifanc rhwng 16-18 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac addysg ôl-16). A ydych chi'n gwybod

faint yw'r taliadau, sut mae'r taliadau hynny yn cael eu gwneud a'r meini prawf ar gyfer derbyn taliadau?

A ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC) - i'r rheiny sy'n 19 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Pa daliadau a wneir a sut gwneir y taliadau?

A ydych chi'n gwybod sut i gael mynediad at gynlluniau hyfforddiant a mentrau ariannol maen nhw'n eu cynnig?

A ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio twll yn y wal neu gael taliad arian-yn-ôl?

A ydych chi'n deall sut mae cardiau credyd neu gardiau siopau yn gweithio?

A ydych yn ymwybodol o 'statws credyd' a phwysigrwydd cael hanes credyd da?

A yw'r unigolyn ifanc yn deall pwysigrwydd cael hanes credyd da?

A ydych yn gwybod lle i gael cefnogaeth ynglŷn â dyledion?

A fyddech chi'n gallu cysylltu â darparwr (e.e. nwy neu drydan) i drefnu cynllun talu os ydych wedi cronni dyled neu eich bod yn methu â thalu eich bil yn llawn?

A ydych yn ymwybodol o'r ffyrdd gwahanol o fenthyca arian (e.e. teulu/cyfeillion, benthyciad o'r banc, benthyciad cyflym, siop wystlo)?

A fyddech chi'n gallu cyllidebu ar gyfer eich treuliau rheolaidd a chynilo i baratoi ar gyfer unrhyw dreuliau annisgwyl ar yr un pryd?

A ydych yn deall y gwahaniaeth rhwng eisiau rhywbeth ac angen rhywbeth go iawn? Moethau vs. hanfodion!

A ydych yn deall y costau sydd ynghlwm â ffôn symudol a mynediad at y rhyngrwyd? A fyddech chi'n gallu chwilio am y prisiau gorau/rhataf?

A ydych chi'n gwybod sut i gael mynediad at gyngor/cefnogaeth ariannol neu gymorth ariannol mewn argyfwng?

Pan Fydda i'n Barod

Mae 'Pan Fydda i'n Barod' yn gynllun a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid allweddol yn y trydydd sector i alluogi'r rheiny sy'n gadael gofal i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth blaenorol unwaith y byddant yn troi'n 18 oed. Mae bob awdurdod lleol wedi datblygu ei drefniadau ei hun ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Mae'r trefniadau hyn yn wahanol i ofal maeth oherwydd unwaith mae unigolyn ifanc wedi troi'n 18 oed ac yn oedolyn, nid yw'n unigolyn 'sy'n derbyn gofal' neu 'mewn gofal' yn gyfreithiol. Nid yw'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n gymwys i faethu yn berthnasol bellach ac mae'r sail gyfreithiol i unigolyn ifanc yn aros yng nghartref y gofalwr maeth yn newid. Byddai'r Awdurdod Lleol yn hwyluso 'trefniant byw ôl-18' i'r unigolyn ifanc hwnnw.

**Gellir gwneud trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' pan:-**

Oedd yr unigolyn ifanc yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal yn syth cyn ei ben-blwydd yn 18 oed ac yn byw gyda gofalwyr maeth gyda threfniant wedi'i drefnu gan yr Awdurdod Lleol (mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal maeth mewn cartref, gan berthyn neu ddarparwr Annibynnol); ac

Ystyrir yr unigolyn ifanc yn unigolyn ifanc categori 1 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014); ac

Mae'r unigolyn ifanc a'r gofalwyr maeth yn dymuno ymgymryd â threfniant 'Pan Fydda i'n Barod' ac mae'r trefniant wedi'i sefydlu yng nghynllun llwybr yr unigolyn ifanc; ac

Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod trefniant o'r fath yn gyson â lles yr unigolyn ifanc.

# ADRAN 14

## MATERION CYFREITHIOL

## Materion Cyfreithiol

### Achosion llys

Fel gofalwr maeth, cewch eich hysbysu'n ffurfiol gan yr adran gyfreithiol neu weithiwr cymdeithasol y plentyn/plant am unrhyw achosion llys sy'n dechrau mewn perthynas â phlentyn/plant sydd wedi'u lleoli gyda chi. Nid yw'r hysbysiad hwn yn golygu eich bod chi'n rhan o'r achos.

### Gwasanaethu fel Tyst

Fel gofalwr maeth, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i chi ar adegau wneud datganiad a/neu gyflwyno tystiolaeth yn y llys, mewn achos troseddol neu sifil yn ymwneud â'r plant sy'n cael eu lleoli gyda chi. Gellir gwneud y cais gan yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwarchodwr y Plant, neu rieni'r plant. Os bydd unrhyw un arall heblaw am yr Awdurdod Lleol yn gofyn i chi roi datganiad, neu fod yn dyst, dylech drafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol cyn cytuno. Os oes angen, gellir ceisio cyngor gan ein hadran gyfreithiol.

**Mae'n arbennig o bwysig cofio cyfrinachedd ac na ddylid rhoi unrhyw wybodaeth, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'r plant i unrhyw un arall heb ganiatâd gan yr adran.**

Fel gofalwr maeth, mae'n bosibl y bydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys ac os bydd hyn yn digwydd, mae'n debygol y cewch eich croesholi gan gyfreithwyr y partïon eraill. Nid yw hyn yn digwydd yn aml ac mae'n bosibl na fyddai'n digwydd yn eich gyrfa maethu felly peidiwch â phoeni. Cewch gefnogaeth a chyngor am y broses a bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn gefn i chi, yn ogystal â'r adran gyfreithiol.

## Cofnodion

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddatgelu'r holl ddogfennaeth berthnasol mewn achos gofal, gall hyn gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig gennych chi pan mae'r achos llys yn cynnwys plant sydd wedi'u lleoli gyda chi. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn rhoi arweiniad i chi o ran cwblhau cofnodion yn eich logiau dyddiol. Darperir Hyfforddiant Sgiliau Cofnodi gan y Tîm Maethu, ac mae cwblhau hwn yn orfodol. Efallai bod y wybodaeth hon i gyd yn ddigon i'ch dychryn, ond cofiwch y cewch bob cefnogaeth ac arweiniad yn y broses hon. **Cofiwch sicrhau y dylai'r holl gofnodion fod ar wahân ar gyfer bob plentyn dan eich gofal.**

## Gorchymyn Gofal

Pan mae plant yn destun Gorchmynion Gofal Llawn neu Orchmynion Gofal Dros Dro, mae'r awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb fel rhiant drostynt gyda'u rhieni. Mae'r rhan fwyaf o "blant sy'n derbyn gofal" yn destun Gorchmynion Gofal, a chaiff rhai eu lleoli dan drefniadau gwirfoddol. Fel rheol, mae Gorchymyn Gofal yn para nes bod plentyn/unigolyn ifanc yn 18 oed, ond gellir gwneud cais i'r llys i'w ollwng yn gynt.

Bydd eich trefniant lleoli yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â statws cyfreithiol unrhyw blentyn neu blant a roddir yn eich gofal. Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol Diogelu eich cynghori chi o unrhyw newidiadau i hyn dros gyfnod y lleoliad gofal maeth.

## Llety Gwirfoddol

Mae rhai plant/pobl ifanc yn derbyn gofal ac yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth gan yr awdurdod lleol dan drefniant gwirfoddol gyda'r rhiant/rhieni. Gelwir hyn yn Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Nid oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb fel rhiant dros y plant/pobl ifanc hyn, cyfrifoldeb y rhieni ydyw yn llwyr.

## Gorchymyn Trefniadau Plentyn

Gall gofalwr maeth awdurdod lleol wneud cais, gyda chaniatâd y llys, am Orchymyn Trefniadau Plentyn mewn perthynas â phlentyn sydd wedi byw gydag ef am 1 flwyddyn cyn gwneud cais, heb orfod ceisio caniatâd gan yr awdurdod lleol.

Gall gofalwr maeth wneud cais am Orchymyn Trefniadau Plentyn am blentyn sydd wedi'i leoli gydag ef am chwe mis os ydyw wedi cael caniatâd gan yr awdurdod lleol, os yw'r plentyn yn perthyn iddo, neu mae'r plentyn wedi byw gyda'r gofalwr maeth am o leiaf un flwyddyn cyn cyflwyno'r cais.

Byddem yn annog gweithio mewn partneriaeth bob amser rhwng gofalwyr maeth a'r awdurdod lleol er budd gorau'r plentyn. Dylai gofalwr maeth sy'n ystyried cyflwyno cais am unrhyw Orchymyn mewn perthynas â'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol drafod hyn gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn y dyddiau cynnar.

Mae Gorchymyn Trefniadau Plentyn yn cyflwyno cyfrifoldeb fel rhiant sy'n cael ei rannu gyda'r rhiant/rhieni. Mae hyn yn gollwng unrhyw Orchymyn Gofal sydd mewn grym, a gall bara nes bod y plentyn/unigolyn ifanc yn 16 oed neu hyd at 18 oed os nodir hynny gan y llys. Gall unigolyn sydd â Gorchymyn Trefniadau Plentyn wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch y plentyn gyda chytundeb gan unrhyw un arall sydd â Chyfrifoldeb fel Rhiant.

## Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig

Nod Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig yw sicrhau lleoliad plentyn sy'n byw gyda rhywun heblaw am riant/rhieni dros y tymor hir a phan nad yw mabwysiadu yn briodol ar gyfer y plentyn hwnnw. Bwriedir iddo fod yn fwy cadarn na Gorchymyn Trefniant Plentyn oherwydd ni all y rhiant/rhieni wneud cais i ddiddymu'r gorchymyn heb ganiatâd y llys.

Mae Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig yn para nes bod y plentyn/unigolyn ifanc yn 18 oed, oni chaiff ei ddiddymu. Mae'n diddymu unrhyw orchmynion cyfredol. Dan y Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig, mae gan y rhiant/rhieni a'r Gwarchodwr Arbennig gyfrifoldeb fel rhiant ond gall y Gwarchodwr Arbennig ddefnyddio ei gyfrifoldeb fel rhiant i wahardd unrhyw un arall.

Gall gofalwr maeth wneud cais am Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig mewn perthynas â phlentyn yn ei ofal os yw'r plentyn wedi bod yn byw gydag ef am o leiaf un flwyddyn cyn y gwneir cais. Cyn gwneud cais, rhaid i'r gofalwr maeth roi o leiaf tri mis o rybudd i'r awdurdod lleol o'i fwriad i wneud hynny.

Bydd gofalwyr maeth cymeradwy sydd wedi cael Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig yn cael lwfans Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig sy'n gyfartal â lwfans maethu lefel 1 heb y budd-dal plant a chredydau treth plant oherwydd bod rhaid gwneud cais am y rheiny. Mae'r lwfans hwn wedi'i ddiogelu am ddwy flynedd, ac ar ôl hynny gellir parhau i roi cefnogaeth ariannol, fodd bynnag mae hyn ar sail asesiad ariannol yn seiliedig ar brawf modd. Mae'n bosibl cael y prawf modd yn ystod yr asesiad fel bod y Gwarchodwr posibl yn ymwybodol o'r gefnogaeth ariannol a gâi ar ôl i'r cyfnod gwarchodedig ddod i ben.

Mae gan warcheidwaid hawl am gefnogaeth gan y tîm sefydlogrwydd, sy'n rhan o Ofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Gall hyn gynnwys cefnogaeth anffurfiol dros y ffôn, mynychu grwpiau cefnogi, ymweliadau cartref a mynediad at hyfforddiant a ddarperir i ofalwyr maeth, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy'r wefan isod:

https://www.bridgend.gov.uk/residents/social-care-and-wellbeing/children-s-social-care/special-guardianship-orders/

## Mabwysiadu

Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried cynllun darparu sefydlogrwydd ar gyfer unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal. Adolygir y cynllun sefydlogrwydd hwn yn rheolaidd. Mewn rhai achosion lle mae plentyn wedi'i leoli gyda gofalwr maeth yn yr hir dymor a daw'n glir mai mabwysiadu yw'r ffordd orau o gyflawni sefydlogrwydd i'r plentyn, gall y gweithiwr cymdeithasol drafod y posibilrwydd i'r gofalwr maeth fabwysiadu'r plentyn. Os yw'r gofalwr maeth, y plentyn, a'r awdurdod lleol yn teimlo y byddai mabwysiadu yn briodol, yna gwneir trefniadau i wneud yr asesiadau perthnasol mewn perthynas â'r gofalwr maeth yn ddarpar fabwysiadwr. Ar ôl cymeradwyo'r gofalwr maeth fel mabwysiadwr a'r gwaith paru dilynol gyda'r plentyn penodol yn y Panel Mabwysiadu, cyflwynir cais am Orchymyn Mabwysiadu i'r llys. Pan ganiateir y Gorchymyn Mabwysiadu, mae hyn yn gollwng unrhyw Orchymyn Gofal yn ogystal â throsglwyddo'r holl gyfrifoldeb fel rhiant i'r rhiant/rhieni mabwysiadu o'r rhiant/rhieni genedigol.

## Ymwelwyr Swyddogol

O ganlyniad i'r achos llys, pobl megis Gwarchodwr y plentyn/plant, swyddog CAFCASS, gweithiwr cymdeithasol annibynnol, neu arbenigwyr a benodir gan y llys sy'n dymuno gweld y plentyn/plant maeth yn y cartref maeth neu'n rhywle arall. Byddant wedi'u cyfarwyddo gan y llys i ymgymryd ag asesiadau i fod yn sail i broses gwneud penderfyniadau'r llys mewn perthynas â'r plentyn/plant.
Dylai'r gofalwr maeth dynnu sylw gweithiwr cymdeithasol y plentyn at unrhyw gais i weld y plentyn, os nad yw'r gweithiwr cymdeithasol eisoes wedi cael gwybod am y trefniadau. Yn ogystal, dylai'r gofalwr maeth drafod cais o'r fath gyda'i weithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Bydd disgwyl i'r gofalwr maeth gydweithredu gyda'r ymwelwyr swyddogol hyn ond dylai bob amser roi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn/plant cyn caniatáu mynediad at unrhyw blant/plentyn.

Y Wasg / Cyfryngau

Atgoffir gofalwyr maeth y dylai beidio â thrafod unrhyw blentyn / unigolyn ifanc dan ei ofal gyda'r cyfryngau neu'r wasg. Os cysylltir â gofalwr maeth gan aelod o'r wasg, rhaid iddo gysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant / y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn syth. Gweler y Polisi Cyfryngau yng nghefn y llawlyfr am ragor o wybodaeth.

# ADRAN 15

## ADOLYGIAD BLYNYDDOL, PROSES TERFYNU AC APELIO

Adolygiad Blynyddol, Proses Terfynu Cymeradwyaeth ac Apelio

Rhaid i dîm Gofal Math Pen-y-bont ar Ogwr adolygu cymeradwyaeth bob gofalwr maeth o leiaf bob blwyddyn, ond gallai ymgymryd ag adolygiad pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Rhaid cyflwyno'r adolygiad cyntaf i'r panel maethu a dychwelyd i'r panel wedi hynny yn ôl penderfyniad y tîm. Mae Adolygiadau Blynyddol nad ydynt wedi'u cyflwyno i'r panel yn cael eu cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Maethu. Lle bo'n bosibl, ymgymerir ag Adolygiadau Blynyddol sy'n cael eu cyflwyno i'r panel gan aelod o'r tîm nad yw'n gwasanaethu fel eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol cyfredol. Bydd Adolygiadau Blynyddol sy'n cael eu cyflwyno i'r Rheolwr Tîm yn cael eu cwblhau gan eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol neilltuol.

O fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd adolygiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r panel:

- bob tair blynedd
- yn dilyn newid sylweddol yn yr amgylchiadau
- pan mae angen newid yn y gymeradwyaeth
- lle mae pryderon neu gwynion
- lle mae honiad wedi bod yn erbyn y gofalwr
- lle mae pryderon am ddiogelwch y plentyn

Mae Adolygiadau Blynyddol yn gofyn adborth gan:

- Ofalwyr maeth a'u plant os ydynt yn byw gartref,
- Plant a leolir (yn unol â'u hoedran a'u lefel dealltwriaeth),
- Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol - os nad yw'n cwblhau'r adolygiad,
- Gweithiwr Cymdeithasol Plant yr holl blant a leolwyd y flwyddyn honno,
- Arbenigwyr/Asiantaethau sydd ynghlwm â'r gofalwr/plant, e.e. ysgol/meithrinfa/Gweithiwr Cefnogi Lleoliad Gofal Maeth/Cymorth Cynnar - fel sy'n briodol,

- Teulu genedigol y plant fel sy'n briodol, i'w cytuno gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn
- Mae angen cwblhau rhestr Wirio Anifeiliaid Anwes/Cŵn ac Iechyd a Diogelwch (gan gynnwys diogelwch drylliau fel sy'n briodol) ar gyfer bob adolygiad

Gellir cael adegau pan fydd angen i ni gael rhagor o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn â sefydlogrwydd i faethu neu gymeradwyo, ond bydd angen trafod hyn gyda chi os a phryd y bydd hynny'n digwydd.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn adolygu eich Trefniant Gofal Maeth cyfredol fel rhan o'r broses.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol sy'n cwblhau'r adolygiad yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig i'r panel gydag argymhelliad ynglŷn â'ch sefydlogrwydd parhaus i faethu a'r telerau cymeradwyo a gynigir. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda chi cyn y panel a dylech ei arwyddo i gadarnhau eich bod wedi darllen yr adroddiad. Cewch wneud cynrychiolaethau i'r panel yn ysgrifenedig/yn bersonol neu'r ddau ynglŷn ag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a chofnodi mannau yr ydych chi'n anghytuno gyda nhw.

Dylid ymgymryd â'r gwiriad DBS Manylach a'r gwiriadau Iechyd bob tair blynedd, a dylid gwneud cais amdanynt tri mis cyn y dyddiad dod i ben er mwyn sicrhau bod gan yr holl ofalwyr maeth wiriadau cyfredol yn eu lle. Dylid ymgymryd â gwiriadau iechyd ychwanegol yn ystod y cyfnod tair blynedd os oes problem iechyd sylweddol, er mwyn sicrhau eich bod yn parhau mewn iechyd da ar gyfer maethu. Ni ellir cyflwyno Adolygiadau Blynyddol i'r panel heb fod y gwiriadau hyn mewn lle a gallant effeithio ar leoliadau.

Mae'n ofynnol i Ofalwyr Maeth dystio eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant bob blwyddyn er mwyn i'r tîm maethu barhau i argymell eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth. Yn ystod adolygiad blynyddol,

bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cwblhau'r adolygiad gael gweld y dystiolaeth o hyfforddiant priodol a'i fod wedi'i gofnodi yn yr oruchwyliaeth.

Disgwylir i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cwblhau'r adroddiad, gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol y gofalwr maeth a'r gofalwr maeth ei hun fynychu'r panel maethu ar gyfer yr adolygiad.

Yn achos adolygiadau blynyddol i'r rheolwr tîm, nid oes panel yn cael ei gynnal, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, cewch wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad neu gyfarfod â naill ai ymarferydd uwch neu reolwr tîm i drafod unrhyw broblemau ynghlwm â'r adolygiad.

Yn dilyn y Panel Maethu, cyflwynir argymhellion y Panel i Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth, sef, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant. Gall uwch reolwr enwebedig ymgymryd â hyn yn achos annhebygol o absenoldeb y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant. Yr amserlen arferol ar gyfer hyn yw pythefnos.

Os, wrth ystyried yr argymhellion, bydd y tîm mabwysiadu a swyddog gwneud penderfyniadau'r asiantaeth yn cytuno nad yw'r gofalwr/gofalwyr maeth a/neu eu cartref yn addas bellach ar gyfer maethu, neu fod angen newid y telerau cymeradwyo, rhaid iddynt -

- roi rhybudd ysgrifenedig i chi, ynghyd â'r rhesymau a chopi o unrhyw argymhellion a wneir gan y Panel Maethu.

a

- rhoi gwybod i chi y gallwch, cyn pen 28 diwrnod o'r rhybudd:
    - Gyflwyno cais yn ysgrifenedig i apelio'r penderfyniad i Reolwr y Tîm Maethu
    - Wneud cais i'r Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau i adolygu yn annibynnol proses y panel a arweiniodd at y tîm maethu yn cynnig terfynu neu newid telerau eich cymeradwyaeth.

Nid yw'r Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau yn apêl ond rhaid ystyried argymhelliad y panel adolygu gan y tîm maethu a swyddog gwneud penderfyniadau'r asiantaeth pan wneir penderfyniad terfynol.

Cewch gymorth wrth wneud cynrychiolaeth ysgrifenedig gan eich ymgynghorydd cyfreithiol, eiriolwr neu gyfaill.

Noder nad yw opsiwn (b) ii ar gael i ofalwyr maeth nad ydynt wedi'u cymeradwyo yn unol ag adran 7(11) Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018. Dyma lle mae aelod o'r cartref maethu wedi'i euogfarnu neu rybuddio am drosedd a nodir yn y ddeddfwriaeth ond sydd wedi'i gymeradwyo fel gofalwr i blentyn penodol gan fod ei lesiant yn gwneud hynny'n ofynnol. Bydd unrhyw gymeradwyaeth o'r fath yn cael ei nodi yn eich Cytundeb Gofal Maeth a/neu ddogfennaeth lleoliad gofal maeth (Gofal Diogel/Cytundeb Lleoliad Gofal Maeth).

Os nad yw'r tîm maethu yn cael unrhyw gynrychiolaethau i law ac nad oes cais wedi'i gyflwyno i'r Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau cyn pen y cyfnod 28 diwrnod, gall barhau i wneud ei benderfyniad.

Os bydd y tîm mabwysiadu yn cael cynrychiolaethau ysgrifenedig i law, rhaid iddo gyfeirio'r achos at y panel maethu i'w ystyried. Gan gymryd argymhelliad y Panel i ystyriaeth, bydd Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth yn dod i gasgliad ynglŷn ag a ddylid cynnal yr apêl ai peidio.

Os yw'r gofalwr yn dymuno parhau â'r mater, rhaid cyfeirio at Weithdrefn Gwynion yr Awdurdod. Derbynnir cwyn ynglŷn â'r broses a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad yn unig, yn hytrach na'r penderfyniad ei hun.

Gweithdrefn y Panel Maethu wrth ailystyried atgyfeiriad:

Dylid darparu'r panel â'r dogfennau canlynol cyn y cyfarfod:

- yr holl bapurau yn ymwneud ag apêl ymgeisydd, h.y. y rheiny sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r panel
- cofnodion cyfarfod y panel mewn perthynas â'r argymhelliad a wnaed ynglŷn â'r ymgeisydd.
- copi o'r llythyr yr anfonwyd at yr ymgeisydd gan Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad i beidio â chymeradwyo, neu i ddadgofrestru.
- copi o gynrychiolaeth yr ymgeisydd.
- unrhyw wybodaeth newydd yr ystyrir yn berthnasol i'r cais.

Gweithdrefn ar gyfer gwrando ar gynrychiolaethau yn ystod y Panel Maethu:

- bydd gan yr ymgeisydd y cyfle i wneud cynrychiolaethau ar lafar mewn perthynas â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gynrychiolaeth ysgrifenedig.
- ar ddiwedd y cynrychiolaethau ar lafar, bydd y Panel yn cael cyfle i ofyn cwestiynau.
- bydd yr ymgeisydd yn gadael y Panel ynghyd ag awdur asesiad yr ymgeisydd
- yna bydd y Panel yn ystyried yr achos
- bydd Cadeirydd y Panel a'r ymgynghorydd yn rhoi eu hargymhelliad a'r rhesymau cryno dros eu penderfyniad

Diswyddo

Gall gofalwr maeth roi rhybudd ysgrifenedig nad yw'n dymuno parhau i faethu i'r tîm maethu ar unrhyw bryd. Bydd cymeradwyaeth y gofalwr maeth yn terfynu 28 diwrnod ar ôl derbyn y rhybudd. Bydd y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol i'r gofalwr maeth yn cynhyrchu adroddiad terfynu i'r panel maethu yn crynhoi cyfnod y gofalwr gyda'r gwasanaeth, rhoddir copi o'r adroddiad i'r gofalwr maeth a all fynychu'r panel ar gyfer terfynu pe dymunai.

Mewn achos o ofalwr maeth yn dymuno diswyddo ac mae ganddo blant wedi'i leoli gydag ef, byddem yn gofyn i ofalwyr maeth gynorthwyo'r awdurdod lleol i symud y plentyn/plant o'r lleoliad gofal maeth mewn dull cynlluniedig cyn belled ag y caniateir dan yr amgylchiadau. Byddem hefyd eisiau manteisio ar y cyfle i drafod goblygiadau penderfyniad y gofalwr maeth ar y plentyn gyda'i weithiwr cymdeithasol a thrafod y sefyllfa gyda'r plentyn yn unol â'i oedran a'i lefel dealltwriaeth. Mae'n bosibl y cynhelir cyfarfod cefnogi lleoliad gofal maeth er mwyn cynllunio'r broses hon yn effeithiol a sicrhau bod y gofalwr maeth a'r plentyn/plant yn cael eu cefnogi'n briodol drwy'r broses.

Os cewch eich ystyried yn anaddas ar gyfer maethu, naill ai drwy eich Adolygiad Blynyddol neu oherwydd digwyddiad neu gŵyn sy'n peri pryder, bydd y mater yn cael ei atgyfeirio at y Panel Maethu i'w ystyried. Cewch eich gwahodd i fynychu panel a chewch gopïau o unrhyw asesiadau a gwblhawyd gan y tîm maethu yn amlinellu'r rhesymau dros hyn. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Swyddog Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth gan gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion gan y panel. Petaech yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir, mae gweithdrefn i'w dilyn. Gweler ei manylion uchod.

<u>Cyfrinachedd ac Eiddo Personol</u>

Mae'n bwysig i bob gofalwr maeth sy'n gadael y gwasanaeth maethu sicrhau bod unrhyw wybodaeth, a'r holl wybodaeth, mewn perthynas â phlant sydd wedi bod dan eu gofal yn dychwelyd i'r awdurdod lleol er mwyn cael eu ffeilio neu i gael gwared arnynt yn briodol. Mae'n bwysig bod gofalwyr maeth yn gwneud trefniadau gyda'r tîm maethu i ddychwelyd neu gasglu gwaith papur lle gwneir penderfyniad i derfynu cymeradwyaeth gofalwr.

Yr un mor bwysig yw sicrhau bod unrhyw eiddo personol a/neu gynilion plant sydd wedi bod dan ofal gofalwyr maeth yn cael eu dychwelyd i'r plant. Mae angen gwneud trefniadau gyda gweithiwr cymdeithasol y plant a/neu'r tîm maethu fel sy'n briodol i sicrhau bod unrhyw eitemau

sydd wedi'u gadael yn y lleoliad gofal maeth yn cael eu cludo i'r plant cyn gynted â phosibl.

# ADRAN 16

## MAETHU RHIANT A PHLENTYN

**Maethu Rhiant a Phlentyn**

Mae Maethu Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ei ddarpariaeth Rhiant a Phlentyn ei hun, a'i nod yw darparu lleoliad gofal maeth i riant a phlentyn lle gellir asesu sgiliau magu plant mewn amgylchedd diogel a meithringar.

Gellir defnyddio lleoliadau rhiant a phlentyn:

• Pan mae unigolyn ifanc sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol ac sydd dan 18 oed yn cael plentyn;

• Pan mae unigolyn ifanc sydd dan 18 oed nad yw'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol yn cael plentyn ac mae pryderon diogelu plant.

• Lle mae oedolyn 18 oed neu hŷn yn cael plentyn ac mae pryderon diogelu plant.

Mae gofalwyr rhiant a phlentyn yn fedrus yn eu gwaith o hyrwyddo ymlyniadau cadarnhaol rhwng y rhiant a'r plentyn ac maent yn gweithio gyda'r rhieni ac asiantaethau eraill i hyrwyddo penderfyniadau cadarnhaol mewn bywyd, sgiliau cyllidebu ac annibyniaeth.

Mae gan ofalwyr maeth eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol eu hunain ac yn cael cyfarfodydd adolygu rheolaidd, sydd fel arfer yn cael eu cynnal yn eu cartref.

Mae'r gofalwyr maeth yn gyfrifol am gofnodi gwybodaeth fanwl ynglŷn â sgiliau rhieni a'r gefnogaeth sydd ei hangen i ddarparu sgiliau magu plant "digon da". Defnyddir y cofnodion i ffurfio rhan o asesiad y rhiant a gellir eu defnyddio yn y llys os yw'r plentyn dan y broses Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus.

# ADRAN 17

## GOFALWYR MAETH DROS DRO

## Gofalwyr Maeth Dros Dro

Mae gofalwyr maeth dros dro wedi'u ffurfio fel rhan o Raglen Ailfodelu Gwasanaethau Plant

Mae'r Gofalwyr Dros Dro yn darparu cam i lawr i bobl ifanc sy'n dod o gartrefi preswyl neu bobl ifanc sydd wedi profi sawl lleoliad gofal maeth yn methu cyn cael eu lleoli mewn lleoliad gofal maeth hir dymor gyda theulu neu leoliad annibynnol. Maent wedi cael hyfforddiant therapiwtig ac felly gallant fynd i'r afael â materion sy'n codi yn sgil trosglwyddiad i amgylchedd gwahanol, gan gynyddu'r debygoliaeth y bydd y lleoliad hir dymor yn llwyddiannus a lleihau'r nifer o leoliadau gofal maeth sy'n methu a dibyniaeth ar leoliadau y tu hwnt i'r sir.

Byddai Gofalwyr Dros Dro yn ymgymryd ag uchafswm o un lleoliad dros dro ar unrhyw bryd ac yn darparu cefnogaeth ddwys am hyd at 24 wythnos. Byddant yn gweithio'n agos â staff y Tîm Therapiwtig, a fydd yn cynghori ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi'r bobl ifanc i uchafu budd a llwyddiant lleoliadau gofal maeth y dyfodol.

Mae'r gofalwyr dros dro yn derbyn cefnogaeth helaeth gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a chynhelir cyfarfodydd adolygu bob pythefnos gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc, y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'r gofalwyr ac yn fisol gydag unrhyw asiantaeth arall sydd ynghlwm â'r achos.

Mae'r holl ofalwyr dros dro yn derbyn hyfforddiant arbenigol sy'n edrych ar gefnogi'r plentyn drwy ddulliau magu plant yn therapiwtig ac maent yn dilyn yr un model â staff Preswyl yn Golygfa Dolydd a Sunnybank.

# ADRAN 18

## AROLYGIADAU

**Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)**

Fel yr amlinellir yn Llawlyfr Arolygiaeth CIW (2017), rôl CIW yw arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i:

- ddarparu sicrwydd annibynnol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gofal preswyl a gwasanaethau cymunedol yng Nghymru;
- sicrhau y cymerir camau gweithredu i gyflawni gwelliannau lle mae safonau yn isel neu le mae pobl yn cael eu rhoi mewn perygl;
- gwella lles a gofal pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi;
- hyrwyddo hawliau'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi;
- hysbysu'r cyhoedd am ansawdd gwasanaethau gofal a
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn bodloni ac yn parhau i fodloni gofynion eu cofrestriad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Maethu gwblhau Hunan Asesiad ac adolygiad ansawdd o'i wasanaeth a darparu hwn i'r Arolygiaeth. Pan ymgymerir ag arolygiadau, bydd yr arolygydd yn trefnu i gwrdd â gofalwyr maeth naill ai'n unigol neu o fewn grŵp er mwyn ceisio adborth ynglŷn â'r gwasanaeth.

Disgwylir i arolygwyr:

- gynnal eu gwaith gyda gonestrwydd, cwrteisi a sensitifrwydd;
- gwerthuso gwaith y gwasanaeth yn wrthrychol;
- adrodd yn onest, teg a diduedd;
- cyfathrebu'n glir ac agored;
- gwasanaethu er budd gorau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau;
- parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a geir wrth iddynt gyflawni eu gwaith; a
- dangos prawf adnabod sy'n cadarnhau eu hawdurdod i gael mynediad ac arolygu.

Bydd yr Arolygiaeth yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig yn dilyn bob arolygiad. Cewch weld copi o adroddiad yr arolygiad diweddaraf ar wefan CIW.

Gallwch gysylltu â'r Arolygydd ar Ddyletswydd yn swyddfa CIW yng Nghaerfyrddin: -

Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)
Adeiladau'r Llywodraeth
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ

Ffôn: 0300 7900 126
E-bost: CIW@gov.wales

Bydd y Tîm Maethu yn rhoi gwybod i CIW am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol gan gynnwys:

- Marwolaeth plentyn sydd wedi'i leoli gyda Gofalwyr Maeth
- Salwch neu ddamwain difrifol mewn perthynas â phlentyn wedi'i leoli gyda Gofalwyr Maeth
- Afiechyd heintus yn dechrau yng nghartref Gofalwr Maeth a ddylid ei hysbysu amdano, yn ôl barn ymarferydd meddygol cofrestredig
- Ymglymiad neu ymglymiad honedig plentyn sydd wedi'i leoli gyda Gofalwr Maeth mewn puteindra
- Digwyddiad difrifol yn ymwneud â phlentyn sydd wedi'i leoli gyda Gofalwyr Maeth sy'n achosi i'r heddlu fynd i gartref y Gofalwr Maeth
- Unrhyw gŵyn difrifol am unrhyw Ofalwr Maeth
- Ymchwiliad a chanlyniad unrhyw ymholiad diogelwch plant yn ymwneud â phlentyn sydd wedi'i leoli gyda Gofalwyr Maeth

# ADRAN 19

## CWYNION

**Sut i fynd i'r afael â materion**

Mae'n bwysig ymdrin ag unrhyw faterion, ymholiadau neu bryderon sydd gennych drwy gydol eich gyrfa maethu
mewn modd priodol ac effeithiol. Ein gobaith yw y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddatrys materion yn anffurfiol, gyda dealltwriaeth gyfrannol a phartneriaethau effeithiol.

Yn y lle cyntaf, mae angen trafod yr holl faterion gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a/neu weithiwr cymdeithasol y plentyn dan eich gofal fel sy'n briodol, yn dibynnu ar natur y mater.

Os na allwch gyrraedd datrysiad boddhaol, bydd angen ymdrin â'r mater gyda Gweithiwr Cymdeithasol Uwch yn y tîm maethu/lleoliadau gofal maeth. Os bydd y mater yn parhau i fod heb ei ddatrys, caiff ei gyfeirio at Reolwr Tîm y Tîm Maethu neu Leoliadau Gofal Maeth.

Mewn achosion lle nad yw'r Rheolwr Tîm wedi gallu datrys y mater, bydd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoledig yn mynd i'r afael a'r pryderon a gall gyfeirio'r mater at Bennaeth Gwasanaethau Plant.

**Sut i Gyflwyno Cwyn, Sylw, Awgrymiad Neu Ganmoliaeth am y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol**

Rydym am i'r gwasanaethau a gewch fod o'r radd flaenaf a dyma pam mae eich adborth yn bwysig i ni. Gallai'r adborth fod ar ffurf sylw, awgrymiad ynglŷn â sut gallwn wella, canmoliaeth neu, os nad ydych yn fodlon gyda'r gwasanaethau, mae'n bosibl yr hoffech gyflwyno cwyn. Gallwch roi adborth i ni ar ran rhywun arall, hefyd.

Y ffordd orau o gyflwyno cwyn, awgrymiad, sylw neu ganmoliaeth yw cysylltu â'r Tîm Cwynion drwy un o'r ffyrdd canlynol:-

- Dros y ffôn ar 01656 642253

- Anfon llythyr neu lenwi Ffurflen Gwynion a'i anfon ymlaen at Y Tîm Cwynion, Cyfarwyddiaeth Llesiant, Swyddfeydd Dinesig, Lefel 2, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. (Gallwn drefnu i anfon y ffurflen atoch os byddai well gennych).
- Drwy e-bost social.services@bridgend.gov.uk neu childrenscomplaints@bridgend.gov.uk

Os oes angen cymorth arnoch i gyflwyno cwyn, awgrymiad, sylw neu ganmoliaeth, cysylltwch â'r Tîm Cwynion.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Cam 1 - Datrysiad Lleol

Byddwn yn cydnabod eich cwyn cyn pen dau ddiwrnod gwaith wedi iddi ddod i'n llaw. Bydd yr unigolyn a fydd yn ymchwilio i'ch cwyn yn cysylltu â chi cyn pen 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y gydnabyddiaeth gan gynnig cwrdd â chi wyneb yn wyneb neu gallwch drafod eich cwyn dros y ffôn os byddai well gennych. Bydd y drafodaeth yn sicrhau ein bod yn deall eich cwyn a'r hyn yr hoffech ei weld yn digwydd.

Pan mae'r gŵyn wedi'i datrys, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn pen pum diwrnod gwaith o'r dyddiad y datryswyd eich cwyn.

Cam 2 - Ymchwiliad Ffurfiol

Os nad yw eich cwyn wedi'i ddatrys yng Ngham 1, gallwch wneud cais i'ch cwyn gael ei hymchwilio gan unigolyn sy'n annibynnol o'r Cyngor.

Os caniateir eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch gyda chofnod ysgrifenedig ffurfiol o'ch cwyn (yn ôl ein dealltwriaeth) cyn pen pum diwrnod gwaith o ddyddiad y cais.

Cyn y gellir dechrau ar yr ymchwiliad, bydd gofyn i chi gadarnhau bod ein dealltwriaeth yn gywir a chadarnhau'r hyn yr hoffech ei weld yn digwydd. Y 'dyddiad dechrau' ar gyfer yr ymchwiliad i'r gŵyn fydd y dyddiad y cytunir ar fanylion y gŵyn.

Dylech gael ymateb i'r ymchwiliad i'r gŵyn cyn pen 25 diwrnod gwaith o'r 'dyddiad dechrau'. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthoch y rheswm dros yr oedi a pha bryd ydych chi'n debygol o gael yr ymateb. Gwneir hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod penodedig o 25 diwrnod gwaith ddod i ben a dim hwyrach na chwe mis o'r dyddiad y daeth eich cwyn i law.

Yn ein hymateb, byddwn yn:

- Crynhoi eich cwyn;
- Disgrifio'r ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef;
- Nodi a yw'r gŵyn yn cael ei chynnal, ei chynnal yn rhannol neu ddim yn cael ei chynnal;
- Egluro pa gamau gweithredu fydd yn cael eu dilyn (os unrhyw un);
- Ymddiheuro pan fo'n briodol;
- Cynnwys copi o Adroddiad yr Ymchwiliwr Annibynnol. (Os oes rheswm penodol dros pam nad ydym yn darparu hwn, byddwn yn dweud wrthoch);
- Cynnig cyfle i chi gael cwrdd â ni i drafod yr ymateb ac Adroddiad yr Ymchwiliwr Annibynnol.
- Eich cynghori chi ynglŷn â sut gallwch gyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda chanlyniad eich cwyn.

**Cysylltiadau defnyddiol eraill:**

Comisiynydd Plant Cymru,
Tŷ Ystumllwynarth,
Charter Court, Ffordd Ffenics,
Llansamlet,
Abertawe. SA7 9FS.
Ffôn: 0808 801 1000

Ffacs: 01792 765601
E-bost: post@childcomwales.org.uk

Beth yw gwaith Comisiynydd Plant Cymru?

- Cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Yn gwrando ar blant a phobl ifanc i ddysgu am yr hyn sy'n bwysig iddynt
- Cynghori plant, pobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt os credant eu bod wedi'u trin yn annheg
- Dylanwadu ar y llywodraeth ac asiantaethau eraill sy'n dweud eu bod am wneud gwahaniaeth i fywydau plant, drwy sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- Siarad dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ynglŷn â materion pwysig

Mae'r Comisiynydd Plant yn gweithio dros bob plentyn yng Nghymru sydd:

- Hyd at 18 oed
- Hyd at 21 oed os ydyw wedi bod mewn gofal
- Hyd at 25 oed os ydyw wedi bod mewn gofal ac yn dal i fod mewn addysg

Crynodeb o bwerau'r Comisiynydd:

1) Y pŵer i adolygu yr effaith ar blant yn sgil rhoi swyddogaethau ar waith neu roi swyddogaethau arfaethedig ar waith gan gyrff cyhoedd diffiniedig gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
2) Y pŵer i adolygu a monitro pa mor effeithiol yw trefniadau cwyno, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth cyrff cyhoeddus diffiniedig o ran diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.
3) Y pŵer i archwilio achosion mewn perthynas â phlant unigol dan rhai amgylchiadau.
4) Y pŵer i ddarparu cymorth i blentyn dan rhai amgylchiadau.
5) Y pŵer i wneud cynrychiolaethau i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi'r pŵer i weithredu drostynt.

6) Nid oes gan y Comisiynydd y pŵer i weithredu dan nifer o amgylchiadau diffiniedig:
   a. Materion nad ydynt wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys mewnfudo a noddfa, plant mewn tlodi, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y fyddin.
   b. Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Cynghori Llys i Blant) weithredu.
   c. Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas ag achosion teuluoedd.
   d. Holi am unrhyw fater sy'n destun, neu wedi bod yn destun, achos cyfreithiol neu adrodd arno.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed,
Pen-y-bont ar Ogwr. CF35 5LJ.
Ffôn: 0300 790 0203
Ffacs: 01656 641199
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion lle mae aelodau'r cyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol o bob corff llywodraeth. Mae gan yr Ombwdsmon dîm o bobl sy'n helpu i ystyried cwynion ac ymchwilio iddynt. Mae'r gwasanaeth yn ddiduedd ac yn rhad ac am ddim.

# ADRAN 20

## CHWYTHU'R CHWIBAN

**Polisi Chwythu'r Chwiban**

Chwythu'r Chwiban yw pan mae gan unigolyn bryder ynglŷn â gweithgarwch peryglus neu anghyfreithlon sydd ag agwedd budd cyhoeddus ynghlwm ag ef. Mae hyn yn wahanol i godi mater neu gŵyn mewn perthynas â chefnogaeth faethu, trefniant gofal maeth neu berthynas gwaith gydag aelodau'r awdurdod lleol. Ymdrinnir â'r rhain drwy ein polisïau a gweithdrefnau cwynion.

Fel gofalwyr maeth yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a'n hasiantaethau partner i gefnogi plant, mae'n bosibl mai chi fydd y cyntaf i adnabod pryderon ynglŷn â chamymddwyn. Mae gan yr awdurdod lleol bolisi chwythu'r chwiban mewn lle er mwyn eich annog a'ch galluogi chi i godi pryderon difrifol. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn darparu diogelwch cyfreithiol i bobl sy'n codi materion o fewn budd y cyhoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn ymroddedig i'r safonau uchaf o onestrwydd ac atebolrwydd ac mae'n ddarostyngedig i ddyletswydd gonestrwydd dan y Rheoliadau Maethu. Cydnabyddwn ei bod yn benderfyniad anodd codi pryderon ac y gallai fod yn brofiad dychrynllyd. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn bodoli i'ch cefnogi chi i godi unrhyw bryderon sydd er budd y cyhoedd.

Ni fydd yr awdurdod lleol yn caniatáu unrhyw aflonyddwch neu erledigaeth tuag atoch chi a byddwn yn gweithredu i'ch diogelu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys atal gweithdrefnau diogelu, adolygiad blynyddol neu derfynu.

**Am bwy a beth y gallaf chwythu'r chwiban?**

Gallwch godi eich pryderon difrifol am unrhyw agwedd ar ddarpariaeth y gwasanaeth neu ymddygiad swyddogion neu Aelodau'r Cyngor neu eraill sy'n gweithredu ar ran y Cyngor. Mae'n bosibl bod eich pryderon yn gysylltiedig â rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd neu sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys cam-drin rhywiol, corfforol

neu emosiynol, neu rywbeth sy'n rhoi iechyd a diogelwch unigolyn mewn perygl. Bydd hefyd yn cynnwys ymgais i guddio materion o'r fath.

**Sut ydw i'n codi pryderon?**

Yn gyntaf, dylech godi pryderon gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a/neu ei reolwr llinell (Gweithiwr Cymdeithasol Uwch yn y tîm maethu). Fodd bynnag, efallai eich bod yn teimlo bod eich pryderon mor ddifrifol neu sensitif nes y dylech eu codi gyda Phrif Swyddog, er enghraifft Cyfarwyddwr, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro, neu'r Prif Archwiliwr Mewnol. Cewch geisio cefnogaeth i godi pryderon gan Ofalwr Cyswllt neu Fostering Network, sy'n gallu codi pryderon ar eich rhan.

Gellir ystyried pryderon a fynegir yn ddienw yn ôl penderfyniad y Cyngor, ond maent yn llai pwerus o lawer. Mae'n well codi eich pryderon yn ysgrifenedig ond cewch, yn yr un modd, fynegi eich pryderon ar lafar a chael rhywun i gofnodi manylion y rhain i chi. Er na fydd disgwyl i chi brofi gwirionedd unrhyw honiad a wnewch, bydd angen i chi arddangos seiliau digonol dros eich pryderon.

Cewch geisio cyngor annibynnol, am ddim, cyfrinachol mewn perthynas â "chwythu'r chwiban" gan y sefydliad elusennol, Public Concern at Work. Ffoniwch 02074046609 neu anfonwch e-bost at helpline@pcaw.co.uk neu whistle@pcaw.co.uk

**A yw cyfrinachedd fy hunaniaeth yn cael ei gynnal?**

Bydd yr awdurdod lleol yn gwneud ei orau i ddiogelu eich hunaniaeth pe dymunech hynny. Fodd bynnag, ceir achosion lle gall y broses ymchwilio ddatgelu eich hunaniaeth neu bydd gofyn i chi ddarparu datganiad a chyflwyno tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblu. Bydd yr awdurdod lleol yn trefnu i chi gael cyngor ynglŷn â'r weithdrefn os bydd angen tystiolaeth. Os na ellir osgoi datgelu eich hunaniaeth, yna bydd y Cyngor yn eich cefnogi chi.

**Beth sy'n digwydd os bydd fy mhryderon yn ddi-sail?**

Os ydych yn codi pryderon er budd y cyhoedd, ond fe'u canfyddir yn ddi-sail, ni fydd unrhyw gamau gweithredu yn eich erbyn. Os, fodd bynnag, ydych yn gwneud honiad maleisus neu flinderus, mae'n debygol y bydd eich perthynas barhaus gyda'r awdurdod lleol yn cael ei heffeithio.

**Beth sy'n digwydd pan gaiff pryderon eu codi?**

Bydd y camau gweithredu a gymerir gan yr awdurdod lleol yn dibynnu ar natur y pryderon a godir. Gellir eu hymchwilio'n fewnol gan reolwyr, archwiliad mewnol; eu cyfeirio at yr Heddlu; ffurfio testun ymholiad annibynnol.

Gwneir ymholiadau cychwynnol i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol, ac, os felly, pa ffurf a ddylid ei ddefnyddio. Bydd pryderon neu honiadau sy'n berthnasol i gwmpas gweithdrefnau penodol (er enghraifft, diogelu plant) fel arfer yn cael eu cyfeirio i'w hystyried dan y gweithdrefnau hynny. Gellir datrys rhai pryderon drwy gamau gweithredu cytunedig heb yr angen am ymchwiliad. Bydd bob honiad o natur ddifrifol yn cael eu hadrodd yn syth i'r Swyddog Monitro.

Cyn pen deg diwrnod gwaith, bydd y swyddog y codoch eich pryderon gydag ef (y Swyddog Cyswllt) yn ysgrifennu atoch yn:

- cydnabod bod eich pryderon wedi dod i law;
- nodi'r cynlluniau i fynd i'r afael â'ch pryderon;
- dweud wrthoch a oes unrhyw ymholiadau cychwynnol wedi'u gwneud;
- dweud wrthoch a fydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal ac os nad oes, esbonio pam.

Gellir cael amgylchiadau lle na fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chi er mwyn cydymffurfio â dyletswydd ffydd neu i gydymffurfio â dyletswyddau statudol.

Bydd nifer ac amlder y cyswllt rhyngoch chithau, y Swyddog Cyswllt a/neu'r swyddogion hynny sy'n ymchwilio i'ch pryderon yn dibynnu ar natur y pryderon a godwyd, yr anawsterau posibl ynghlwm ac eglurdeb ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae gennych hawl i gael cwmni cynrychiolydd o Fostering Network neu Ofalwr Cyswllt pan fyddwch yn cwrdd ag unrhyw swyddog sy'n ymchwilio i'ch pryderon.

Yn unol â chyfyngiadau cyfreithiol, bydd y Swyddog Cyswllt yn eich hysbysu o ganlyniad unrhyw ymchwiliad cyn pen 10 diwrnod o'i derfyniad.

**Beth ddylech chi ei wneud os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb i'ch pryderon?**

Gobaith yr awdurdod lleol yw y byddwch yn fodlon gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch pryderon, ond mewn achos pan nad ydych yn fodlon, yna mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Monitro (os nad yw hwnnw wedi bod ynghlwm ag ymdrin â'ch pryder yn flaenorol). Mae'r Swyddog Monitro yn cadw cofnod pryderon a'u canlyniadau. **Os ydych yn mynd â'ch cwyn y tu hwnt i'r Cyngor, bydd angen i chi sicrhau nad ydych yn torri dyletswydd cyfrinachedd.** Argymhellir y cysylltiadau posibl isod:

- Public Concern at Work Ffôn 02074046609 neu e-bost helpline@pcaw.co.uk neu whistle@pcaw.co.uk;
- The Fostering Network: Fosterline Wales 0800 316 7664
- Heddlu De Cymru, ffôn 01656 655555 neu e-bost headquarters@south-wales.pnn.police.uk;
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ffôn 0845 3450055 neu e-bost hse.infoline@connaught.plc.uk;

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ffôn 01656 641150 neu e-bost ask@ombudsman-wales.org.uk.

# ADRAN 21

## DIOGELU

**Polisi Diogelu**

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi diogelu mewn lle sy'n amlinellu dyletswyddau'r cyngor o ran sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle i sicrhau bod plant ac oedolion yn byw eu bywydau yn rhydd rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Nid cyfrifoldeb un unigolyn yw penderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd ai peidio, ond mae gan bawb gyfrifoldeb i weithredu os oes ganddynt bryderon.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod pawb yn gyfrifol am hyrwyddo diogelwch a lles plant ac oedolion. Mae'n hanfodol eich bod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl camdriniaeth ac esgeulustod a'ch bod yn glir am yr hyn y dylech ei wneud os oes gennych unrhyw bryderon. Am y rheswm hwn, mae angen i ofalwyr maeth gwblhau'r hyfforddiant diogelu plant ffurfiol, hanfodol hwn.

**Cydnabod a chodi pryderon am oedolyn neu blentyn lle drwgdybir bod camdriniaeth neu esgeulustod.**

Gall pryderon posibl ynglŷn â phlentyn neu oedolyn ddod i'ch sylw yn y ffyrdd canlynol:

- Gall rhywun ddweud wrthoch chi.
- Gall rhywun ddweud rhywbeth sy'n eich poeni.
- Gall trydydd parti leisio pryderon.
- Gallwch weld rhywbeth - digwyddiad neu anaf neu arwydd arall.

Fel gofalwr maeth, mae'n bosibl y daw pryderon i'ch sylw am blentyn yr ydych wedi gofalu amdano yn y gorffennol ac sydd bellach yn oedolyn.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi weithredu ar unwaith i amddiffyn/diogelu oedolyn neu blentyn mewn perygl, gan gynnwys

cysylltu â'r gwasanaethau brys (gall hyn gynnwys yr heddlu a'r tîm dyletswydd argyfwng). Os nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'n bosibl y bydd angen i chi roi gwybod i aelod priodol o staff neu atgyfeirio at y gwasanaeth priodol.

Mae angen atgyfeirio risgiau posibl ynglyn â phlant nad ydych wedi'u lleoli gyda chi at y Tîm MASH (Hyb Diogelu Amlasiantaethol) ar 01656 642320.

**Tîm Dyletswydd Argyfwng**

- **Ffôn: (01443) 743665**

Mae angen atgyfeirio materion mewn perthynas â risgiau posibl i oedolion at y Tîm Diogelu Oedolion ar 01656 642477.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn trafod unrhyw bryderon, gan gynnwys y rheiny yr ydych wedi'u hatgyfeirio neu'n bwriadu eu hatgyfeirio, gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu roi gwybod i weithiwr maethu ar ddyletswydd os nad ydyw ar gael.

Lle mae gennych bryderon ynglŷn â phlentyn sydd wedi'i leoli yn eich gofal, mae angen tynnu hyn at sylw gweithiwr cymdeithasol neilltuol y plentyn neu'r gweithiwr ar ddyletswydd i'r tîm yn ogystal â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu, yn ei absenoldeb, y gweithiwr maethu ar ddyletswydd. Bydd gan bob un plentyn a roddir yn eich gofal gytundeb lleoliad gofal maeth unigol a fydd yn cynnwys manylion cyswllt gweithiwr cymdeithasol neilltuol y plentyn a rheolwr ei dîm i alluogi hyn.

Mae'n bwysig bod yn agored ac onest gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â'ch rôl fel gofalwr maeth a'i bod yn ofynnol i chi rannu gwybodaeth gyda'u gweithiwr cymdeithasol er mwyn eu diogelu. Bydd canllawiau maethu'r plant yn gallu cynorthwyo gyda hyn.

**Cyfrinachedd**

Fel rheol bydd rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd yn cael ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd:

- Pan mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef, neu mewn risg o ddioddef, niwed sylweddol;
- Pan mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod oedolyn yn dioddef, neu mewn risg o ddioddef, niwed difrifol;
- I atal niwed sylweddol i blentyn/unigolyn ifanc neu niwed difrifol i oedolyn, gan gynnwys drwy atal, canfod ac erlyn trosedd difrifol.

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw amheuaeth, cewch geisio cyngor ac arweiniad eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol neu, yn ei absenoldeb, y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd.

Caiff plant eu rhoi yng ngofal gofalwyr maeth am sawl rheswm, os bydd plentyn yn cael ei leoli gyda chi oherwydd ei fod wedi dioddef camdriniaeth, byddwn yn rhoi'r wybodaeth i chi ynglŷn â natur y gamdriniaeth a'r effaith y gall hyn fod wedi'i chael ar y plentyn, ei anghenion a'i ymddygiad. Bydd cyfnodau lle nad oes gan yr awdurdod lleol lawer o wybodaeth ynglŷn â phlentyn sydd angen gofal, megis teulu newydd yn dod i'r ardal sydd angen cefnogaeth. Weithiau, bydd plant yn dechrau siarad am y gamdriniaeth maent wedi'u dioddef unwaith maent mewn lleoliad gofal maeth ac yn teimlo'n ddiogel. Os dyma'r achos, mae'n bwysig dilyn y canllaw yn yr adran hon fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i amddiffyn y plentyn yn briodol.

**Staff yr Awdurdod Lleol**

Mae aelodau o staff yn ddarostyngedig i archwiliad cyn-cyflogaeth sy'n cynnwys prawf adnabod, geirdaon, cymwysterau, gwiriadau iechyd a DBS. Yn ogystal, mae canllaw statudol wedi'i sefydlu ynglŷn â'r gwiriadau sydd eu hangen ar gyfer gwirfoddolwyr, contractwyr a staff asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau i'r awdurdod lleol. Mae

Gofalwyr Maeth yn cael Gwiriadau DBS ac Iechyd rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau Maethu. Mae'n ofynnol i staff yr Awdurdod Lleol a gofalwyr maeth ymgymryd â hyfforddiant diogelu a chadw ar ei flaen drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae gan yr Awdurdod Lleol Bolisi Chwythu'r Chwiban yn ei le sy'n darparu arweiniad i staff adrodd pryderon ynglŷn â chyflogeion yr awdurdod lleol neu'r ffordd mae'r cyngor yn gweithredu.

Dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, mae dyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio gwybodaeth at y DBS os caiff unigolyn ei wahardd neu ei dynnu rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion (o ran diffiniad cyfreithiol Gweithgaredd Rheoledig) oherwydd eu bod yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyfeirio gwybodaeth at y DBS fel darparwr gweithgaredd rheoledig ac fel awdurdod lleol. Yn ogystal, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i atgyfeirio gwybodaeth benodol ynglŷn ag ymddygiad cyflogeion a materion yn ymwneud â diogelu at gyrff rheoleiddio proffesiynol, megis Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Bydd gan yr holl ysgolion eu polisïau diogelu eu hunain yn nodi aelodau allweddol o staff y dylid adrodd pryderon gyda nhw a sut bydd y rhain yn cael eu cofnodi.

**Cyfryngau**

Ni ddylai unrhyw aelod o staff neu Ofalwr Maeth gysylltu â'r wasg yn uniongyrchol na rhoi gwybodaeth ar y rhyngrwyd (gweler cyfryngau cymdeithasol hefyd). Mae gan Gyflogeion a Gofalwyr Maeth gyfrifoldeb i ymddwyn yn eu bywydau preifat mewn modd nad yw'n cyfaddawdu eu safle yn y gweithle neu'n cwestiynu eu haddasrwydd i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn risg.

**Diffiniadau**

**Plentyn mewn risg** yw unigolyn dan 18 oed sy'n:

(a) profi neu mewn risg o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; ac

(b) mae ganddo anghenion gofal a chefnogi (boed yr awdurdod yn bodloni unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

"Mae diogelu yn golygu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rheiny o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon."
Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar-lein yn unig ar hyn o bryd. Defnyddiwch y ddolen isod i lawrlwytho'r Ap Safeguarding ar eich ffôn symudol:
http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/index.html

Mae **camdriniaeth gorfforol** yn golygu brifo plentyn neu unigolyn ifanc yn fwriadol.

Mae'n cynnwys: ataliaeth gorfforol; megis clymu i wely, cloi mewn ystafell, achosi llosgiadau, torri, slapio, dyrnu, cicio, brathu neu grogi, trywanu neu saethu, ymatal rhag bwydo neu roi sylw meddygol, rhoi cyffuriau, atal cwsg, achosi poen, ysgwyd neu daro babanod, dweud celwydd am salwch neu achosi salwch.

**Camdriniaeth emosiynol** yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus. Weithiau, gelwir hyn yn gamdriniaeth seicolegol a gall niweidio iechyd emosiynol a datblygiad plentyn yn ddifrifol.

Gall camdriniaeth emosiynol gynnwys ceisio dychryn neu fychanu plentyn yn fwriadol neu ei ynysu neu anwybyddu. Yn aml, mae plant sy'n cael eu cam-drin yn emosiynol yn dioddef math arall o gamdriniaeth neu esgeulustod ar yr un pryd.

Mae camdriniaeth emosiynol yn cynnwys:

Bychanu neu feirniadu plentyn yn barhaus.
Bygwth, gweiddi ar blentyn neu ei alw'n enwau.
Gwneud y plentyn yn destun sbort, neu ddefnyddio gwawd i frifo plentyn.
Beio, gwneud bwch dihangol o blentyn.
Gwneud i'r plentyn berfformio gweithredoedd diraddiol.
Peidio â chydnabod hunaniaeth plentyn.
Ceisio rheoli bywyd plentyn drwy ei wthio'n ormodol neu beidio â chydnabod ei gyfyngiadau.
Amlygu plentyn i ddigwyddiadau neu ryngweithiadau a all beri pryder, megis trais yn y cartref neu gymryd cyffuriau.
Methu â hyrwyddo datblygiad cymdeithasol plentyn.
Peidio â chaniatáu plentyn i gael cyfeillion.
Anwybyddu plentyn yn barhaus.
Bod yn absennol.
Defnyddio plentyn.
Byth yn dweud pethau caredig, mynegi teimladau cadarnhaol neu longyfarch plentyn ar lwyddiannau.
Byth yn dangos unrhyw emosiynau wrth ryngweithio gyda phlentyn, a elwir hefyd yn esgeulustod emosiynol.

**Camdriniaeth Seicolegol**
Bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin ar lafar neu hiliol, ynysu neu dynnu oddi wrth wasanaethau neu rwydweithiau cefnogi, tystio eraill yn cael eu cam-drin.

**Esgeulustod**
Yn golygu methu â bodloni anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at nam yn lles yr unigolyn (er enghraifft, nam ar iechyd yr unigolyn neu yn achos plentyn, nam ar ei ddatblygiad).
(Diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

**Mae camdriniaeth drwy gyswllt yn cynnwys:**

Gweithgareddau cyffwrdd lle mae'r sawl sy'n cam-drin yn gwneud cyswllt corfforol gyda phlentyn, gan gynnwys treiddiad.

Mae'n cynnwys:
Cyffwrdd unrhyw ran o'r corff yn rhywiol, boed y plentyn yn gwisgo dillad ai peidio.
Treisio neu dreiddiad drwy roi gwrthrych neu ran o'r corff yng ngheg, gwain neu anws plentyn.
Gorfodi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol.
Gwneud i blentyn ddadwisgo, cyffwrdd organau cenhedlu rhywun arall neu fastyrbio.

**Mae camdriniaeth heb gyswllt yn cynnwys:** Gweithgareddau heb gyffwrdd, megis meithrin perthynas, ecsbloetio, darbwyllo plant i berfformio gweithredoedd rhywiol dros y rhyngrwyd a fflachio.
Mae'n cynnwys:
Annog plentyn i wylio gweithredoedd rhywiol neu wrando arnynt.
Peidio â chymryd mesurau priodol i atal plentyn rhag cael ei amlygu i weithgareddau rhywiol gan eraill.
Cwrdd â phlentyn ar ôl meithrin perthynas i bwrpas rhywiol gyda'r bwriad o'i gam-drin.
Cam-drin ar-lein gan gynnwys gwneud delweddau cam-drin plant, edrych arnynt neu eu dosbarthu.
Caniatáu rhywun arall i wneud delweddau cam-drin plant, edrych arnynt neu eu dosbarthu.
Dangos pornograffi i blentyn.
Amlygu plentyn yn rhywiol am arian, pŵer neu statws (camfanteisio ar blant).
(Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) -**
Yn ffurf o gam-drin rhywiol a all gynnwys rhyw neu unrhyw ffurf ar weithgaredd rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall mewn perthynas â phlant.

Yn cynnwys rhyw ffurf ar gyfnewid. Gall y cyfnewidiad gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl; megis tynnu'n ôl trais neu fygythiadau i gam-drin rhywun arall.

Gellir cael hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ychwanegol i'r plentyn y camfanteisir arno neu yn ei le.
Mae'n bosibl nad yw plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewidiad. Mae'n bosibl bod plant yn teimlo eu bod wedi rhoi caniatâd.

Gall unrhyw blentyn ddioddef cam-fantais rhywiol, waeth beth yw ei rywedd, ethnigrwydd neu rywioldeb.

Gellir camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn sawl gwahanol ffordd. Mae'r ffordd y mae plant yn profi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn amrywiol a gall fod yn rhan o ddarlun cymhleth o faterion diogelu cysylltiedig. Mae camfanteisio ar-lein ac oddi ar-lein yn aml yn gorgyffwrdd.

Daw'r rheiny sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant o ystod eang o gefndiroedd ethnig. Gwrywaidd ydynt yn bennaf ond mae menywod yn troseddu hefyd. Maent yn gweithredu fel unigolion, mewn grwpiau ac mewn gangiau a gall troseddwyr fod yn aelodau'r teulu.

Mae angen ennill dealltwriaeth o gamdriniaeth cyfoed i gyfoed yng nghyd-destun achosion penodol ac mae angen cefnogi plant sy'n cael eu cam-drin. Mae Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ynglyn â phlant lle mae pryderon ymddygiad rhywiol niweidiol ar gael i'w ddefnyddio law yn llaw â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Prin iawn y bydd plant yn datgelu achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae adnabod achosion o'r fath yn dibynnu'n bennaf ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr ac arbenigwyr. Dylai pawb sy'n

gweithio gyda phlant fod yn effro i'r arwyddion bod plentyn yn cael ei amlygu'n rhywiol ac yn deall eu dyletswydd i adrodd plentyn sydd mewn risg.

**Gellir diffinio ymddygiad rhywiol niweidiol fel a ganlyn:**
Ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n anaddas i'w cam datblygiad, yn gallu bod yn niweidiol i'w hunain neu eraill, neu'n ymosodol tuag at blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn arall. Mae'r diffiniad hwn o ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys ymddygiadau drwy gyswllt a digyswllt (meithrin perthynas, arddangosiaeth, sbecian ac anfon negeseuon o natur rywiol neu recordio darluniau o weithredoedd rhywiol gyda ffôn clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol).

**Cam-drin ariannol** (heb ei gynnwys yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan) Gall camdriniaeth ariannol gynnwys camddefnyddio taliad uniongyrchol i'r Plentyn, Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae'n debygol o fod yn gysylltiedig gydag un neu fwy o'r categorïau cam-drin eraill.

Yn cynnwys:

- Eich arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn;
- Cael eich amddifadu drwy dwyll;
- Cael eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
- Eich arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio;

(Diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

Mae **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod** yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (diwygiwyd gan adrannau 70-75, Deddf Troseddu Difrifol 2015). Mae'n ffurf ar gam-drin plant a thrais yn erbyn merched. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cynnwys yr holl weithdrefnau sy'n ymwneud â gwaredu organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl am resymau nad ydynt yn rhesymau meddygol. Mae

dyletswydd adrodd hanfodol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i holl arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig ac athrawon yng Nghymru a Lloegr adrodd i'r heddlu achosion 'hysbys' o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith unigolion dan 18 oed y maen nhw'n eu hadnabod yn eu gwaith proffesiynol.

**Niwed sylweddol**

Fel rhan o Ddeddf Plant 1989 cyflwynwyd y cysyniad o niwed sylweddol fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrraeth orfodol ym mywyd teuluol er mwyn amddiffyn plant. Diffinnir niwed sylweddol yn y ddeddfwriaeth fel cam-drin neu amharu ar iechyd a datblygiad. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol dan adran 47 Deddf Plant 1989 i wneud ymholiadau, neu achosi ymholiadau, lle mae ganddynt achos rhesymol i ddrwgdybio bod plentyn sy'n byw yn eu hardal, neu a ganfyddir yn eu hardal, yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Nid oes meini prawf cadarn y gellir dibynnu arno wrth feirniadu beth sy'n cyfrif fel niwed sylweddol. Gall un digwyddiad difrifol, megis achos o gam-drin rhywiol neu ymosodiad treisgar, achosi niwed sylweddol i blentyn. Fodd bynnag, mae niwed sylweddol yn digwydd yn amlach o ganlyniad i gyfres o ddigwyddiadau dros gyfnod hir, sy'n amharu ar ddatblygiad corfforol a seicolegol plentyn, neu'n ei newid neu niweidio. Mae'r niwed sylweddol o ganlyniad i effaith gyrydol camdriniaeth hirdymor yn debygol o gael effaith ddifrifol ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol.

**Trais domestig a chamdriniaeth**

Diffiniad traws-lywodraethol trais domestig a chamdriniaeth yw: unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rheiny sy'n 16 oed neu hŷn sy'n bartneriaid rhywiol, neu wedi bod yn bartneriaid rhywiol, neu aelodau'r teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 17 hefyd fod yn ddioddefwyr trais domestig a chamdriniaeth.

**Ymddygiad rheoli**

Mae ymddygiad rheoli yn ystod o weithredoedd sydd wedi'u dylunio i wneud unigolyn yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu rhag ffynonellau cefnogaeth, amlygu ei adnoddau a galluoedd ar gyfer mantais bersonol, ei amddifadu o'r hyn sydd ei angen i gael annibyniaeth, atal a dianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

**Ymddygiad gorfodi**

Ymddygiad gorfodi yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr. Daeth trosedd ymddygiad gorfodi neu reoli i rym fis Rhagfyr 2015. Y gosb yw 5 mlynedd o garchar ar y mwyaf, dirwy neu'r ddau. Gall dioddefwyr sy'n cael profiad o ymddygiad gorfodi a rheoli nad yw'n cynnwys trais corfforol difrifol, ond sy'n cyfrif fel cam-driniaeth seicolegol ac emosiynol eithafol ddod â'r sawl sydd wedi cyflawni'r drosedd o flaen ei well.

**Trosedd Gasineb**

Digwyddiad o Drosedd Gasineb yw unrhyw ddigwyddiad lle mae'r dioddefwr, neu unrhyw un arall, yn credu bod y digwyddiad yn seiliedig ar ragfarn rhywun tuag ato oherwydd ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oherwydd ei fod yn drawsrywedd. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â Throsedd Gasineb (gan gynnwys sut i adrodd achos o drosedd gasineb) ar wefan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Trosedd Gasineb Pen-y-bont ar Ogwr

**Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl**

Caethwasiaeth Fodern yw'r term a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig ac mae wedi'i ddiffinio yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Ddeddf yn categoreiddio troseddau Caethwasiaeth, Caethwasanaeth a Llafur Gorfodol neu Gymelledig a Masnachu Pobl. Mae'r troseddau hyn yn cynnwys dal rhywun at ddibenion caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu gymhellol, neu hwyluso taith

unigolyn gyda'r bwriad o ymelwa arno ychydig wedyn. Er bod masnachu pobl yn aml yn cynnwys elfen o groesi ffiniau rhyngwladol, mae'n bosibl hefyd bod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern yn eich gwlad eich hun. Mae'n bosibl bod yn ddioddefwr hyd yn oed os ydych wedi cytuno i symud. **Ni all plant roi caniatâd i gael eu hamlygu felly nid oes angen i'r elfen reolaeth neu dwyll fod yn bresennol i brofi trosedd.**

**Amddiffyn Oedolion**

**Oedolyn mewn perygl** yw unigolyn:
(a) sy'n profi neu mewn risg o brofi camdriniaeth neu esgeulustod;
(b) mae ganddo anghenion gofal a chefnogi (boed yr awdurdod yn bodloni unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r risg o gamdriniaeth.

Mae diogelu oedolion yn cynnwys:

- Amddiffyn eu hawliau i fyw mewn diogelwch, yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Pobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i atal y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod ac i'w hatal nhw rhag digwydd.
- Sicrhau bod lles pobl yn cael ei hyrwyddo, gan gymryd i ystyriaeth eu safbwyntiau, dymuniadau, teimladau a chredoau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn manylu categorïau cam-drin sy'n gorfforol, rhywiol, seicolegol / emosiynol, esgeulustod ac Ariannol

**Dangosyddion camdriniaeth**

Gweler isod rhestr anghyflawn o enghreifftiau o bob categori o gam-drin ac esgeulustod:

**Cam-drin corfforol**
Taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal heb fod angen, neu gosbau amhriodol.

*Dangosyddion:*
- Dim eglurhad am anafiadau neu anghysondeb wrth adrodd beth ddigwyddodd
- Anafiadau yn anghyson gyda ffordd o fyw unigolyn
- Cleisiau, toriadau, gwaldiau, llosgiadau a/neu farciau ar y corff neu golli gwallt mewn clystyrau
- Anafiadau cyson
- Cwympiadau anesboniadwy
- Ymddygiad tawelach neu wahanol ym mhresenoldeb unigolyn penodol
- Arwyddion o ddiffyg maeth
- Methu â cheisio triniaeth feddygol neu newid meddyg teulu yn aml

**Cam-drin rhywiol**
Trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn wedi cytuno iddynt, neu nad oedd yn gallu cytuno iddynt, a/neu a roddwyd pwysau arno i gytuno iddynt.

*Dangosyddion:*
- Afiechydon newydd a drosglwyddir yn rhywiol
- Anhawster newydd wrth eistedd neu gerdded
- Anaf pelfig
- Cleisiau ar y tu mewn i'r cluniau neu o gwmpas ardal yr organau cenhedlu
- Poen, gwaedu neu gosi poenus yn yr anws neu'r organau cenhedlu
- Dillad isaf â gwaed arnynt, wedi rhwygo neu wedi'u staenio
- Aflonyddwch eithafol
- Tynnu'n ôl rhag rhyngweithiadau cymdeithasol
- Pyliau o banig, neu'n dangos symptomau newydd o anhwylder straen wedi trawma (PTSD)

- Ymddygiad amhriodol, ymosodol neu rywiol anarferol
- Ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad

**Cam-drin seicolegol**

Bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin ar lafar neu hiliol, ynysu neu dynnu oddi wrth wasanaethau neu rwydweithiau cefnogi (mae rheolaeth drwy orfodi yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu, brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr).

**Mathau o gam-drin seicolegol neu emosiynol**

- Ynysiad cymdeithasol gorfodol - atal rhywun rhag cael mynediad at wasanaethau, cyfleoedd addysgol a chymdeithasol a gweld cyfeillion
- Tynnu cymhorthion symudedd neu gyfathrebu oddi ar unigolyn neu adael rhywun ar ei ben ei hun yn fwriadol pan mae angen cymorth
- Atal rhywun rhag bodloni ei anghenion crefyddol a diwylliannol
- Atal mynegiant o ddewis a barn
- Methu â pharchu preifatrwydd
- Atal ysgogiadau, galwedigaeth neu weithgareddau ystyriol
- Brawychu, gorfodi, aflonyddu, defnydd o fygythiadau, bychanu, bwlio, rhegi neu gam-drin ar lafar gan gynnwys seiberfwlio
- Cyfarch rhywun mewn modd nawddoglyd neu fabanaidd
- Bygythiadau o niwed neu adael

*Dangosyddion*

- Tawelwch llwyr pan mae rhywun penodol yn bresennol
- Cyflwr seicolegol unigolyn yn cilio neu newid
- Insomnia
- Hunan-barch isel
- Ymddygiad anghydweithredol ac ymosodol
- Newid mewn awydd bwyd, colli/magu pwysau
- Arwyddion o drallod: dagreuol, blin

- Honiadau ymddangosiadol ffug, gan rywun sydd ynghlwm â'r unigolyn, i ddenu triniaeth ddianghenraid

**Esgeulustod**

Methu â chael mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methu â rhoi meddyginiaeth ragnodedig, methu â chynorthwyo gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, lloches, dillad; esgeulustod emosiynol. Gall hunan-esgeulustod ddigwydd o ganlyniad i ddewis ffordd o fyw yr unigolyn, neu gall yr unigolyn fod yn isel ei ysbryd, fod ag iechyd meddwl gwael, problemau gwybyddol (cof neu wneud penderfyniadau) neu fethu â gofalu amdano'i hun yn gorfforol.

*Dangosyddion*

- Amgylchedd gwael - budr neu anlanwaith
- Cyflwr corfforol a/neu hylendid personol gwael
- Briwiau pwyso neu wlserau
- Diffyg maeth neu golli pwysau yn anesboniadwy
- Anafiadau a phroblemau meddygol heb eu trin
- Cyswllt anghyson neu amharod gyda sefydliadau meddygol a gofal cymdeithasol
- Casgliad o feddyginiaethau heb eu cymryd
- Methiant annodweddiadol i ymgysylltu â rhyngweithiadau cymdeithasol
- Dillad anaddas neu annigonol

**Cam-drin ariannol**

Mewn perthynas â phobl sydd ag anghenion gofal a chefnogi, ac mae'n cynnwys:

- newid annisgwyl yn eu hewyllys.
- gwerthu'r tŷ neu ei drosglwyddo'n gyflym
- gweithgaredd anarferol mewn cyfrif banc
- cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn sydyn
- nid yw llofnod yn ymdebygu i lofnod arferol unigolyn

- amharodrwydd neu orbryder gan yr unigolyn wrth drafod ei faterion ariannol
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall
- diddordeb sydyn gan berthynas neu drydydd parti arall yn lles yr unigolyn.
- biliau heb eu talu
- cwynion bod eiddo personol ar goll
- dirywiad yn ymddangosiad personol a all ddynodi bod gofynion diet a phersonol yn cael eu hanwybyddu
- ynysiad bwriadol oddi wrth cyfeillion a theulu a rhoi rheolaeth lwyr i unigolyn arall i wneud penderfyniadau;

Gall unrhyw un o'r ffurfiau cam-drin uchod fod wedi'u hysgogi gan nodweddion penodol y dioddefwr. Gall hyn fod yn achos o drais gasineb. Mae trais gasineb yn cynnwys trais y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall yn ystyried ei bod wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd a chredo, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd gwirioneddol neu ganfyddedig unigolyn.

**Uned Diogelwch Cyhoeddus Heddlu De Cymru**

Mae'r uned hon yn cynorthwyo swyddogion lleol gyda rhai o'r ymchwiliadau troseddol mwyaf sensitif, gan roi cefnogaeth ac arweiniad i achosion megis amddiffyn plant ac oedolion, trais yn y cartref, troseddau rhywiol, pobl ar goll ac iechyd meddwl.

Mae'r adran hefyd yn cymryd rhan yn MAPPA (Trefniadau Diogelwch Cyhoeddus Amlasiantaethol) gyda'r gwasanaeth prawf i reoli'n effeithiol risgiau a achosir gan droseddwyr treisgar a rhywiol sy'n byw yn ardal yr heddlu.

Mae'r uned yn gweithio â phartneriaid statudol ac asiantaethau'r trydydd sector am gyfnod hir ar ôl cau achos yn y llys i warchod lles y dioddefwyr a'r cyhoedd.

Gellir cysylltu â Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr ac Uned Diogelwch Cyhoeddus Bro Morgannwg ar 01656 305821.

**Byrddau Iechyd Lleol**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos ag asiantaethau eraill megis yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg ac mae ganddo'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth yn briodol a diogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl. Mae rhai o'r sefyllfaoedd yr effeithir ar blant ac oedolion mewn perygl ac sy'n gofyn ymateb diogelu yn cynnwys cam-drin ac esgeulustod, camfanteisio ar blant yn rhywiol, trais yn y cartref, anffurfio organau cenhedlu benywod, Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Deddf Galluoedd Meddyliol, masnachu pobl a radicaleiddio.

**Egwyddorion Allweddol**

Dylai trefniadau diogelu effeithiol ym mhob awdurdod lleol fod wedi'u seilio ar ddwy egwyddor allweddol:

- Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb

Er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, mae'n rhaid i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan yn llawn, yn unigol ac mewn cydweithrediad; a

- Dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar blant:

Er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o ganlyniadau personol i'r plentyn a beth sy'n bwysig iddo. Dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'r dull gweithredu a dylai budd gorau plant fod yn hollbwysig drwy'r amser.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn gwarantu'r hawl i bob plentyn gael tyfu yn iach, hapus a diogel. Mae hyn yn cynnwys cael ei amddiffyn rhag niwed a chael y gefnogaeth briodol i adfer wedi camdriniaeth. Dylai ymarferwyr ac arbenigwyr fabwysiadu Dull Gweithredu Hawliau'r Plentyn yn unol â'r ddyletswydd o roi ystyriaeth ddyledus i'r (UNCRC) a dilyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Rhaid i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb ar y cyd i faterion diogelu fel y nodwyd yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Cymru. Mae Dyletswydd statudol ar bartneriaid perthnasol i Adrodd Plant sydd mewn Risg dan Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Crynodeb Diogelu**

Mae rhannu gwybodaeth yn rhan ganolog o arfer diogelu da. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill. Pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol ac effeithiol, gall penderfyniadau ynglŷn â sut i ymateb fod yn anwybodus a gall hyn arwain at arfer diogelu gwael a gadael plant mewn perygl o niwed.

Gwyddom fod plant sydd â nam ar y synhwyrau a phlant anabl mewn risg uwch o gael eu cam-drin mewn cymhariaeth â'u cyfoedion nad

ydynt yn anabl / sydd heb nam ar y synhwyrau. Maent hefyd yn fwy tebygol o dderbyn yr amddiffyniad a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt pan maent wedi'u cam-drin. Dylai ymarferwyr ac arbenigwyr gydnabod yn benodol bregusrwydd uwch plant sydd â nam ar y synhwyrau a phlant anabl i gam-driniaeth ac esgeulustod, yn ogystal â'r rhwystrau y gallant eu hwynebu, yn arbennig mewn perthynas â chyfathrebu a darparu unrhyw ddulliau diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w hamddiffyn. (Wedi'i gymryd o Ganllaw newydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant WPP)

# ADRAN 22

# CWYNION A HONIADAU YN ERBYN GOFALWYR MAETH

**Cwynion a Honiadau yn erbyn Gofalwyr Maeth**

Gall gofalwyr maeth gael eu herio mewn gwahanol ffyrdd ynglŷn â'r gofal y darparant ac mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o hyn ac yn gwybod y cewch gefnogaeth drwy'r broses.

Wrth ofalu am blentyn rhywun arall yn eich cartref eich hun, y peth diwethaf y byddai gofalwr maeth yn ei ddisgwyl mae'n debyg yw honiad neu gŵyn yn ei erbyn. Fodd bynnag, mae realiti bywyd modern yn golygu y gellir gwneud honiadau yn erbyn unrhyw oedolyn mewn rôl ofalu. Mae'n hollbwysig, felly, cydnabod y posibilrwydd y gallai ddigwydd i chi ac ystyried pa gamau y gallwch chi a'ch teulu eu cymryd i wneud hyn yn llai tebygol.

Byddwch yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau chi a'ch teulu. Mae'r gallu i gydnabod arwyddion o straen a datblygu ffyrdd o ymdopi gyda hyn yn hanfodol i lesiant pob un ohonom ni. Nid yw ein goddefgarwch yn osodedig. Yn hytrach, bydd yn amrywio yn unol â nifer o ffactorau eraill yn ein bywydau. Bydd angen system gefnogaeth arnom i ymdopi yn ein bywydau - pethau sy'n ein helpu i ymlacio a chyngor a chefnogaeth gan ein teulu/cyfeillion pan fyddwn mewn cyfyng-gyngor.

Sicrhewch fod gennych yr holl wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas â phlentyn gan Wasanaethau Cymdeithasol cyn i chi gytuno ar unrhyw leoliad gofal maeth. Mae manylion o unrhyw brofiadau niweidiol yn y gorffennol, yn enwedig y rheiny o natur ymosodol, yn hanfodol. Ceisiwch y ddealltwriaeth orau bosibl o anghenion gofal y plentyn ac adnabyddwch bwysau, straeniau a risgiau gwirioneddol neu bosibl. Mae'n gyfrifoldeb ar eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol i'ch helpu chi i gyflawni hyn.

Byddwch wedi bod yn ymwybodol o fater o'r enw "Gofal Diogel". Nid yn unig mae hyn yn cynnwys cadw plant maeth yn ddiogel, ond eich hunain a'ch teulu hefyd. Drwy drafod gyda'ch teulu a'ch Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, rhaid i chi fabwysiadu Polisi Gofal mwy Diogel i gynnwys rhai arferion gofal/gwaith diogel, a fydd yn eich

amddiffyn chi i gyd. Archwilir y wybodaeth hon yn fanylach yn y Polisi Gofal mwy Diogel.

- Mae'n rhaid i ofalwyr maeth fod yn atebol: maent yn gofalu am blant pobl eraill ar ran yr awdurdod lleol.
- Yn aml, plant maeth yw'r plant mwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Mae'n bosibl y caiff gofalwyr maeth eu herio ynglŷn â'r gofal maent yn ei ddarparu.
- Mae maethu yn cynnwys bob aelod o'r aelwyd, gan gynnwys plant y gofalwyr maeth.

Mae'n ofynnol ar yr awdurdod lleol i gadw cofnodion o bob cwyn a'u canlyniadau er mwyn adolygu a gwella gwasanaethau yn barhaus. Mae hyn yn ofynnol yn y rheoliadau maethu.

**Cwynion**

Ceir adegau lle mae unigolyn sy'n gysylltiedig â'r plentyn sydd mewn lleoliad gofal maeth, megis gweithiwr asiantaeth, aelod o'r teulu neu arbenigwr sydd ynghlwm â'r achos, yn codi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth maethu, ynglŷn ag ymddygiad gofalwr maeth neu ynglŷn â'r gofal a ddarparwyd i'r plentyn. Lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn lleoliad gofal maeth yw prif bryder yr awdurdod lleol wrth ymdrin â phroblemau neu gwynion. Ymdrinnir â chwynion drwy'r weithdrefn gwynion, ac mae manylion hyn wedi'u cynnwys yn y llawlyfr hwn. Fodd bynnag, lle cyflwynir cwyn, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio mynd i'r afael â hi'n anffurfiol ar y cyfle cynharaf. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r gŵyn.

Os yw'r gŵyn yn codi pryder ynglŷn â'r gofal yn methu â bodloni'r safonau disgwyliedig mewn lleoliad gofal maeth, mae'n bosibl y bydd

ymchwiliad pellach yn ofynnol a bydd angen ymgymryd ag adolygiad blynyddol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymdrechu i sicrhau didwylledd a gonestrwydd. Fodd bynnag, ceir achlysuron lle nad yw'r awdurdod lleol yn gallu rhannu gwybodaeth gyda chi. Wedi dweud hynny, prin iawn y bydd hyn yn digwydd yn achos cwynion.

**Honiad**

Honiad yw lle codir pryder bod gofalwr maeth neu aelod o'r aelwyd wedi neu mae'n bosibl o fod wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi neu mae'n bosibl o fod wedi niweidio plentyn, cyflawni trosedd yn erbyn plentyn, neu ymddwyn mewn ffordd sy'n dynodi ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant. Ymdrinnir â honiadau drwy weithdrefnau amddiffyn plant. Yn dibynnu ar natur yr honiad, mae'n bosibl na allwn ddatgelu manylion yr hyn sydd wedi'i ddweud neu gan bwy.

Ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant, rhaid ystyried a yw plentyn/plant mewn risg uniongyrchol o niwed ac a oes angen cymryd camau amddiffyn brys. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn egluro sut dylai asiantaethau unigol gyfathrebu a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn partneriaeth er mwyn adnabod plant bregus, eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod a gwella eu canlyniadau. Dynodir y broses isod.

**Proses amddiffyn plant:**

**Atgyfeirio:** Bydd y sawl sy'n nodi'r atgyfeiriad yn yr awdurdod lleol yn cofnodi manylion cynhwysfawr ar y ffurflen briodol ac yn ceisio rhagor o wybodaeth. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu cyn gynted â phosibl os drwgdybir bod trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn. Yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad, bydd naill ai'r heddlu neu'r awdurdod lleol yn

arwain yr ymchwiliad. Lle mae tystiolaeth glir bod trosedd wedi'i chyflawni, mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol ddisgwyl canlyniad ymchwiliad yr heddlu.

**Asesiad:** Yr awdurdod lleol yn ymgymryd ag asesiad cymesur i sefydlu a yw'r plentyn mewn angen ac a oes gofyn ei amddiffyn. Mae'n bosibl y bydd angen trafodaeth strategaeth yn dilyn yr asesiad. Rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud yr asesiad weld y plentyn a siarad neu gyfathrebu â'r plentyn, i'r graddau y mae'n fodlon bod y plentyn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. Gall yr asesiad fod yn gryno iawn ac arwain yn uniongyrchol at drafodaeth/cyfarfod strategaeth a/neu asesiad gofal a chefnogaeth.

**Trafodaeth Strategaeth:** Galwad ffôn neu drafodaeth wyneb yn wyneb rhwng yr Heddlu a'r awdurdod lleol sy'n rhannu a thrafod yr holl wybodaeth a gafwyd/casglwyd a phenderfynu ar y camau gweithredu nesaf.

**Cyfarfod Strategaeth:** Trafodaeth ffurfiol i drafod a oes angen ymgymryd ag ymholiadau amddiffyn plentyn. Yn bresennol yn y cyfarfod hwn mae'r heddlu, staff yr awdurdod lleol, yr aelod o staff neu'r arbenigwr sy'n atgyfeirio, ynghyd ag aelodau eraill o staff ac arbenigwyr sy'n gallu cynorthwyo gyda'r broses gynllunio ar gyfer yr ymholiadau amddiffyn plant, os cânt eu cynnal. Gall y rhain gynnwys yr ysgol neu ymwelydd iechyd er enghraifft.

**Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 gan Wasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu:** Yn y drafodaeth/cyfarfod strategaeth, rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn ag a fydd ymholiadau amddiffyn plant adran 47 yn cael eu cynnal fel asiantaeth unigol neu ar y cyd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a'r math o gamdriniaeth. Dylid cofnodi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam ffurfiol hwn o ymholiadau mewn asesiad gofal a chefnogaeth a all ddechrau cyn cynhadledd amddiffyn plant, ond mae'n annhebygol y bydd wedi'i derfynu erbyn y bydd y gynhadledd yn cwrdd.

**Cynhadledd Achos o Amddiffyn Plant:** Mae'n bosibl y bydd cynhadledd amddiffyn plant a pharatoi a gweithredu cynllun diogelu plant yn dilyn ymholiadau amddiffyn plant adran 47. Bydd y cynllun amddiffyn plant ar sail yr asesiad craidd o anghenion y plentyn ac yn cael ei ddiweddaru ganddo, ac mae hwn yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag ymholiadau adran 47.

**Proses Amddiffyn Plant - gofalwyr maeth**

Bydd mesurau ychwanegol petai unrhyw honiad neu bryder ynglŷn â cham-drin neu gam-drin honedig mewn perthynas â gofalwr maeth, neu unrhyw aelod o aelwyd y gofalwr maeth. Rhaid i unrhyw honiad neu bryder o'r fath gael ei atgyfeirio at reolwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a maethu.

Yn yr achos hwn, ni ddylai'r ymholiadau amddiffyn plant gael eu cynnal gan unrhyw un sydd wedi bod ynghlwm ag asesu'r gofalwr maeth neu sydd â chyfrifoldebau gweithredol am leoli teuluoedd/gwasanaeth maethu yn yr ardal. Fodd bynnag, gall gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol fod yn ffynonellau gwybodaeth pwysig a gallant ddarparu cefnogaeth i'r gofalwr maeth. Gall y gweithiwr cefnogi lleoliadau gofal maeth hefyd ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r gofalwr maeth drwy gydol yr ymchwiliad. Mae'n bosib y bydd gweithiwr cefnogi o Fostering Network yn cael ei ddarparu hefyd, yn dibynnu ar ddewis y gofalwyr maeth.

**Bydd yr atgyfeiriad yn dilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi uchod gyda'r mesurau ychwanegol canlynol:**

- Bydd angen rhoi gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol am unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal yn yr aelwyd.
- Cymryd unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad bob plentyn yn yr aelwyd.

- Cymryd unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad plant y gofalwr maeth ei hun.
- Sicrhau nad oes rhagor o leoliadau gofal maeth yn cael eu gwneud yn ystod yr ymholiad amddiffyn plant.
- Galw cyfarfod strategaeth cyn gynted â phosibl, i'w gadeirio gan gynrychiolydd gwasanaethau cymdeithasol ar lefel uwch;
- Hysbysu CIW o'r holl honiadau.

**Yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth:**

- Yr uwch reolwr gwasanaethau cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant;
- Gweithiwr cymdeithasol uwch o'r tîm maethu
- Gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r uwch reolwr neu reolwr y tîm;
- Gweithiwr cymdeithasol y gofalwr maeth;
- Cynrychiolydd yr heddlu;
- 1 cynrychiolydd cyfreithiol i'r awdurdod (yn dibynnu ar natur yr honiad)
- CIW;
- Arbenigwr nyrs clinigol y plentyn sy'n derbyn gofal / plentyn a enwir neu ddynodedig arbenigwr iechyd amddiffyn;
- Asiantaethau perthnasol eraill e.e. cynrychiolydd addysg;
- Yr unigolyn sydd â manylion yr atgyfeiriad;

**<u>Bydd angen ystyried diogelwch ac anghenion yr holl blant sydd yn y lleoliad gofal maeth ar hyn o bryd ac wedi bod yn y gorffennol.</u>**

- Ystyriwch bob plentyn yn unigol a gwnewch argymhellion ynglŷn ag a ddylai'r plentyn/plant maeth aros gyda'r gofalwyr maeth yn ystod yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47. Dylid cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r plentyn bob tro:

- Cynlluniwch ddulliau diogelu ychwanegol, os yw'r plentyn am aros yn y lleoliad gofal maeth tra bod yr ymholiadau yn cael eu cynnal;
- Dylid ceisio cymeradwyaeth yr uwch reolwr os argymhellir i'r plentyn aros mewn lleoliad gofal maeth;
- Ystyriwch ddiogelwch a lles plant y gofalwr maeth ei hun ac unrhyw blant arall y daw i gyswllt rheolaidd gyda nhw;
- Ystyriwch unrhyw gyflogaeth arall neu weithgarwch gwirfoddol y gofalwr maeth, sy'n dod ag ef mewn cyswllt â phlant ac a all roi'r plentyn mewn perygl;
- Adnabyddwch yr holl blant sydd wedi'u lleoli gyda nhw yn y gorffennol ac a oes pryderon mewn perthynas â nhw ai peidio;
- Dynodwch pa wybodaeth a fydd yn cael ei rhoi i ofalwyr maeth, pa bryd a gan bwy, ynglŷn â'r honiad ac ymholiadau adran 47. Bydd cadeirydd y cyfarfod strategaeth hwn yn cadarnhau'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig i'r gofalwyr maeth.
- Adnabyddwch pwy fydd yn cefnogi'r gofalwyr maeth yn ystod y broses ymchwilio a sut fyddant yn cael eu diweddaru. Os yw cyfarfod strategaeth yn rhoi'r rôl hon i aelod o staff, rhaid gwneud ei statws yn glir i'r holl bartïon er mwyn osgoi dryswch;
- Gwneud trefniadau i gynghori'r gofalwyr maeth na fydd rhagor o leoliadau gofal maeth yn cael eu gwneud yn ystod yr ymholiadau amddiffyn plant;
- Dylai rhiant/rheini'r plentyn gael gwybod ar gam cynnar am yr honiad a'r gweithdrefnau i'w dilyn, a dylid cynnig cefnogaeth ac eiriolaeth iddynt. Dylid ystyried yn ofalus cyn datgelu gwybodaeth i rieni plant eraill yn y lleoliad gofal plant, yn enwedig pan mae angen symud plentyn o ganlyniad i honiad.
- Cytuno ar y rheolwr a fydd yn derbyn y wybodaeth ynglŷn â chanlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol.
- Bydd cofnod llawn o'r cyfarfod yn cael ei wneud, gan gynnwys y rhesymau mewn achos o benderfyniad i beidio â gweithredu ymhellach.

**Cefnogaeth**

Dylai'r sawl sy'n cefnogi'r gofalwyr maeth sicrhau bod gofalwyr maeth;

- Yn deall y pryderon sy'n cael eu mynegi a threfnu i'r gofalwyr maeth ddilysu a rhoi sylw ar y wybodaeth ffeithiol a roddwyd, oni bai bod hyn yn cyfaddawdu unrhyw ymchwiliad troseddol;
- Yn ymwybodol o'r gweithdrefnau amddiffyn plant a fydd yn cael eu dilyn;
- Yn ymwybodol o'r amserlenni a nodwyd ar gyfer y broses;
- Yn cael gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut i gysylltu â Fostering Network ac unrhyw drefniadau cefnogaeth allanol eraill ar gyfer gofalwyr maeth a wneir gan yr awdurdod lleol;
- Yn cael gwybod yn glir am ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant/ymchwiliad troseddol;
- Yn deall y gellir galw ar dystion, gan gynnwys gweithwyr cefnogi, i roi tystiolaeth mewn achos o wrandawiad llys.

**Ar ôl cwblhau ymholiadau amddiffyn plant 47.**

Bydd cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r ymholiadau amddiffyn plant a/neu ymchwiliad troseddol i bennu'r hyn a ddylai ddigwydd nesaf. Dylai'r rheiny sy'n bresennol yn y cyfarfod hwn gynnwys cyfranogwyr y cyfarfod strategaeth, staff a swyddogion sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ymholiadau amddiffyn plant ac ymchwiliad troseddol ac eiriolwr y plentyn. Yn galw'r cyfarfod hwn fydd y rheolwr gwasanaethau cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant a bydd yn ymgymryd â'r tasgau canlynol:

- Gwerthuso'r wybodaeth/canfyddiadau a gasglwyd yn ystod yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol;
- Penderfynu a oes sylwedd i'r honiadau;
- Penderfynu a oes angen camau gweithredu pellach i ddiogelu unrhyw blentyn yng ngoleuni'r wybodaeth a gasglwyd;
- Penderfynu a ddylid galw cynhadledd amddiffyn plant cychwynnol mewn perthynas â'r plentyn/plant maeth a/neu unrhyw blant arall y mae pryderon amddiffyn plant ynghlwm â nhw;

- Ystyried pa wybodaeth, waeth beth fo'r canlyniad, a ddylid ei rhoi i rieni a/neu ofalwyr y plant sy'n destun yr honiadau;
- Sicrhau bod cefnogaeth ar gael yn ôl yr angen i'r plentyn a'r gofalwr maeth;
- dylai'r gofalwyr maeth gael llythyr gan gadeirydd y cyfarfod strategaeth hwn sy'n cynnwys manylion ynglŷn â:
  -Natur yr honiad;
  -Canlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47;
  -Penderfyniadau'r cyfarfod strategaeth.

Yn dilyn unrhyw ymholiad amddiffyn plant adran 47, digwyddiad sylweddol neu gŵyn, dylai'r panel maethu ystyried statws cymeradwyaeth y gofalwyr maeth bob tro. Ymgymerir â hyn fel rhan o Adolygiad Blynyddol. Dylid gosod cofnod o'r honiad a chanlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu ymchwiliad troseddol yn ffeil y gofalwr maeth. Bydd CIW yn cael ei hysbysu o'r canlyniad a'r holl gamau gweithredu yn sgil hynny.

**Rhybudd**

Gall gofalwyr maeth sy'n destun honiadau benderfynu rhoi rhybudd o'u bwriad i beidio â'u gwaith maethu. Mae'r rheoliadau yn caniatáu gofalwyr maeth i ddarparu 28 diwrnod o rybudd o'u bwriad i ymddiswyddo cyn y daw'r ymddiswyddiad i rym. Mae'n debygol yn achos gofalwr maeth yn penderfynu ymddiswyddo yng ngham cynnar yr ymholiadau amddiffyn plant na fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau cyn i'r ymddiswyddiad ddod i rym. Mewn achos o ofalwr maeth eisoes wedi ymddiswyddo, dylai'r panel maethu gael adroddiad yn nodi canlyniadau'r ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol. Mae'n hanfodol sicrhau bod cofnod o drafodaeth y panel ynghyd ag unrhyw gyngor neu argymhellion yn cael eu gosod yng nghofnod asiantaeth y gofalwr maeth. Mewn achos o gais am eirda yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach gan asiantaethau eraill, rhaid i unrhyw ymateb gynnwys sylw ynglŷn â'r argymhellion neu gyngor ac yn

nodi'n glir bod y gofalwr maeth wedi ymddiswyddo cyn i'r asiantaeth wneud penderfyniad ynglŷn â'i statws cymeradwyo.

Rhaid cwblhau ymholiadau amddiffyn plant adran 47 a/neu'r ymchwiliad troseddol, os oes ymddiswyddiad ai peidio. Mae manylion am unrhyw ofalwr maeth sydd wedi'i dynnu oddi ar gofrestriadau lleol o ganlyniad uniongyrchol i honiadau, boed wedi'u profi ai peidio, yn cael eu cyflwyno i'w cynnwys dan y protocolau POCA a POVA ac unrhyw ofynion dilynol dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

**Sylwadau Terfynol**

Mae'r wybodaeth hon yn hir ac mae'n bosibl eich bod wedi dychryn wrth feddwl y gallai rhywun wneud honiad yn eich erbyn chi neu'ch teulu. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i ymchwilio i bob honiad o gamdriniaeth. Cydnabyddwn fod y rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn darparu gofal o safon uchel i blant ac yn ymarfer gofalu mwy diogel iddynt. Prin iawn yw'r achosion o ofalwyr maeth yn cael eu cyhuddo o gam-drin. Fodd bynnag, mae'n hanfodol eich bod chi a'ch teulu yn ymwybodol o'r materion a'ch bod wedi paratoi ymlaen llaw rhag iddo ddigwydd i chi.

Os gwneir honiad, caiff ei ymchwilio'n llawn ac ni fydd unrhyw ragdybiaethau yn cael eu gwneud ynglŷn â beth sydd wedi digwydd. Er mai diogelwch plant yw'r brif flaenoriaeth, mae gan ofalwyr maeth yr hawl i gael dweud eu dweud hefyd. Beth bynnag yw'r canlyniad, mae'r broses ymchwilio yn brofiad poenus i bawb ynghlwm. Dylai'r wybodaeth hon eich darparu chi o leiaf â'r gweithdrefnau, polisïau a chyngor i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath.

# ADRAN 23

## CYNLLUN SEIBIANT BYR CYSWLLT TEULU

Cynllun Seibiant Byr Cyswllt Teulu

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cyswllt Teulu i gefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd i gael mynediad at gefnogaeth drwy gynllun seibiant byr. Mae'r cynllun yn cynnig unrhyw beth o ychydig oriau yr wythnos hyd at benwythnos fesul mis (yn ddibynnol ar angen).

Mae'r cynllun yn cynnig y dewis i blant anabl gael seibiant hanfodol yng nghartrefi gofalwyr cymeradwy ac yn caniatáu i'r plant a'r teuluoedd gael seibiant, lle gall y plant brofi cyfleoedd newydd, tra bod eu teuluoedd yn cael amser i ffwrdd i wneud pethau eraill neu orffwys. Mae'r cynllun yn agored i blant a phobl ifanc anabl o 0 - 18 oed, er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth rhwng 3 - 17 oed.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Teulu (cynllun seibiant byr) yn rhan o'r gwasanaeth maethu ac yn goruchwylio'r gwasanaeth mae Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol neilltuol, a fydd yn cynnal ymweliadau rheolaidd. Yn ogystal, mae'r gofalwyr Seibiant Byr yn cael lwfansau pan maent yn gofalu am y plentyn ac yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr sydd wedi'i anelu at ddarparu'r gofalwyr â'r sgiliau er mwyn iddynt allu cefnogi'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn well.

Gwneir atgyfeiriadau drwy'r tîm plant anabl.

# ADRAN 24

## BWLIO

Bwlio

Mae gan bawb sy'n rhan o fywyd plentyn gyfrifoldeb cyfrannol i annog ymddygiad derbyniol a lleihau'r debygoliaeth o fwlio. Mae angen i ofalwyr maeth yn benodol allu bod yn effro i arwyddion posibl o fwlio, cymryd camau i'w atal a sicrhau bod yr asiantaethau sy'n cefnogi'r plentyn yn cael gwybod.

Mae'n bwysig bod plant yn ein gofal yn glir ynglŷn â beth yw ymddygiad derbyniol, nad yw bwlio yn dderbyniol a beth a ddylid ei wneud os teimlant eu bod yn cael eu bwlio. Bydd angen i chi gael trafodaethau ynglŷn â bwlio a darparu cyfleoedd i'r plant siarad am hyn. Yn ogystal, bydd angen i chi ac eraill yn y cartref ymddwyn fel esiamplau da i arddangos i blant beth yw ymddygiad priodol.

Gall bwlio ddigwydd yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned, a gall gynnwys:

- Profocio a galw enwau;
- Bygythiadau;
- Lladrata;
- Trais corfforol;
- Difrod i eiddo;
- Gadael pobl allan o weithgareddau neu ddigwyddiadau yn fwriadol;
- Lledaenu sïon;
- Bwlio ar-lein drwy e-bost neu rwydweithiau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.
- Drwy ffôn symudol, neges destun,

Mae Bullying.co.uk yn wefan ddefnyddiol sy'n cynnwys cyngor ac arweiniad ynglŷn â bwlio, gan gynnwys:

**Arwyddion i gadw llygad arnynt os ydych chi'n credu bod eich plentyn yn cael ei fwlio**

Efallai eich bod yn ansicr a yw eich plentyn yn rhan o ddigwyddiad o fwlio. Gallai ef neu hi weithredu fel y bwli, yn cael ei f/bwlio neu'n drist ar ôl gweld eraill yn ymddwyn yn ddrwg. Bydd bod ar y blaen gyda chofnodi yn eich helpu chi gyda hyn gan y gallwch weld a yw ymddygiad y plentyn yn wahanol ar ddyddiau penodol neu pan mae'n cwrdd â phobl benodol. Os ydych yn credu bod eich plentyn ynghlwm ag achos o fwlio, yna cadwch lygad am yr arwyddion canlynol:

- cleisiau
- eiddo wedi torri neu ar goll
- dod yn dawelach ei natur, ddim yn siarad, treulio mwy o amser ar ei ben ei hun
- newid mewn arferion bwyta
- newid mewn ymddygiad - dod yn ymosodol gartref
- cysgu'n wael
- cwyno o gur yn y pen neu boen yn y bol
- gwlychu'r gwely
- poeni am fynd i'r ysgol
- ddim yn perfformio gystal yn yr ysgol fwyaf sydyn

Ond gallai fod rheswm arall am yr arwyddion hyn, felly ceisiwch osgoi rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'ch hunan:

- A oes unrhyw beth arall yn poeni fy mhlentyn?
- A oes newidiadau wedi bod gartref, fel babi newydd, neu ysgariad neu wahanu?

Os nad oes unrhyw newidiadau eraill wedi bod ac rydych yn credu mai bwlio sydd wrth wraidd y trallod a gorbryder, mae'n bwysig ceisio gweithredu cyn gynted â phosibl.

**Os yw plentyn yn cael ei fwlio, mae awgrymiadau y gellir eu defnyddio i'w helpu:**

- Gwrandewch heb wylltio neu fynd yn drist, rhowch eich teimladau eich hun i un ochr a dangoswch eich bod wedi gwrando drwy fyfyrio'n ôl gyda'r plentyn ynglŷn â'r hyn y mae wedi'i ddweud wrthoch chi
- Gofynnwch i'r plentyn beth yr hoffai i chi ei wneud nesaf fel nad yw'n teimlo fel petai wedi'i gau allan o wneud benderfyniadau
- Tawelwch meddwl y plentyn drwy ddweud nad ei fai ef yw hyn, nad yw bwlio yn golygu bod yn wan ac nad yw bod yn fwli yn golygu bod yn gryf
- Ceisiwch annog y plentyn i ymddangos yn hyderus hyd yn oed os nad yw'n teimlo felly, weithiau gall pobl ddweud pethau cas oherwydd eu bod eisiau ymateb neu achosi tristwch. Mae rhoi'r argraff nad yw'n poeni yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y bwli yn rhoi'r gorau iddi
- Gall cymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae rôl er mwyn i'r plentyn gael ymarfer ymatebion helpu
- Peidiwch â gadael i'r bwlio reoli bywyd y plentyn, anogwch ef i ymuno â chlwb a all helpu i fagu hyder, cadwch y broblem mewn persbectif a chynigiwch gyfle i wneud cyfeillion newydd.
- Peidiwch â rhoi cymaint o bwysau mewn meysydd eraill yn y tymor byr, megis cwyno am ystafell wely flêr.
- Siaradwch â gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol chi

**Ceisiwch osgoi:**

- Peidiwch â mynd at y bwli neu rieni'r bwli
- Peidiwch â dweud wrth y plentyn am daro a gweiddi enwau yn ôl

- Peidiwch â diystyru ei brofiad drwy ddweud ei fod yn 'rhan o dyfu' gan fod hyn yn addysgu'r plentyn y dylid goddef y bwlio yn hytrach na'i stopio.

Cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun wrth gefnogi'r plentyn. Mae'n bwysig cysylltu â'ch gofalwyr cyswllt, cyd-ofalwyr, eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn a all eich helpu chi i reoli'r sefyllfaoedd heriol hyn.

# ADRAN 25

## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae nifer o faterion i'w hystyried mewn perthynas â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Nid yw'n briodol i ofalwr maeth chwilio ar-lein am aelodau o deulu'r plentyn sydd wedi'i leoli yn ei ofal.

Nid yw'n briodol i ofalwr rannu lluniau o'r plentyn sydd wedi'i leoli yn ei ofal ar gyfryngau cymdeithasol. Yr unig achosion lle mae hyn yn dderbyniol yw os trafodwyd gyda'r gweithiwr cymdeithasol diogelu yn gyntaf a chafwyd caniatâd ganddo ac mae rhieni a/neu'r awdurdod lleol wedi rhoi eu caniatâd hefyd. Cyfrifoldeb y gofalwr yn yr achosion hyn yw sicrhau bod gennych y gosodiadau preifatrwydd llawn ar eich cyfrif.

Mewn rhai achosion, gellir anfon 'ceisiadau i fod yn gyfeillion' neu geisiadau cyfwerth at ofalwyr a'u teuluoedd gan blant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Rhaid trafod y ceisiadau hyn gyda'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a diogelu cyn derbyn cyfeillgarwch ar-lein gydag unrhyw un sydd mewn lleoliad gofal maeth gyda chi neu aelodau ei deulu.

Mae gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn cael ei rhannu'n syth, mae plant ac oedolion yn rhannu gwybodaeth bersonol, yn rhannu lluniau a'u lleoliad drwy ddyfeisiau symudol.

Mae'n bosibl y gall plant sy'n derbyn gofal roi eu hunain mewn perygl drwy rannu gormod o wybodaeth ar-lein. Mae'n bwysig trafod gyda phlant a phobl ifanc am ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel, a pheidio â rhoi gwybodaeth ar-lein ynglŷn â:

- lleoliad eu cartref
- eu hysgol
- lluniau ohonynt lle gellir adnabod rhai o'r lleoliadau hyn, megis llun ohonynt mewn gwisg ysgol.

Mae'n bwysig gwybod bod y wybodaeth a roddir ar-lein yn gallu cael ei cham-drin a'i defnyddio gan y rheiny sy'n bwlio ar-lein. Mae angen i blant a phobl ifanc fod yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac i beidio â dod yn 'gyfeillion' gyda phobl nad ydynt yn eu nabod nac yn ymddiried ynddynt nac yn y byd go iawn ychwaith i helpu osgoi problemau o'r fath. Yn ogystal, mae'n bwysig eich bod chi ac eraill o gwmpas y plentyn yn arddangos defnydd diogel a phriodol o'r rhyngrwyd, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Gall plant sy'n derbyn gofal fod yn fwy tebygol o gyflwyno ymddygiad peryglus i eraill. Gallant weithredu ar eu hemosiynau yn y byd ar-lein, drwy'r gemau y chwaraeant neu drwy eu rhyngweithiad ag eraill. Mae'n bwysig cael trafodaethau am weithredoedd a chanlyniadau y byd go iawn, yn arbennig sut gall ymddygiad effeithio ar deimladau eraill. Trafodir hyn hefyd ym mhennod Bwlio y llawlyfr hwn.

Gall sefydlu rheolau ynglŷn â defnydd diogel o'r rhyngrwyd fod yn anodd pan ddaw'r unigolyn ifanc o gartref lle nad oedd hyn yn cael ei fonitro. Gall yr unigolyn ifanc deimlo bod ei breifatrwydd yn cael ei ddiystyru. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn glir am y rhesymau dros sefydlu mesurau o'r fath a bod y rheolau hyn yn berthnasol i bawb, fel

nad yw'r plentyn / unigolyn ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei wahaniaethu.